



Law
Commission
Reforming the law

Cyfraith Iladdiad: Galwad am Dystiolaeth

14 Awst 2025



© Hawlfraint y Goron 2025

Mae'r cyhoeddiad hwn wedi'i drwyddedu o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored v3.0 oni nodir yn wahanol. I weld y drwydded hon, ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3.

Lle rydym wedi nodi unrhyw wybodaeth hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn <https://lawcom.gov.uk/project/law-of-homicide/>

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynghylch y cyhoeddiad hwn atom yn homicide@lawcommission.gov.uk

Rhestr o'r Cynnwys

PENNOD 1: CYFLWYNIAD	4
Y prosiect	4
Galwad am Dystiolaeth	4
Tarddiad y prosiect	5
Amddiffyniadau dros laddiad ar gyfer dioddefwyr cam-drin domestig sy'n lladd eu camdrinwyr	6
Trosolwg o'r prosiect	6
Yr hyn sydd wedi'i gynnwys yn yr adolygiad lladdiad	6
Yr hyn sydd wedi'i eithrio o'r adolygiad lladdiad	8
Strwythur yr Alwad am Dystiolaeth	9
Diolchiadau	9
 PENNOD 2: TROSEDDAU LLADDIAD	 10
Cyflwyniad	10
Strwythur troseddau lladdiad	10
Y gyfraith bresennol	10
Adroddiad 2006	12
Beirniadaeth o'r strwythur a argymhellwyd yn 2006	13
Yr adolygiad cyfredol o gyfraith lladdiad	16
Mater 1.	17
Yr elfen fai	17
Y gyfraith bresennol	17
Adroddiad 2006	18
Beirniadaeth o argymhellion 2006 ar elfennau bai	19
Yr adolygiad cyfredol o gyfraith lladdiad	20
Mater 2.	20
Cyfranogaeth mewn lladdiad	21
Y gyfraith bresennol	21
Problemau gyda'r gyfraith bresennol	22
Adroddiad 2006	25
Beirniadaeth o argymhellion 2006 ar gyfranogaeth	26
Yr adolygiad cyfredol o gyfraith lladdiad	26
Mater 3.	27
Lladd "trugarog" a chydsyniol	27
Y gyfraith bresennol	27
Adroddiad 2006	28
Beirniadaeth o Adroddiad 2006 ar ladd "trugarog" a chydsyniol	29
Yr adolygiad cyfredol o gyfraith lladdiad	30
Mater 4.	30
Babanladdiad	30

Y gyfraith bresennol	30
Adroddiad 2006	31
Yr adolygiad cyfredol o gyfraith lladdiad	32
Mater 5.	33
Materion eraill i'w hystyried	33
Mater 6.	34
PENNOD 3: AMDDIFFYNIADAU	35
Cyflwyniad	35
Amddiffyniadau rhannol i lofruddiaeth	35
Y gyfraith bresennol	35
Adroddiad 2006	38
Beirniadaeth o argymhellion 2006 ar amddiffyniadau rhannol	40
Problemau gyda'r gyfraith bresennol	42
Yr adolygiad cyfredol o gyfraith lladdiad	46
Mater 7.	46
Mater 8.	47
Amddiffyniadau llawn fel y maent yn ymwneud â throeddau lladdiad	47
Y gyfraith orfodaeth bresennol	47
Adroddiad 2006	48
Beirniadaeth o argymhellion 2006 ar orfodaeth	49
Yr adolygiad cyfredol o gyfraith lladdiad	50
Mater 9.	50
Y gyfraith bresennol ar hunanamddiffyn	50
Yr adolygiad cyfredol o gyfraith lladdiad	51
Mater 10.	52
Amddiffyniadau llawn eraill i'w hystyried yn yr adolygiad lladdiad	52
Mater 11.	52
Cyfraith lladdiad a dioddefwyr cam-drin domestig sy'n lladd eu camdrinwyr	53
Y gyfraith bresennol	53
Problemau gyda'r gyfraith bresennol	55
Yr adolygiad cyfredol o gyfraith lladdiad	59
Mater 12.	60
PENNOD 4: Y FFRAMWAITH DEDFRYDU AR GYFER LLOFRUDDIAETH	61
Cyflwyniad	61
Dedfrydu llofruddiaeth	61
Y gyfraith bresennol	61
Problemau gyda'r gyfraith bresennol	64
Adroddiad 2006	68
Yr adolygiad cyfredol o gyfraith lladdiad	69
Mater 13.	69
Mater 14.	69
Mater 15.	69
PENNOD 5: RHESTR O FATERION	70

CYFEIRIADAU	74
Ffynonellau academiaidd	74
Comisiwn y Gyfraith	78
Llywodraeth	78
Pwyllgor Cyfiawnder Tŷ'r Cyffredin	79
Gwasanaeth Erlyn y Goron	79
Adolygiadau annibynnol	79
Cymdeithas sifil	79
Llysoedd y DU	80
Llys Hawliau Dynol Ewrop	81

Pennod 1: Cyflwyniad

Y PROSIECT

- 1.1 Mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder wedi gofyn i Gomisiwn y Gyfraith adolygu'r gyfraith sy'n ymwneud â throseddau lladdiad,¹ gan gynnwys amddiffyniadau rhannol i lofruddiaeth ac amddiffyniadau llawn,² a'r fframwaith dedfrydu ar gyfer llofruddiaeth.

GALWAD AM DYSTIOLAETH

- 1.2 Yn yr Alwad hon am Dystiolaeth, rydym yn amlinellu'r materion yr ydym yn eu hystyried fel rhan o'r adolygiad hwn. Rydym yn gwahodd tystiolaeth gan randdeiliaid i lywio cam cyntaf y prosiect hwn, sef nodi pynciau y mae angen eu hystyried, a'r problemau gyda'r gyfraith bresennol. Ar hyn o bryd, nid ydym wedi dod i unrhyw safbwyntiau polisi dros dro ar y materion a gynhwysir yn yr adolygiad, ac nid ydym wedi nodi unrhyw gwestiynau ymgynghori. Yn dilyn yr Alwad hon am Dystiolaeth, byddwn yn datblygu cynigion dros dro ar gyfer diwygio. Yna byddwn yn cyhoeddi un neu fwy o bapurau ymgynghori, lle byddwn yn egluro ein safbwyntiau polisi ac unrhyw gynigion dros dro ac yn gofyn am farn ymgynghoreion fel rhan o'n proses ymgynghori.
- 1.3 Rydym wedi dechrau ymchwil ragarweiniol ar sawl agwedd ar gyfraith lladdiad ar gyfer y prosiect hwn. Rydym yn atodi rhestr o gyfeiriadau fel y gall randdeiliaid weld y dystiolaeth a'r deunydd yr ydym yn ymwybodol ohonynt.

Rydym yn croesawu ymatebion i'r Galwad hon am Dystiolaeth erbyn 31 Hydref 2025 i homicide@lawcommission.gov.uk.

Gofynnwn i randdeiliaid nodi rhif y mater y mae eu hymateb yn ymwneud ag ef.

- 1.4 Rydym hefyd yn gwahodd rhanddeiliaid i ddweud wrthym a ydynt yn credu, neu a oes ganddynt dystiolaeth neu ddata i awgrymu bod cyfraith lladdiad yn arwain neu y gallai arwain at fanteision neu anfanteision i rai grwpiau neu'r rhai â nodweddion penodol (gyda sylw arbennig i oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, rhyw, a chyfeiriadedd rhywiol).³

¹ Nodwn, er bod y term "lladdiad" (*homicide*) yn cael ei ddeall yn gyffredinol fel lladd person, mewn cyfraith droseddol mae lladdiad yn derm ehangach sy'n cwmpasu gwahanol droseddau o achosi marwolaeth (gan gynnwys llofruddiaeth a dynladdiad). Rydym yn egluro'r gwahaniaethau rhwng y prif droseddau lladdiad isod o baragraff 2.4.

² Mewn amddiffyniad "rhannol", pan fydd yn llwyddiannus, bydd y diffynnydd yn cael ei euogfarnu o ddynladdiad yn hytrach na llofruddiaeth. Mewn amddiffyniad "llawn", pan fydd yn llwyddiannus, bydd y diffynnydd yn cael ei ganfod yn ddieuog. Rydym yn egluro'r gwahaniaethau rhwng amddiffyniadau isod o baragraff 3.2.

³ Rydym yn cyfeirio drwy gydol yr Alwad hon am Dystiolaeth at rai materion yng nghyfraith lladdiad a allai gael effaith ar rai grwpiau neu unigolion â nodweddion penodol, er enghraifft mewn perthynas ag atebolrwydd menter ar y cyd (o baragraff 2.59 i 2.61), lladd "trugarog" a chydysyniol (o baragraff 2.72), babanladdiad (o

TARDDIAD Y PROSIECT

- 1.5 Roedd cyfraith lladdiad yn destun adolygiad trylwyr gan Gomisiwn y Gyfraith yn gynnar yn y 2000au. Yn gyntaf, fe wnaethom ni gyhoeddi argymhellion ar gyfer diwygio amddiffyniadau rhannol i lofruddiaeth yn 2004.⁴ Yn ail, cyhoeddwyd argymhellion ar gyfer diwygio cyfraith lladdiad yn ein hadroddiad yn 2006 ar lofruddiaeth, dynladdiad a babanladdiad (“Adroddiad 2006”).⁵
- 1.6 Cafodd ein hargymhellion ar ddiwygio amddiffyniadau rhannol i lofruddiaeth eu gweithredu i raddau helaeth yn Neddf Crwneriaid a Chyfiawnder 2009, a ddisodlodd yr amddiffyniad rhannol o gythruddo â'r amddiffyniad o golli rheolaeth ac a ailffurfiodd ofynion yr amddiffyniad rhannol o gyfrifoldeb lleihaedig.⁶ Penderfynodd y Llywodraeth beidio â gweithredu ein hargymhellion ar droseddau lladdiad cyflawn, gan egluro “nad oedd yr amser yn iawn i fwrw ymlaen â diwygiad mor sylweddol o'n cyfraith droseddol”.⁷
- 1.7 Yn ystod y bron i ugain mlynedd ers yr argymhellion hynny, mae'r problemau presennol a nodwyd gennym gyda'r ffordd y mae troseddau lladdiad yn gweithio wedi aros yn ddigyfnewid i raddau helaeth. Yn ein Hadroddiad yn 2006, disgrifiwyd y gyfraith sy'n llywodraethu lladdiad fel
- strwythur simsan wedi'i osod ar sylfeini sigledig. Mae rhai o'i rheolau wedi aros yr un fath ers yr ail ganrif ar bymtheg, er ei bod wedi cael ei chydabod ers tro bod angen dirfawr eu diwygio. Mae'r hyn sydd mewn rheolau eraill yn ansicr, yn aml oherwydd eu bod wedi cael eu newid yn gyson i'r pwynt fel na ellir eu datgan mwyach gydag unrhyw sicrwydd nac eglurder.⁸
- 1.8 Wrth i gymdeithas a'r gyfraith symud ymlaen, mae problemau newydd a rhai datblygiadau deddfwriaethol wedi datgelu cyfyngiadau ychwanegol ar y gyfraith bresennol. Mae'r rhain yn cynnwys gweithredu cyfraith menter ar y cyd a'r amddiffyniadau rhannol diwygiedig i lofruddiaeth, yn ogystal â'r graddau y mae'r gyfraith yn adlewyrchu dealltwriaeth fodern o effeithiau cam-drin domestig.
- 1.9 Ym mis Rhagfyr 2024 gofynnodd y Weinyddiaeth Gyfiawnder inni ailystyried cyfraith lladdiad.⁹ Fel rhan o'r adolygiad newydd hwn o gyfraith lladdiad, rydym wedi cytuno i ailystyried a diweddarau ein hargymhellion o 2006, i ystyried amddiffyniadau llawn ac

baragraff 2.87), lladdiad mewn achosion cam-drin domestig (o baragraff 3.74) a dedfrydu am lofruddiaeth (o baragraff 4.1). Fodd bynnag, rydym yn cydnabod y gallai materion eraill a nodwyd yn yr Alwad hon am Dystiolaeth effeithio ar rai grwpiau neu unigolion â nodweddion penodol ac felly rydym yn croesawu tystiolaeth neu ddata perthnasol ar unrhyw fater.

⁴ [Partial Defences to Murder](#) (2004) Law Com No 290.

⁵ [Murder, Manslaughter and Infanticide](#) (2006) Law Com No 304.

⁶ Rydym yn trafod amddiffyniadau rhannol i lofruddiaeth yn fanwl o baragraff 3.2 isod. Am drafodaeth fanylach o'r rhyngweithio rhwng argymhellion 2004 a 2006, gweler yn benodol paragraff 3.4.

⁷ Y Weinyddiaeth Gyfiawnder, [Report on the implementation of Law Commission proposals](#) (Ionawr 2011) HC 719 para 54.

⁸ [Murder, Manslaughter and Infanticide](#) (2006) Law Com No 304, para 1.8.

⁹ Y Weinyddiaeth Gyfiawnder, Domestic killers face tougher sentences in latest move to halve violence against women and girls, [Datganiad i'r Wasg](#) (6 Rhagfyr 2024).

amddiffyniadau rhannol i lofruddiaeth, yn enwedig nawr bod diwygiadau 2009 wedi cael amser i ymsefydlu, ac i gynnal adolygiad cyflawn o'r fframwaith dedfrydu ar gyfer llofruddiaeth.¹⁰

Amddiffyniadau dros laddiad ar gyfer dioddefwyr cam-drin domestig sy'n lladd eu camdrinwyr

- 1.10 Fel rhan o'i hymateb i Adolygiad Dedfrydau Lladdiad Domestig Clare Wade KC yn 2023, gofynnodd y Llywodraeth i Gomisiwn y Gyfraith adolygu'r defnydd o amddiffyniadau mewn achosion o laddiad domestig.¹¹ Er gwaethaf diwygio amddiffyniadau rhannol i lofruddiaeth, a ddisgrifiwyd uchod, a fwriadwyd hefyd i gydnabod y cyd-destun y mae dioddefwyr cam-drin domestig yn lladd eu camdrinwyr, mae cwestiynau'n parhau ynghylch a yw gweithredu'r amddiffyniadau hyn yn y cyd-destun hwn, o ymchwiliad yr heddlu i'r achos llys, yn arwain at ganlyniadau teg. Yn yr ugain mlynedd diwethaf, mae nifer o achosion proffil uchel wedi tynnu sylw at bryderon parhaus ynghylch y ffordd y mae'r gyfraith yn gweithredu ar gyfer dioddefwyr cam-drin domestig sy'n lladd eu camdrinwyr.¹²
- 1.11 Ym mis Mai 2024, fe wnaethom lansio ein hadolygiad o amddiffyniadau ar gyfer dioddefwyr cam-drin domestig sy'n lladd eu camdrinwyr.¹³ Ym mis Rhagfyr 2024, cyhoeddwyd papur cefndir a oedd yn crynhoi'r dealltwriaethau modern o gam-drin domestig a sut maent yn berthnasol i achosion lle mae dioddefwyr cam-drin yn lladd eu camdrinwyr.¹⁴ Mae'r adolygiad hwnnw bellach wedi'i uno â'r adolygiad lladdiad ehangach. Bydd hyn yn caniatáu inni ystyried yn fwy cyfannol sut mae cyfraith lladdiad yn gweithredu pan fydd dioddefwr cam-drin domestig yn lladd ei gamdriniwr. Byddwn yn parhau â'n gwaith ar amddiffyniadau i ddioddefwyr cam-drin domestig sy'n lladd eu camdrinwyr o fewn ymbarél y prosiect lladdiad ehangach hwn ac yn ystyried hefyd droseddau lladdiad a dedfrydu ar gyfer y grŵp hwn o ddifffynyddion. Rydym yn trafod y materion hyn yn fanwl o baragraff 3.74.

TROSOLWG O'R PROSIECT

Yr hyn sydd wedi'i gynnwys yn yr adolygiad lladdiad

- 1.12 Mae ein prosiect yn cynnwys tair elfen: troseddau lladdiad, amddiffyniadau llawn a rhannol, a'r fframwaith dedfrydu ar gyfer llofruddiaeth. Isod, rydym yn darparu trosolwg o'r materion o fewn pob elfen, a drafodir yn fanylach yn yr adrannau perthnasol.

¹⁰ Mae Cylch Gorchwyl y prosiect ar gael [yma](#).

¹¹ Y Weinyddiaeth Gyfiawnder, [Government Response to the Independent Review by Clare Wade KC](#) (Gorffennaf 2023) CP 872. Trafodir Adolygiad Wade yn fanwl o baragraff 3.82 i 3.84.

¹² Er enghraifft, euogfarn Sally Challen am lofruddiaeth a gafodd ei gwrthdroi yn 2019 ar apel (*R v Challen* [2019] EWCA Crim 916, [2019] Criminal Law Review 980) ac yna derbyniwyd ple o ddynladdiad. Euogfarn Fariessia Martin yn 2015 am lofruddiaeth a gafodd ei gwrthdroi hefyd ar apel yn 2020 (*R v Martin* [2020] EWCA Crim 1798) ac yna derbyniwyd ple o ddynladdiad.

¹³ Mae Cylch Gorchwyl y prosiect lladdiad domestig ar gael [yma](#).

¹⁴ [Defences for victims of domestic abuse who kill their abusers. Background Paper](#) (10 Rhagfyr 2024). Rydym yn trafod y papur cefndir isod ym mharagraff 3.75.

Troseddau lladdiad

- 1.13 Byddwn yn adolygu gwahanol elfennau troseddau lladdiad, a'r berthynas rhwng y troseddau hynny. Er mwyn gwneud hynny, byddwn yn ystyried yn gyntaf i ba raddau y mae angen diweddarau ac ailystyried argymhellion Comisiwn y Gyfraith yn 2006 ar lofruddiaeth, dynladdiad a babanladdiad.
- 1.14 Yn Adroddiad 2006, argymhellwyd disodli'r strwythur dwy haen presennol, sy'n cynnwys lofruddiaeth a dynladdiad, gyda strwythur tair haen, sy'n cynnwys lofruddiaeth gradd gyntaf, lofruddiaeth ail radd, a dynladdiad. Roedd dynladdiad anfwriadol yn destun adolygiad cynharach gan Gomisiwn y Gyfraith, fodd bynnag ni chafodd yr argymhellion a wnaethom ym 1996 eu gweithredu.¹⁵ Yn Adroddiad 2006, fe wnaethom adeiladu ar yr adolygiad cynharach hwnnw i ystyried rôl troseddau dynladdiad, a'u helfennau bai, o fewn y strwythur tair haen a argymhellir.¹⁶
- 1.15 Yn ogystal ag argymell strwythur tair haen, mae Adroddiad 2006 yn cynnwys argymhellion ynghylch agweddau eraill sy'n gysylltiedig â'r troseddau lladdiad. Mae hyn yn cynnwys diwygio'r diffiniad o elfennau meddylol, cyfranogaeth, lladd "trugarog" a chydysniol, a babanladdiad.¹⁷ Mae'r rhain hefyd yn rhan o'n hadolygiad presennol, i'r graddau y gofynnir i ni nawr ailystyried a diweddarau ein hargymhellion o 2006. Rydym yn trafod y materion hyn yn yr adrannau perthnasol isod ac yn gwahodd tystiolaeth.

Amddiffyniadau

- 1.16 Byddwn hefyd yn adolygu amddiffyniadau rhannol i lofruddiaeth ac amddiffyniadau llawn (yn ôl y perthnasedd i droseddau lladdiad). Bydd hyn yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i:
- (1) ystyried rôl amddiffyn o fod dan orfodaeth;
 - (2) adolygiad o weithredu amddiffyniadau rhannol o golli rheolaeth a chyfrifoldeb lleihaedig, yn dilyn eu diwygio gan Ddeddf Crwneriaid a Chyfiawnder 2009; ac
 - (3) ystyried amddiffyniadau ar gyfer dioddefwyr cam-drin domestig sy'n lladd eu camdrinwyr
- 1.17 Yn 2006, fe wnaethom ystyried sut y dylai amddiffyniadau rhannol weithredu o fewn ein strwythur tair haen a argymhellir. Fe wnaethom hefyd edrych ar yr amddiffyniad o fod dan orfodaeth ac argymell y dylai fod ar gael fel amddiffyniad i lofruddiaeth. Ni

¹⁵ [Involuntary Manslaughter](#) (1996) Law Com No 237. Dim ond mewn perthynas â chyflwyno'r drosedd o ddynladdiad corfforaethol yn Ndeddf Dynladdiad Corfforaethol a Lladdiad Corfforaethol 2007 y gweithredwyd ein hargymhellion. Cafodd yr argymhellion ynghylch "lladd di-hid" a "lladd drwy esgeulustod dybryd" eu disodli gan yr argymhellion a wnaed yn Adroddiad 2006 ar laddiad: gweler [Annual Report 2006-07](#) (2007) Law Com No 306, para 3.12. Adolygwyd cyfraith dynladdiad anfwriadol gan y Llywodraeth hefyd: gweler y Swyddfa Gartref, [Reforming the Law on Involuntary Manslaughter: The Government's Proposals](#) (Mai 2000).

¹⁶ [Murder, Manslaughter and Infanticide](#) (2006) Law Com No 304, para 1.38 a 2.161.

¹⁷ Gwnaethom argymhellion hefyd ar orfodaeth yn Adroddiad 2006, a drafodir yn yr elfen amddiffyniadau o baragraff 3.55 i 3.59.

wnaethom adolygu amddiffyniadau llawn eraill, fel hunanamddiffyn ac angenrheidrwydd, gan awgrymu yn hytrach eu bod yn haeddu adolygiad ar wahân.¹⁸

- 1.18 Byddwn nawr yn ystyried pa rai o'r amddiffyniadau llawn sy'n gofyn am adolygiad o fewn cwmplas y prosiect lladdiad newydd hwn. Rydym yn trafod amddiffyniadau rhannol a llawn yn fanwl ym Mhennod 3 ac yn gwahodd tystiolaeth.

Fframwaith dedfrydu ar gyfer llofruddiaeth

- 1.19 Byddwn yn ystyried y fframwaith dedfrydu ar gyfer llofruddiaeth. Mae'r fframwaith dedfrydu ar gyfer llofruddiaeth yn wahanol. Llofruddiaeth yw'r unig drosedd sy'n cario dedfryd oes orfodol, a dyma'r unig drosedd y mae'r fframwaith dedfrydu ar ei chyfer mewn deddfwriaeth o dan gylch gwaith Senedd y DU, ac nid mewn canllawiau dedfrydu o dan gylch gwaith y Cyngor Dedfrydu annibynnol.¹⁹ Rôl y barnwr yn dilyn euogfarn am llofruddiaeth yw gosod y cyfnod lleiaf y mae'n rhaid i droseddwr ei dreulio cyn y gellir ystyried ei ryddhau. Mae'r fframwaith deddfwriaethol ar gyfer pennu'r cyfnod lleiaf wedi'i gynnwys yn bennaf yn Atodlen 21 i'r Cod Dedfrydu. Rydym yn trafod y fframwaith dedfrydu ar gyfer llofruddiaeth yn fanwl ym Mhennod 4.

- 1.20 Yn ddiweddar, comisiynodd y Weinyddiaeth Gyfiawnder Adolygiad Dedfrydu annibynnol ar wahân, dan gadeiryddiaeth y Gwir Anrhydeddus David Gauke. Mae Cylch Gorchwyl yr adolygiad hwnnw'n nodi:

Mae rhai meysydd pwysig yr ydym yn ystyried y byddai orau i'w datblygu y tu allan i'r adolygiad. Ni fydd yr adolygiad yn ystyried diwygio fframwaith dedfrydu ar gyfer llofruddiaeth yn gyfan gwbl. Er y gallai'r adolygiad ystyried effaith dedfrydu am llofruddiaeth ar y fframwaith dedfrydu ehangach, mae'r adran yn ystyried diwygio cyfraith lladdiad a dedfrydu ar wahân yn gyfan gwbl.²⁰

- 1.21 Cyflwynodd yr Adolygiad Dedfrydu ddau adroddiad i'r Arglwydd Ganghellor ym mis Chwefror a mis Mai 2025.²¹ Bydd ein hadolygiad yn ystyried y canfyddiadau a wnaed yn yr adroddiadau i'r graddau y maent yn berthnasol i gyfraith lladdiad. Rydym yn trafod y canfyddiadau hyn o baragraff 4.30.

Yr hyn sydd wedi'i eithrio o'r adolygiad lladdiad

- 1.22 Fel yr eglurwyd yn y Cylch Gorchwyl, rydym wedi cytuno â'r Weinyddiaeth Gyfiawnder nad yw'n briodol mynd i'r afael â rhai materion fel rhan o'r adolygiad hwn.
- 1.23 Yn gyntaf, bydd yr adolygiad dim ond yn ystyried meysydd ewthanasia a chyfranogiad mewn hunanladdiad gan eu bod yn rhan o gyfraith lladdiad, nid y materion sy'n

¹⁸ Gweler y drafodaeth isod ym mharagraff 3.49.

¹⁹ Sefydlwyd y Cyngor Dedfrydu gan Ddeddf Crwneriaid a Chyfiawnder 2009 i baratoi canllawiau dedfrydu. Fe ddisodlodd y Panel Cyngori ar Ddedfrydu a'r Cyngor Canllawiau Dedfrydu. Rhaid i lysoedd ddilyn y canllawiau dedfrydu, oni bai y byddai'n groes i fuddiannau cyfiawnder i wneud hynny: gweler y Cod Dedfrydu, adran 59(1).

²⁰ Mae'r Cylch Gorchwyl ar gael [yma](#).

²¹ [Independent Sentencing Review. History and Trends in Sentencing](#) (Chwefror 2025); [Independent Sentencing Review. Final Report and Proposals for Reform](#) (Mai 2025).

gysylltiedig â'u cyfreithloni a'u rheoleiddio o bosibl.²² Ni fydd yr adolygiad ychwaith yn ystyried troseddau sy'n ymwneud ag achosi niwed i ffetws.

- 1.24 Yn ail, ni fydd yr adolygiad hwn yn gwneud argymhellion ar gyfer newidiadau i ganllawiau dedfrydu, sydd yn faes cyfrifoldeb y Cyngor Dedfrydu. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod y gallai unrhyw argymhellion a wnawn effeithio ar y canllawiau dedfrydu perthnasol, os caiff yr argymhellion hynny eu gweithredu.
- 1.25 Yn drydydd, bydd yr adolygiad hwn yn tybio y bydd y ddedfryd orfodol o garchar am oes am lofruddiaeth yn parhau i fodoli (neu'r ffurf fwyaf difrifol o lofruddiaeth os argymhellir strwythur haenog ar gyfer y troseddau), ac y bydd y fframwaith dedfrydu ar gyfer llofruddiaeth yn parhau i gael ei nodi mewn deddfwriaeth sylfaenol.

STRWYTHUR YR ALWAD AM DYSTIOLAETH

- 1.26 Mae'r Alwad am Dystiolaeth yn adlewyrchu strwythur dros dro ein prosiect ac felly mae wedi'i rhannu'n dair elfen: troseddau lladdiad, amddiffyniadau, a fframwaith dedfrydu ar gyfer llofruddiaeth.
- 1.27 Ar gyfer pob mater a nodwn o fewn y tair elfen, rydym yn rhoi trosolwg o'r gyfraith bresennol, yn egluro ein hargymhellion yn 2006 (os oedd y mater eisoes wedi'i gynnwys yn ein hadolygiad blaenorol), ac yn darparu crynodeb o'r sylwadau ar yr argymhellion ac ar y gyfraith bresennol, yn enwedig yng ngoleuni'r datblygiadau sydd wedi digwydd ers 2006. Pan fo'n berthnasol, rydym hefyd yn darparu trosolwg o'r heriau a godwyd gan yr hen gyfraith i esbonio pwrpas diwygio deddfwriaethol diweddar mewn rhai meysydd.
- 1.28 O ran y sylwadau ar ein hargymhellion yn 2006, at ddibenion y ddogfen hon rydym yn canolbwyntio'n bennaf ar rai o'r heriau a'r feirniadaeth a nodwyd gan sylwebyddion mewn gwaith cyhoeddedig ers cyhoeddi ein Hadroddiad yn 2006. Nid ydym yn darparu cyfrif cynhwysfawr o'r holl sylwadau sydd ar gael ar ein hargymhellion yn 2006. Yn wir, un o amcanion yr Alwad hon am Dystiolaeth yw casglu dystiolaeth ychwanegol ynghylch yr argymhellion hyn. Gellir gweld trafodaeth fanwl o safbwyntiau'r ymgynghoreion a roddodd ymatebion i'n hadolygiad blaenorol, o blaid ac yn erbyn y diwygiad a argymhellwn i gyfraith lladdiad, ym mhapur ymgynghori 2005²³ a'r adroddiad terfynol yn 2006.

DIOLCHIAU

- 1.29 Hoffai'r Comisiynwyr gofnodi eu diolch i'r aelodau staff canlynol a weithiodd ar yr Alwad hon am Dystiolaeth: David Connolly (rheolwr tîm), Roseanna Peck (uwch gyfreithiwr y tîm), Dr Andrea Preziosi (cyfreithiwr y tîm), Grace Bowland ac Abigail Pope (cynorthwyr ymchwil).

²² Gweler y drafodaeth isod o baragraff 2.72 mewn perthynas â lladd "trugarog" a chydsyniol.

²³ [A New Homicide Act for England and Wales?](#) (2005) Papur Ymgynghori Comisiwn y Gyfraith Rhif 177. Mae'r papur ymgynghori yn cynnwys barn yr ymgynghoreion am ein cynigion dros dro, ac mae rhai ohonynt yn wahanol i'r argymhellion terfynol a gynhwysir yn Adroddiad 2006.

Pennod 2: Troseddau lladdiad

CYFLWYNIAD

- 2.1 Mae elfen gyntaf ein hadolygiad yn ymwneud â throseddau lladdiad cyflawn. Dyma'r materion sydd wedi'u cynnwys yn yr elfen hon: sylwedd a strwythur troseddau lladdiad, diffiniad elfennau bai, cyfranogaeth mewn llofruddiaeth, lladd "trugarog" a chydysyniol, a babanlladdiad.
- 2.2 Dyma faterion a gafodd eu cynnwys yn ein hadolygiad blaenorol o laddiad ac sydd bellach o fewn cwrpas ein hadolygiad presennol, gan ein bod wedi cael ein gofyn i ailystyried a diweddarau ein hargymhellion yn 2006. Nid yw hyn yn golygu, fodd bynnag, bod yr adolygiad presennol wedi'i gyfyngu i faterion a nodwyd yn ein hadolygiad blaenorol. Byddwn hefyd yn ystyried a ddylai unrhyw faterion ychwanegol sy'n berthnasol i droseddau lladdiad cyflawn fod yn rhan o'r adolygiad hwn. Rydym yn gwahodd tystiolaeth ar hyn ym mharagraff 2.104 isod.
- 2.3 Rydym yn cydnabod na ellir bob amser gwahanu rhai o'r materion a drafodir yn yr amddiffyniadau a'r elfennau dedfrydu oddi wrth drafodaeth am y troseddau lladdiad cyflawn.¹ Fodd bynnag, rydym yn cadw'r elfennau ar wahân yn y ddogfen hon a, phan fo'n berthnasol, yn tynnu sylw at y meysydd lle mae gorgyffwrdd rhwng yr elfennau yn yr adrannau priodol.

STRWYTHUR TROSEDDAU LLADDIAD

Y gyfraith bresennol

- 2.4 Ar hyn o bryd mae dwy drosedd lladdiad gyffredinol yng Nghymru a Lloegr: llofruddiaeth a dynlladdiad.²
- 2.5 Cyflawnir llofruddiaeth pan fydd person (y diffynnydd, neu "D") yn lladd person arall yn anghyfreithlon (y dioddefwr, neu "V") gyda'r bwriad naill ai o ladd V neu o achosi niwed corfforol difrifol i V. Mae llofruddiaeth yn arwain at ddedfryd oes orfodol.
- 2.6 Gellir cyflawni dynlladdiad, sy'n cario dedfryd oes ddewisol, yn un o'r ffyrdd canlynol:³

¹ Er enghraifft, fel y trafodwn isod, gall amddiffyniadau rhannol effeithio ar strwythur troseddau lladdiad. Yn yr un modd, gall strwythur troseddau lladdiad effeithio ar ddedfryd. Mae ein hadolygiad o gyfraith lladdiad mewn perthynas â dioddefwyr cam-drin domestig sy'n lladd eu camdrinwyr yn torri ar draws y tair elfen, fel y trafodwn isod hefyd.

² Mae yna droseddau lladdiad penodol eraill, fel babanlladdiad ac achosi marwolaeth drwy yrru'n beryglus. Mae babanlladdiad yn dod yn benodol o fewn ein Cylch Gorchwyl (ac o fewn Cylch Gorchwyl yr adolygiad blaenorol) ac fe'i trafodir isod o baragraff 2.87.

³ Nid yw'r dosbarthiad yn ddi-ddadleuol, gan fod dynlladdiad trwy ddi-hidwydd a thrwy esgeulustod dybryd weithiau'n cael eu hystyried yn un categori sengl gyda gofynion bai gwahanol: gweler [Murder, Manslaughter and Infanticide](#) (2006) Law Com No 304, t 4. At ddiben yr Alwad hon am Dystiolaeth, byddwn yn defnyddio'r dosbarthiad a ddilynwyd gan Adroddiad 2006.

- (1) lladd drwy ymddygiad neu anweithred yr oedd D yn gwybod ei fod yn cynnwys risg o achosi marwolaeth neu niwed difrifol ("dynladdiad di-hid");
- (2) lladd drwy ymddygiad neu anweithred a oedd ym mhob un o'r amgylchiadau yn ddifrifol esgeulus o ystyried y risg o farwolaeth ("dynladdiad esgeulustod dybryd");
- (3) lladd trwy ymddygiad⁴ a oedd yn gyfystyr â gweithred anghyfreithlon yn cynnwys perygl o achosi rhywfaint o niwed ("dynladdiad gweithred anghyfreithlon");
- (4) lladd gyda'r bwriad sy'n ofynnol ar gyfer trosedd llofruddiaeth ond lle mae amddiffyniad rhannol yn berthnasol, sef colli rheolaeth, cyfrifoldeb lleihaedig neu ladd yn unol â chytundeb hunanladdiad.

Cyfeirir yn gyffredin at ddynladdiad sy'n dod o dan (1) i (3) fel "dynladdiad anwirfoddol", tra bod y term "dynladdiad gwirfoddol" yn cael ei ddefnyddio'n gyffredin i gyfeirio at (4).

2.7 Esboniodd Adroddiad 2006 y problemau gyda'r strwythur dwy haen hwn o droseddau lladdiad, y gellir eu crynhoi fel a ganlyn:⁵

- (1) Mae llofruddiaeth yn rhy gul ac yn rhy eang: o dan y gyfraith bresennol, mae diffynnydd yn atebol am llofruddiaeth nid yn unig pan oeddent yn bwriadu lladd, ond hefyd pan oeddent yn bwriadu achosi niwed difrifol, heb ragweld marwolaeth fel canlyniad posibl. Fodd bynnag, gellir dadlau bod gwahaniaeth moesol rhwng diffynnydd a fwriadodd achosi marwolaeth ac a lwyddodd, a diffynnydd a fwriadodd achosi niwed, er yn ddifrifol, a arweiniodd at farwolaeth y dioddefwr. Nid yw'r gwahaniaeth moesol hwn yn cael ei adlewyrchu'n ddigonol yn y gyfraith bresennol, sy'n grwpio'r ddwy elfen o fai gyda'i gilydd o dan y label "llofruddiaeth". Ar yr un pryd, mae ymddygiad sy'n dod o dan y drosedd o ddynladdiad (di-hid) ar hyn o bryd y gellid dadlau na ddylid ei labelu'n "ddynladdiad", er ei fod yn llai difrifol nag ymddygiad tebyg lle'r oedd diffynnydd yn bwriadu ladd;
- (2) mae dynladdiad yn rhy eang: lle mae llofruddiaeth yn rhy gul, am y rheswm a eglurwyd uchod, mae dynladdiad yn rhy eang yn yr un modd, gan fod y drosedd yn cwmpasu ymddygiad y mae ei elfennau bai yn wahanol iawn, y gellid dadlau ei fod yn adlewyrchu gwahanol raddau o fai. Mae hyn yn amlwg, er enghraifft, yng ngoleuni'r gwahaniaeth rhwng dynladdiad gwirfoddol ac anwirfoddol: yn y cyntaf, nid oedd y diffynnydd yn bwriadu lladd, tra yn yr olaf roedd y diffynnydd yn bwriadu lladd, ond llwyddodd i godi amddiffyniad rhannol.

2.8 Mae problemau eraill gyda'r gyfraith lladdiad bresennol yr ydym yn eu crynhoi ar wahân yn yr adrannau perthnasol isod.

⁴ Mae'r Llys Apêl wedi dyfarnu na all dynladdiad, gweithred anghyfreithlon, ddeillio o anweithred: *R v Lowe* [1973] QB 702. Os yw achos yn cynnwys anweithred, yn ymarferol gall yr erlyniad gyhuddo dynladdiad drwy esgeulustod dybryd yn lle hynny (ar yr amod bod gan D ddyletswydd gofal i V).

⁵ [Murder, Manslaughter and Infanticide](#) (2006) Law Com No 304, para 1.15 i 1.31.

Adroddiad 2006

2.9 Yn 2006, argymhellwyd y dylid disodli'r strwythur dwy haen presennol â strwythur tair haen. Dadleuom ni y byddai hyn yn adlewyrchu difrifoldeb y troseddau yn fwy digonol ac yn cyfyngu'r ddedfryd oes orfodol i'r mathau mwyaf difrifol o lofruddiaethau.⁶

2.10 Roedd ein strwythur a argymhellwyd yn Adroddiad 2006 fel a ganlyn:

- (1) **Llofruddiaeth gradd gyntaf** (dedfryd oes orfodol)
 - (a) Lladd yn fwriadol.
 - (b) Lladd lle roedd y troseddwr yn bwriadu achosi anaf difrifol ac yn ymwybodol bod risg ddifrifol o achosi marwolaeth.
- (2) **Llofruddiaeth ail radd** (dedfryd uchaf o garchar am oes (dewisol))
 - (a) Lladd lle roedd y troseddwr yn bwriadu achosi anaf difrifol.
 - (b) Lladd lle roedd y troseddwr yn bwriadu achosi rhyw anaf neu ofn neu risg o anaf, ac yn ymwybodol o risg ddifrifol o achosi marwolaeth.
 - (c) Lladd lle mae amddiffyniad rhannol i'r hyn a fyddai fel arall yn llofruddiaeth gradd gyntaf.
- (3) **Dynladdiad** (dedfryd uchaf o garchar am oes (dewisol))
 - (a) Lladd trwy esgeulustod dybryd mewn perthynas â risg o achosi marwolaeth.
 - (b) Lladd trwy weithred droseddol:
 - (i) wedi'i bwriadu i achosi anaf; neu
 - (ii) lle roedd ymwybyddiaeth bod y weithred yn cynnwys risg ddifrifol o achosi anaf.
 - (c) Cymryd rhan mewn menter droseddol ar y cyd lle mae cyfranogwr arall yn cyflawni llofruddiaeth gradd gyntaf neu ail radd, mewn amgylchiadau lle dylai fod wedi bod yn amlwg y gallai llofruddiaeth gradd gyntaf neu ail radd gael ei chyflawni gan gyfranogwr arall.

2.11 O dan ein strwythur a argymhellir, byddai'r amddiffyniadau rhannol o gythruddo (colli rheolaeth bellach) a chyfrifoldeb lleihaedig wedi lleihau llofruddiaeth gradd gyntaf i

⁶ [Murder, Manslaughter and Infanticide](#) (2006) Law Com No 304, para 1.64 i 1.67.

lofruddiaeth ail radd, tra o dan y gyfraith bresennol mae amddiffyniadau rhannol yn lleihau lofruddiaeth i ddynladdiad.⁷

- 2.12 Trafodom hefyd ystyr “niwed corfforol”, a ddefnyddiwyd yn draddodiadol mewn troseddau angheuol a throseddau nad ydynt yn angheuol yn erbyn y person.⁸ Daethom i'r casgliad nad yw'r term yn cwmpasu niwed sy'n deillio o anhwylder neu salwch seiciatrig cydnabyddedig yn ddigonol ac felly na ddylid ei ddefnyddio.⁹ Gwnaethom yr argymhelliad canlynol:

2.13 Rydym yn argymhell y dylid defnyddio'r term 'anaf' yn lle'r geiriau 'niwed corfforol'.¹⁰

- 2.14 Yn ein strwythur a argymhellir, mae bwriad i achosi “anaf difrifol” yn elfen o lofruddiaeth gradd gyntaf ac ail radd. Fodd bynnag, ni wnaethom argymhell diffiniad o “difrifol”, gan mai mater i'w adael i'r rheithgor (wrth ddychwelyd dyfarniad) a'r barnwr (a fydd yn adlewyrchu graddfa'r niwed a fwriadwyd yn ystod y cam dyfarnu) yw penderfynu graddfa'r anaf.¹¹

Beirniadaeth o'r strwythur a argymhellwyd yn 2006

- 2.15 Ers i'r Llywodraeth benderfynu peidio â gweithredu ein hargymhellion ar strwythur troseddau lladdiad, mae'r problemau gyda'r strwythur dwy haen presennol wedi parhau heb eu datrys.
- 2.16 Fel yr eglurwn uchod, rydym yn canolbwyntio ein trafodaeth yn bennaf ar y feirniadaeth o Adroddiad 2006.¹² Cafodd ein strwythur argymelledig dderbyniad ffafriol yn gyffredinol, gyda'r rhan fwyaf o'r feirniadaeth wedi'i hanelu at y categorieiddio penodol o droseddau o fewn yr haenau, yn hytrach na'r strwythur ei hun.¹³ Yn fwy cyffredinol, dadleuodd rhai sylwebyddion fod prif resymeg ein cyfundrefn argymelledig

⁷ Rydym yn trafod amddiffyniadau rhannol ym Mhennod 3.

⁸ [Murder, Manslaughter and Infanticide](#) (2006) Law Com No 304, para 2.82 i 2.84.

⁹ Mae bellach wedi'i sefydlu bod rhaid deall bod "niwed corfforol" yn cynnwys anhwylder neu salwch seiciatrig cydnabyddedig: *R v Chan-Fook* [1994] 1 WLR 689; *R v Ireland* [1998] AC 147.

¹⁰ “anaf”: “injury” / “niwed corfforol”: “bodily harm”. [Murder, Manslaughter and Infanticide](#) (2006) Law Com No 304, para 2.85.

¹¹ Uchod, paragraffau 2.86 i 2.94.

¹² Gweler paragraffau 1.27 ac 1.28 uchod.

¹³ Ymhlith llawer: J Rogers, “The Law Commission’s Proposed Restructuring of Homicide” (2006) 70 *Journal of Criminal Law* 223; V Tadros, “The Homicide Ladder” (2006) 69 *Modern Law Review* 601; A Ashworth, “Principles, Pragmatism and the Law Commission’s Recommendations on Homicide Law Reform” [2007] *Criminal Law Review* 333; A Bickle, “Proposed Reforms to Partial Defences and Their Implications for Mentally Disordered Defendants” (2008) 1 *Journal of Mental Health Law* 38; W Wilson, “The Structure of Criminal Homicide” [2006] *Criminal Law Review* 471.

i bob golwg yn lliniaru effaith a chyrhaeddiad y ddedfryd oes orfodol, heb ystyried yn ddigonol ddadleuon cydlyniant moesol a labelu teg.¹⁴

- 2.17 Er bod yr argymhellion wedi'u disgrifio fel rhai "pragmatig",¹⁵ teimlai rhai y dylai'r Adroddiad fod wedi bod yn gliriach ynglŷn â'r egwyddorion sy'n sail i'r cynigion, a dylai fod wedi sicrhau bod y rhesymeg hon yn gyson drwyddi draw. Awgrymodd yr Athrawon Oliver Quick a Celia Wells fod y strwythur tair haen "yn brin o arlliw", yn enwedig mewn perthynas â'r amddiffyniadau rhannol wedi'u hailffurfio, a dadleuon nhw fod dadansoddiad moesol a chysyniadol wedi'i anwybyddu o blaid symrlwydd "sy'n gyfeillgar i reithgor".¹⁶ Nododd eraill fod categorieiddio troseddau lladdiad yn ôl graddau o fai, er ei fod yn synhwyrol, yn un o nifer o bosibiliadau a allai fod ar gael i gydnabod gwahanol lefelau o euogrwydd moesol.¹⁷
- 2.18 Gwnaed beirniadaeth debyg mewn perthynas ag ystyriaeth annigonol o labelu teg. Disgrifiodd Catherine Elliott a'r Athro Claire de Than y gyfraith bresennol a'r strwythur tair haen arfaethedig fel "offeryn crai" i ddelio ag ystod eang o ffurfiau o laddiad.¹⁸ Awgrymasant nad yw'r elfen bai ar ei phen ei hun yn ddigonol i wahaniaethu rhwng troseddau, gan gymryd ffactorau labelu teg pwysig fel cymhelliad a pha mor agored i niwed yw dioddefwyr allan o ddwylo'r rheithgor. Roedd y beirniadaethau hyn yn fwyaf amlwg mewn perthynas â dosbarthiad troseddau o fewn y strwythur tair haen, ac yn enwedig "lled" llofruddiaeth ail radd.¹⁹
- 2.19 Mae rhai wedi beirniadu'r rôl a chwaraeir gan amddiffyniadau rhannol o fewn y strwythur a argymhellir am amrywiaeth o resymau. Rydym yn cyfeirio at yr elfen hon o feirniadaeth isod o baragraff 3.20. Unwaith eto, beirniadaeth gyffredin yn y cyd-destun hwn oedd bod gormod o droseddau wedi'u grwpio o dan y label llofruddiaeth ail radd. Er enghraifft, dadleuodd rhai nad oedd diffynyddion y barnwyd bod eu heuogrwydd wedi'i leihau oherwydd ple llwyddiannus o amddiffyniad rhannol yn perthyn i'r un categori â throseddau eraill ar y 'gris' honno o'r ysgol.²⁰
- 2.20 Cydnabu'r Athro Jeremy Horder, Comisiynydd y Gyfraith dros Gyfraith Droseddol adeg ein hadolygiad blaenorol o laddiad, wrth ysgrifennu flynyddoedd ar ôl cyhoeddi Adroddiad 2006 ac ar ôl i'w gyfnod fel Comisiynydd ddod i ben, fod dadleuon o blaid ac yn erbyn y strwythur presennol yn "eithaf cyfartal", ond bod "yr achos dros gyfraith

¹⁴ Er enghraifft, nododd yr Athro Wilson (uchod, 471) "yn anochel, mae'r pragmatiaeth sy'n llywio'r cynigion cyfan yn datgelu dylanwad niweidiol eu cylch gorchwyl, sy'n eithrio ystyried y ddedfryd orfodol". Yn yr un modd, gweler Bickle (uchod, 40-42).

¹⁵ Gweler er enghraifft W Wilson, "What's Wrong with Murder?" (2007) 1 *Criminal Law and Philosophy* 157, 163.

¹⁶ O Quick a C Wells, "Getting Tough with Defences" [2006] *Criminal Law Review* 514, 515. Er gwaethaf y beirniadaethau hyn, roedd yr Athrawon Quick a Wells o'r farn bod papur ymgynghori 2005 yn cyflwyno ysgol daclusach a chliriach o droseddau a mwy o gysondeb wrth gymhwyso amddiffyniadau na'r gyfraith bresennol.

¹⁷ V Tadros, "The Homicide Ladder" (2006) 69 *Modern Law Review* 601, 602-603.

¹⁸ C Elliott a C de Than, "Restructuring the Homicide Offences to Tackle Violence, Discrimination and Drugs in a Modern Society" (2009) 20 *King's Law Journal* 69.

¹⁹ Gweler, er enghraifft, A Bickle, "Proposed Reforms to Partial Defences and their Implications for Mentally Disordered Defendants" (2008) 1 *International Journal of Mental Health and Capacity Law* 38.

²⁰ Gweler y drafodaeth fanwl isod o baragraff 3.21 i 3.23.

lladdiad tair haen yn dal yn gryf".²¹ Fel y dadleuodd, "mae potensial ar gyfer mwy o soffistigeiddrwydd moesol mewn dyfarniad rheithgor sy'n adlewyrchu dewis rhwng tair gradd wahanol o droseddau lladdiad",²² gan fod cyflwyno llofruddiaeth ail radd yn cynnig mwy o eglurder nag asesiad dewisol lle caniateir i'r barnwr a'r rheithgor benderfynu, mewn achos penodol, na ddylid gosod y ddedfryd o garchar am oes.

- 2.21 Rhybuddiodd rhai y byddai'r strwythur tair haen, er ei fod yn well na'r gyfraith bresennol, yn dwyn goblygiadau ymarferol nad oedd Adroddiad 2006 yn mynd i'r afael â nhw'n ddigonol.²³ Roedd y rhain yn cynnwys y risg o reithgorau 'rhanedig' yn deillio o'r ffurfiau lluosog o lofruddiaeth ail radd, y risg o ddrysu rheithgorau gyda llwybrau lluosog i ddyfarniad, ac ansicrwydd ynghylch y sail ffeithiol dros ddedfrydu. Yn Adroddiad 2006, gwnaethom sylwi, o dan y gyfraith bresennol, y gall rheithgor na all gytuno ar ddyfarniad o lofruddiaeth ddychwelyd dyfarniad amgen o ddynladdiad heb yr angen am ail dreial.²⁴ Daethom i'r casgliad y byddai'r un peth yn berthnasol o dan y strwythur tair haen a argymhellir, gan y byddai gan reithgorau'r posibilrwydd o ddychwelyd dyfarniad amgen o lofruddiaeth ail radd neu ddynladdiad, yn dibynnu ar y cyhuddiad ar y gyhuddeb. Roeddem o'r farn na fyddai cyflwyno haen ganol (lofruddiaeth ail radd) yn arwain at nifer fwy o achosion lle byddai angen ail dreial pe bai rheithgor wedi'i rannu.²⁵ Fodd bynnag, mae rhai wedi sylwi bod problem rheithgorau 'rhanedig' yn parhau, ac felly hefyd y risg o orfodi rheithgorau i ddod i ddyfarniad cyfaddawd. Rhoddodd yr Athro Richard Taylor enghraifft o ddiffynnydd sy'n dweud ei fod wedi cael ei gythruddo, ond nad oedd ganddo unrhyw fwriad i ladd nac achosi anaf difrifol beth bynnag, a hyd yn oed os oedd yn bwriadu anaf difrifol, nid oedd ganddo unrhyw ymwybyddiaeth o'r risg ddifrifol o achosi marwolaeth. Os yw rheithwyr wedi'u rhannu ynghylch pa un o'r cynigion hyn y maent yn eu derbyn, byddai hyn yn arwain at dair rhesymeg sylfaenol wahanol dros ddyfarniad o lofruddiaeth ail radd. Ni fyddai'r rheithgor yn gallu dod i un sail ffeithiol ar gyfer euogfarn, a fyddai o bosibl yn golygu bod angen ail dreial.²⁶ Nid yw'r mater hwn yn unigryw i'n diwygiad a argymhellir, ond efallai ei fod wedi'i waethygu ganddo. Ystyriodd Dr Jonathan Rogers enghraifft debyg a nododd yr anhawster y byddai hyn yn ei greu ar gyfer dedfrydu, o ystyried na fyddai gan farnwyr unrhyw syniad ynghylch ar ba sail y dychwelwyd y dyfarniad o lofruddiaeth ail radd.²⁷

²¹ J Horder, "The Mandatory Sentence and the Case for Second-degree Murder" in A Reed, M Bohlander, N Wake, E Engleby a V Adams (gol), *Homicide in Criminal Law. A Research Companion* (2019) t 7. Am fwy o fanylion, gweler J Horder, *Homicide and the Politics of Law Reform* (2012).

²² Uchod t 8.

²³ A Ashworth, "Principles, Pragmatism and the Law Commission's Recommendations on Homicide Law Reform" [2007] *Criminal Law Review* 333, 342.

²⁴ Gweler y Ddeddf Cyfraith Troseddol, adran 6(2).

²⁵ [Murder, Manslaughter and Infanticide](#) (2006) Law Com No 304, para 2.117 i 2.121. Fodd bynnag, pwysleisiasom na ddylai ychwanegu cyhuddiadau newydd ddod yn weithdrefn arferol, gan y gallai fod er budd cyfiawnder i orchymyn ail dreial yn lle hynny.

²⁶ R Taylor, "The Nature of 'Partial Defences' and the Coherence of (Second-degree) Murder" [2007] *Criminal Law Review* 345, 356-358.

²⁷ J Rogers, "The Law Commission's Proposed Restructuring of Homicide" (2006) 70 *Journal of Criminal Law* 223, 228-232. Cefnogodd Dr Rogers y strwythur tair haen arfaethedig ar gyfer troseddau lladdiad. Fodd bynnag, pwysleisiodd rai meysydd, megis y posibilrwydd o ddyfarniadau rhanedig, y teimlai y byddent yn elwa o drafodaeth bellach.

- 2.22 Adleisiodd yr Athro Horder yr un pryderon ynghylch anghytundeb posibl rhwng y rheithgor. Dadleuodd, er bod strwythur tair haen yn cynyddu eglurder moesol, “nad yw mwy o ddewis o reidrwydd yn well na llai” oherwydd, yn enwedig mewn achosion gyda sawl diffynnydd, “po fwyaf yw nifer y dyfarniadau posibl, y mwyaf yw’r cwnmpas ar gyfer anghytundeb rhwng rheithgorau ynghylch y canlyniad cywir, ac felly’r mwyaf yw’r cwnmpas ar gyfer treialon amhendant”.²⁸ Dadleuodd yr Athro Horder fod y strwythur a gynigiwyd dros dro yn y papur ymgynghori (gyda llofruddiaeth wedi’i chyfyngu i fwriad i ladd)²⁹ yn symlach a byddai wedi achosi llai o broblemau i reithgorau, gan sylwi mai “y casgliad rydw i wedi dod iddo, yn seiliedig ar y profiad yng Nghymru a Lloegr, yw y dylai symlrwydd fod yn allweddair”.³⁰
- 2.23 Roedd pryderon pellach bod Adroddiad 2006 yn rhy amwys o ran diffiniadau pwysig. Nododd sylwebyddion fel yr Athro Andrew Ashworth, er gwaethaf ymrwymiad Comisiwn y Gyfraith i eglurder, nad oedd sawl ymadrodd allweddol wedi cael eu harchwilio’n fanwl.³¹ Ar “anaf difrifol”, er enghraifft, cytunodd yr Athro Ashworth â’n hargymhelliad i ddisodli “niwed corfforol” gydag “anaf”, ond dadleuodd y dylid bod wedi diffinio “difrifol” o leiaf yn rhannol, gan ei fod yn chwarae rhan hanfodol wrth wahaniaethu rhwng llofruddiaeth gradd gyntaf (sy’n gofyn am fwriad i achosi “anaf difrifol”) a’r ail fath o lofruddiaeth ail radd (sy’n gofyn am fwriad i achosi “rhywfaint o anaf”).³² Yn yr un modd, nododd yr Athro William Wilson yr anawsterau o ran diffinio beth sy’n cyfrif fel anaf “difrifol”, ond dadleuodd fod absenoldeb diffiniad yn anfodddhaol ac yn symud y baich i’r rheithgor.³³

Yr adolygiad cyfredol o gyfraith lladdiad

- 2.24 Dyfeisio strwythur o droseddau lladdiad a fyddai’n adlewyrchu gwahanol lefelau o euogrwydd yn ddigonol yw man cychwyn unrhyw ddiwygiad i gyfraith lladdiad. Gan fod yr adolygiad presennol hefyd yn ymwneud ag ailystyried a diweddarau argymhellion 2006, byddwn yn dechrau trwy ailedrych ar y strwythur tair haen a argymhellwyd, yn ogystal â’r categorïau ym mhob haen, gan ystyried manteision ac anfanteision y strwythur hwnnw ac ystyried categorïau amgen posibl o droseddau lladdiad.

²⁸ J Horder, “The Mandatory Sentence and the Case for Second-degree Murder” in A Reed, M Bohlander, N Wake, E Engleby a V Adams (gol), *Homicide in Criminal Law. A Research Companion* (2019) t 8.

²⁹ [A New Homicide Act for England and Wales?](#) (2005) Law Commission Consultation Paper No 177, para 1.38 i 1.40.

³⁰ J Horder, “[Issues in Reforming Homicide Law: the English Experience](#)”: Seminar a drefnwyd gan Gomisiwn y Gyfraith yr Alban ar Strwythur Lladdiad a’r Elfen Feddyliol (2018).

³¹ A Ashworth, “Principles, Pragmatism and the Law Commission’s Recommendations on Homicide Law Reform” [2007] *Criminal Law Review* 333, 344. Mynegodd yr Athro Ashworth ei edmygedd o gynnwys Adroddiad 2006 a chefnogodd ddefnyddio “egwyddor yr ysgol” wrth ddiwygio cyfraith lladdiad. Gwnaeth sylwadau beirniadol mewn perthynas ag elfennau o’r adroddiad, gan gynnwys y diffiniadau o lofruddiaeth gradd gyntaf ac ail radd a’r argymhellion ar orfodaeth.

³² Uchod, tt. 335 – 336.

³³ W Wilson, “What’s Wrong with Murder?” (2007) 1 *Criminal Law and Philosophy* 157, 176. Cefnogodd yr Athro Wilson y defnydd o strwythur tair haen, ac ystyriodd fod Comisiwn y Gyfraith yn iawn i fabwysiadu’r hyn a ystyriai ef yn ddull “pragmatig” o ddiwygio. Dywedodd fod y cynigion dros dro yn y papur ymgynghori wedi “gwella’n fawr” yn yr adroddiad terfynol, gan nodi cryfder y pecyn cyfan.

Mater 1.

- 2.25 Rydym yn gwahodd tystiolaeth ar fanteision ac anfoneision strwythur presennol troseddau lladdiad (strwythur dwy haen sy'n cynnwys llofruddiaeth a dynladdiad).
- 2.26 Rydym yn gwahodd tystiolaeth ar fanteision ac anfoneision strwythur troseddau lladdiad a argymhellwyd gennym yn 2006 (strwythur tair haen sy'n cynnwys llofruddiaeth gradd gyntaf, llofruddiaeth ail radd a dynladdiad).
- 2.27 Rydym yn gwahodd tystiolaeth ar strwythurau amgen posibl ar gyfer troseddau lladdiad.

YR ELFEN FAI

Y gyfraith bresennol

- 2.28 Nid oes unrhyw ddiffiniadau statudol o elfennau bai troseddau lladdiad. Mae llysoedd wedi darparu rhywfaint o arweiniad ynghylch eu hystyr dros amser. Isod rydym yn darparu trosolwg o elfennau bai troseddau lladdiad.
- 2.29 Yr elfen fai mewn llofruddiaeth yw'r bwriad i ladd neu achosi niwed corfforol difrifol. Yn ôl y gyfraith gyffredin, mae "bwriad" yn cael ei ddeall fel bwriad person i sicrhau canlyniad penodol. Er enghraifft, mae D wedi penderfynu lladd V ac yn ei saethu, gan achosi ei farwolaeth. Yn y rhan fwyaf o achosion, dylid rhoi ei ystyr cyffredin i fwriad.³⁴ Mae achosion, fodd bynnag, lle gallai'r ddealltwriaeth gyffredin o fwriad fod yn rhy gul. Mewn achosion o'r fath, mae'n agored i'r rheithgor ganfod bod gan D y bwriad angenrheidiol pan nad oedd D yn bwriadu (fel y'i deallir yn gyffredin) y canlyniad, ond bod y canlyniad (ac eithrio rhyw ymyrraeth annisgwyl) yn ganlyniad bron yn sicr o weithred D.³⁵ Er enghraifft, nid yw D yn bwriadu lladd V ond mae'n gwrthio V oddi ar glogwyn uchel, gan achosi marwolaeth V. Mewn achos o'r fath, gellir cymryd bod D wedi bwriadu'r canlyniad (marwolaeth V). Cyfeirir at hyn yn gyffredin fel bwriad "anunion" neu "anuniongyrchol".
- 2.30 Yr elfen fai mewn dynladdiad di-hid yw rhagweld risg o farwolaeth neu anaf difrifol. Fel y nodwyd uchod ym mharagraff 2.6, anaml y caiff dynladdiad di-hid ei gyhuddo, gan ei bod fel arfer yn bosibl dibynnu ar fathau eraill o droseddau dynladdiad anwirfoddol.³⁶
- 2.31 O ran dynladdiad drwy esgeulustod dybryd, y rheithgor sydd i asesu, "o ystyried y risg o farwolaeth dan sylw, a oedd ymddygiad y diffynnydd mor ddrwg ym mhob

³⁴ Yn *R v Moloney* [1985] AC 905, 926, nododd yr Arglwydd Bridges "wrth gyfarwyddo rheithgor ar yr elfen feddyliol sy'n angenrheidiol mewn trosedd o fwriad penodol, dylai'r barnwr osgoi unrhyw ymhelaethiad neu grynhoi yr hyn a olygir gan fwriad a'i adael i synnwyr cyffredin y rheithgor benderfynu a weithredodd y diffynnydd gyda'r bwriad angenrheidiol".

³⁵ *R v Woollin* [1999] AC 82. Am fodel cyfarwyddyd y rheithgor ar fwriad anuniongyrchol, gweler Judicial College, [*The Crown Court Compendium. Part I: Jury and Trial Management and Summing Up*](#) (Ebrill 2025 diweddariad), tt 144-145.

³⁶ Am achos prin, gweler *R v Lidar* [2000] 2 Cr App R 328. Dadleuwyd nad yw dynladdiad di-hid yn bodoli fel trosedd dynladdiad ar wahân: F Stark, "Reckless Manslaughter" [2017] *Criminal Law Review* 767.

amgylchiad fel ei fod yn gyfystyr yn eu barn nhw â gweithred droseddol neu anweithred".³⁷ Wrth gynnal yr asesiad, rhaid i'r rheithgor ystyried a fyddai person rhesymol o ddoeth yn sefyllfa D wedi rhagweld risg amlwg o farwolaeth.³⁸

Adroddiad 2006

2.32 Yn 2006, gwnaethom argymhellion ynghylch ystyr rhai elfennau bai troseddau lladdiad.

2.33 Argymhellwyd gennym y dylid codio'r gyfraith bresennol sy'n llywodraethu ystyr bwriad fel a ganlyn:

- (1) Dylid cymryd bod person yn bwriadu canlyniad os yw'n gweithredu er mwyn ei gyflawni.
- (2) Mewn achosion lle mae'r barnwr yn credu na ellir gwneud cyfiawnder oni bai bod dealltwriaeth ehangach o fwriad yn cael ei rhoi, dylid cyfarwyddo'r rheithgor fel a ganlyn: gellir canfod bwriad i sicrhau canlyniad os dangosir bod y diffynnydd o'r farn bod y canlyniad yn ganlyniad bron yn sicr o'i weithred ef neu hi.³⁹

2.34 Yn ein strwythur tair haen a argymhellwyd, fe wnaethom ddefnyddio'r termau "ymwybyddiaeth" o "risg ddifrifol" o farwolaeth. Fe wnaethom gydnabod nad yw defnyddio'r termau hyn yn debygol o achosi anawsterau ymarferol, ond penderfynom ni argymell diffiniad o'r termau hyn.

2.35 Fe wnaethom ni argymell y diffiniadau canlynol:

- (1) Dylid deall bod 'ymwybyddiaeth' o risg yn cynnwys cyfeirio'n ymwybodol at risg.
- (2) Dylid ystyried risg yn 'ddifrifol' os yw'n fwy na dibwys neu'n fach iawn.⁴⁰

2.36 Fe wnaethom ni hefyd ymdrin ag elfennau bai dynladdiad anfwriadol. Daethom i'r casgliad nad oedd angen cadw trosedd ar wahân o ddynladdiad di-hid yn ein strwythur tair haen a argymhellwyd, gan y byddai ymddygiad sy'n draddodiadol yn dod

³⁷ *R v Adomako* [1995] 1 AC 171.

³⁸ *R v Rose* [2017] EWCA Crim 1168, [2018] QB 328.

³⁹ [Murder, Manslaughter and Infanticide](#) (2006) Law Com No 304, para 3.27.

⁴⁰ Uchod, paragraffau 3.35 a 3.40.

o dan y categori hwnnw yn cael ei gynnwys o fewn llofruddiaeth ail radd (neu, mewn achosion llai difrifol, byddai'n cael ei gynnwys gan ddynladdiad esgeulustod dybryd).⁴¹

- 2.37 Gwnaethom argymhellion ynghylch yr elfen fai mewn dynladdiad esgeulustod dybryd, gan adeiladu ar adolygiad cynharach Comisiwn y Gyfraith o ddynladdiad anfwriadol.⁴²

2.38 Fe wnaethom argymhell mabwysiadu'r diffiniad o achosi marwolaeth drwy esgeulustod dybryd a roddwyd yn ein hadroddiad cynharach ar ddynladdiad:

- (1) mae person trwy ei ymddygiad yn achosi marwolaeth rhywun arall;
- (2) byddai risg y byddai ei ymddygiad ef neu hi yn achosi marwolaeth yn amlwg i berson rhesymol yn ei sefyllfa ef neu hi;
- (3) mae ef neu hi'n gallu gwerthfawrogi'r risg honno ar yr adeg berthnasol; ac
- (4) mae ei ymddygiad ef neu hi ymhell islaw'r hyn y gellir ei ddisgwyl yn rhesymol ganddo neu ganddi o dan yr amgylchiadau.⁴³

Beirniadaeth o argymhellion 2006 ar elfennau bai

- 2.39 Mae rhai wedi beirniadu ein diffiniadau a argymhellir o elfennau bai. O ran y diffiniad o fwriad, er enghraifft, nododd yr Athro Victor Tadros fod y diffiniad yn ehangach na'r ystyr cyffredin o fwriad, gan ei fod yn cynnwys rhagweld marwolaeth fel rhywbeth oedd bron yn sicr, a allai achosi dryswch i reithgorau. Dull gwell, yn ei farn ef, byddai wedi bod i ddiffinio bwriad yn gul ac yna datblygu diffiniadau ychwanegol o gyflyrau meddwl nad ydynt yn fwriad, ond sy'n ddigonol i gyflawni elfen fai llofruddiaeth.⁴⁴ Yn yr un modd, nododd yr Athro Ashworth nad oedd y diffiniad arfaethedig yn egluro a ddylid ystyried rhagweld marwolaeth fel rhywbeth oedd bron yn sicr fel math o fwriad neu fel categori ar wahân o fai.⁴⁵

- 2.40 Ailadroddodd yr Athrawon Tadros ac Ashworth feirniadaeth adnabyddus o'r prawf 'bron yn sicr', lle y *gallai* rheithgor ganfod bwriad, ond *nid oes rheidrwydd* arnynt i wneud hynny, pan fyddant yn canfod bod marwolaeth yn ganlyniad bron yn sicr o

⁴¹ Uchod, paragraffau 3.52 i 3.57. Ar ddynladdiad di-hid o dan y gyfraith bresennol, gweler paragraff 2.30 uchod.

⁴² [Involuntary Manslaughter](#) (1996) Law Com No 237, para 5.34. Gweler hefyd uchod ym mharagraff 1.14.

⁴³ [Murder, Manslaughter and Infanticide](#) (2006) Law Com No 304, para 3.60.

⁴⁴ V Tadros, "The Homicide Ladder" (2006) 69 *Modern Law Review* 601, 604. Ystyriodd yr Athro Tadros fod y cynigion dros dro yn y papur ymgynghori yn 2005 yn "drawiadol, dychmygus a manwl", a chredai y byddent yn unioni rhai o'r diffygion yn y gyfraith bresennol. Fodd bynnag, awgrymodd fod gwendidau penodol yn y diffiniadau o droseddau a rôl yr amddiffyniadau rhannol.

⁴⁵ A Ashworth, "Principles, Pragmatism and the Law Commission's Recommendations on Homicide Law Reform" [2007] *Criminal Law Review* 333, 334.

weithred D.⁴⁶ Nid yw'r diffiniad a argymhellir, yn eu barn nhw, yn nodi o dan ba amgylchiadau y gallai rheithgor ddod i'r casgliad bod marwolaeth yn ganlyniad bron yn sicr o weithred D, ond gwrthod canfod bwriad.⁴⁷

- 2.41 O ran risg “ddifrifol”, cwestiynodd yr Athro Ashworth a yw'r dewis o “difrifol” yn hytrach nag, er enghraifft, risg “sylweddol” yn synhwyrol, o ystyried bod cyfeiriadau yn y strwythur a argymhellir hefyd at “risg ddifrifol o farwolaeth” ar gyfer llofruddiaeth gradd gyntaf ac ail radd. Tynnodd yr Athro Ashworth sylw hefyd at y ffaith bod y diffiniad a argymhellir yn cynnwys dealltwriaeth o risg nad yw'n gyfyngedig i ddifrifoldeb anaf ond sy'n cynnwys hefyd “risg y dylid ei chymryd o ddifri”,⁴⁸ gan gyflwyno dwy elfen werthusol mewn gwirionedd i'r rheithgor.⁴⁹

Yr adolygiad cyfredol o gyfraith lladdiad

- 2.42 Waeth beth fo unrhyw strwythur posibl troseddau lladdiad, mae elfennau bai yn hanfodol i wahaniaethu rhwng gwahanol lefelau o euogrwydd. O ganlyniad, maent yn chwarae rhan hanfodol hefyd o ran labelu teg a gosod dedfrydau.
- 2.43 Fel rhan o'n hadolygiad, byddwn yn ystyried yr heriau a godir gan elfennau bai'r troseddau lladdiad presennol (llofruddiaeth a dynladdiad) ac a oes angen diffiniadau statudol ar yr elfennau bai ac, os felly, sut y dylid eu diffinio.

Mater 2.

- 2.44 Rydym yn gwahodd tystiolaeth ar y defnydd o elfennau bai troseddau lladdiad presennol ac unrhyw heriau y maent wedi'u codi yn ymarferol.
- 2.45 Rydym yn gwahodd tystiolaeth ar fanteision ac anfanteision diffinio elfennau bai'r troseddau lladdiad presennol ac ar eu diffiniadau posibl.
- 2.46 Rydym yn gwahodd tystiolaeth ar fanteision ac anfanteision y diffiniadau o'r elfennau bai a argymhellwyd gennym yn 2006.

⁴⁶ Gweler, ymhlith llawer, A Norrie, “After *Woollin*” [1999] *Criminal Law Review* 532; J C Smith, “Commentary on *R v Woollin*” [1998] *Criminal Law Review* 890. Yn *R v Matthews* [2003] EWCA Crim 192, [2003] 2 Cr App R 30, dyfarnodd y Llys Apêl fod y rheithgor wedi cael cyfarwyddyd anghywir bod yn *rhaid* iddynt ganfod bwriad os rhagwelwyd canlyniad fel un bron yn sicr.

⁴⁷ V Tadros, “The Homicide Ladder” (2006) 69 *Modern Law Review* 601, 604-607; A Ashworth, “Principles, Pragmatism and the Law Commission’s Recommendations on Homicide Law Reform” [2007] *Criminal Law Review* 333, 334-335. Yn Adroddiad 2006, gwnaethom nodi mai'r disgresiwn a adawyd i reithgorau yw “pris osgoi cymhlethdod” a fyddai'n cael ei greu gan set fwy helaeth o reolau (paragraff 3.21).

⁴⁸ [Murder, Manslaughter and Infanticide](#) (2006) Law Com No 304, para 3.36.

⁴⁹ A Ashworth, “Principles, Pragmatism and the Law Commission’s Recommendations on Homicide Law Reform” [2007] *Criminal Law Review* 333, 336-337.

CYFRANOGAETH MEWN LLADDIAD

Y gyfraith bresennol

- 2.47 Nid yw cyfraith cyfranogaeth (a elwir hefyd yn atebolrwydd "affeithiol" neu "eilaidd") yn berthnasol yn unig i droseddau lladdiad. Isod rydym yn darparu trosolwg o fathau o atebolrwydd affeithiol, i'r graddau y mae'n berthnasol i'n hadolygiad o gyfraith lladdiad.⁵⁰
- 2.48 Cyn i ni drafod rheolau cyfreithiol ar gyfranogaeth, mae'n bwysig egluro'r derminoleg. Pan fydd trosedd yn cael ei gyflawni gan fwy nag un troseddwr, gall eu cyfraniad at gyflawni'r drosedd amrywio yn dibynnu ar eu rôl. Er enghraifft, os yw P yn lladd V a D yn gyrru'r car dianc, P yw'r "prif droseddwr" (oherwydd mai P gyflawnodd y weithred o ladd), a D yw'r "cyd-droseddwr", a elwir hefyd yn "affeithiwr" neu'n "barti eilaidd" (oherwydd bod D wedi cynorthwyo P i gyflawni'r drosedd). Fodd bynnag, gallai dau ddiffynnydd fod yn "gyd-brif droseddwr" os ydynt ill dau yn cyflawni'r drosedd gyda'r un elfen feddyliol: er enghraifft, ymosododd D1 a D2 ar V ar yr un pryd gyda'r bwriad o ladd, gan achosi marwolaeth V.
- 2.49 Mae cyfranogaeth wedi'i datblygu'n bennaf yn y gyfraith gyffredin, ond gellir dod o hyd i'w sylfaen statudol yn adran 8 o Ddeddf yr Affeithwyr a Chynorthwyr 1861:
- Pwy bynnag a gynorthwyo, annog, cynghori, neu beri cyflawni unrhyw drosedd ditiadwy, boed honno'n drosedd o dan y gyfraith gyffredin neu yn rhinwedd unrhyw Ddeddf a basiwyd neu sydd i'w phasio, bydd yn agored i gael ei roi ar brawf, ei gyhuddo, a'i gosbi fel prif droseddwr.
- 2.50 Mae'r gyfraith droseddol yn cosbi cynorthwyo neu annog cyflawni trosedd. Mae Rhan 2 o Ddeddf Troseddau Difrifol 2007 ("SCA 2007") yn nodi tair trosedd ar wahân: annog neu gynorthwyo trosedd yn fwriadol; annog neu gynorthwyo trosedd gan gredu y bydd yn cael ei chyflawni; ac annog neu gynorthwyo troseddau gan gredu y bydd un neu fwy yn cael eu cyflawni.⁵¹ Disodlodd y troseddau'r hen drosedd cyfraith gyffredin o annog, gan weithredu'n rhannol yr argymhellion a wnaed gan Gomisiwn y Gyfraith yn 2006.⁵² Troseddau anghyflawn ('*inchoate*') ydyn nhw, sy'n golygu bod D yn atebol os yw'n gwneud gweithred "sy'n gallu annog neu gynorthwyo" cyflawni un neu fwy o droseddau troseddol gan P.⁵³ Mae D yn wynebu atebolrwydd p'un a yw'r weithred wedi annog neu gynorthwyo'r drosedd(au) ai peidio, a ph'un a yw P yn parhau i gyflawni trosedd ai peidio. Er enghraifft, lle mae D yn rhoi gwn i P i ladd y dioddefwr, does dim ots a yw P wedyn yn taflu'r gwn i ffwrdd: Bydd D yn atebol cyn belled â bod y weithred (trosglwyddo gwn) yn *gallu* cynorthwyo P i ladd y dioddefwr.⁵⁴

⁵⁰ Roedd cyfraith cyfranogaeth (*law of complicity*) yn destun ein hadolygiad ddiwethaf tua'r un amser â'n hadolygiad blaenorol o gyfraith lladdiad: gweler [Participating in Crime](#) (2007) Law Com No 305. Nid yw'r Llywodraeth wedi gweithredu ein hargymhellion.

⁵¹ Yn y drefn honno, adrannau 44, 45 a 46.

⁵² [Inchoate Liability for Assisting and Encouraging Crime](#) (2006) Law Com No 300. Yn arbennig, fe argymhellon ni gyflwyno dwy drosedd, yn hytrach na'r tair a gyflwynwyd yn y pen draw gan y SCA 2007.

⁵³ Mae 'inchoate' yn golygu 'anghyflawn' neu 'annatblygedig'. Pwrpas atebolrwydd anghyflawn yw troseddoli ymddygiad cyn i niwed ddigwydd. Enghreifftiau eraill o atebolrwydd anghyflawn yw ymgais a chynllwynio.

⁵⁴ Rhaid i D hefyd fod â'r elfen feddyliol sy'n ofynnol gan adrannau 44, 45 neu 46.

- 2.51 O dan athrawiaeth cyfraith gyffredin menter ar y cyd, lle mae mwy nag un parti i drosedd, gellir euogfarnu'r parti eilaidd (D) o'r drosedd a gyflawnwyd gan y prif droseddwr (P), ar yr amod bod gan D fwriad "amodol" ar gyfer y drosedd fwy difrifol. Er enghraifft, os yw'r lladron banc yn cytuno y byddant yn saethu gweithiwr banc os oes angen, gellir euogfarnu pob un o lofruddiaeth os caiff un gweithiwr ei saethu gan P ac yn marw. Er mwyn i D gael ei euogfarnu o drosedd y prif droseddwr, byddai angen profi bod D wedi bwriadu, pe bai P yn defnyddio'r arf, y byddai P yn gwneud hynny gyda'r bwriad o ladd neu achosi niwed difrifol.
- 2.52 Arferai math o fenter ar y cyd godi o dan yr hyn a gyfeiriwyd ato weithiau fel "atebolrwydd affeithiol parasitig", lle gellid euogfarnu D o lofruddiaeth pe bai D yn rhagweld y gallai P ladd y dioddefwr yn fwriadol neu ei niweidio'n ddifrifol.⁵⁵ Mewn geiriau eraill, roedd rhagwelediad, yn hytrach na bwriad amodol, yn ddigonol i ganfod bod D yn atebol am yr un drosedd a gyflawnwyd gan P. Yn 2016, penderfynodd cyfansoddiad Goruchaf Lys y DU a'r Cyfrin Gyngor yn achosion cyfunedig *Jogee a Ruddock* bod y gyfraith gyffredin wedi cymryd "tro anghywir": yn hytrach na rhagweld trosedd y prif droseddwr yn unig, rhaid bod y parti eilaidd wedi'i fwriadu.⁵⁶ Nid yw rhagwelediad yn ddim mwy na thystiolaeth y gallai rheithgor gasglu ohoni fod gan y parti eilaidd y bwriad amodol sy'n ofynnol ar gyfer y drosedd fwy difrifol a gyflawnwyd gan y prif droseddwr. Mae hwn yn gwestiwn o ffaith i'r rheithgor.

Problemau gyda'r gyfraith bresennol

- 2.53 Fel y nodwyd gennym yn ein hadroddiad blaenorol *Participating in Crime*, "mae athrawiaeth atebolrwydd eilaidd wedi datblygu'n ddi-drefn ac mae ansicrwydd yn ei thrwytho".⁵⁷ Mae hyn yn parhau i fod yn wir yn dilyn y datblygiadau a ddigwyddodd yn ystod y deunaw mlynedd diwethaf. Isod rydym yn darparu trosolwg o rai llinellau beirniadaeth a ddaeth i'r amlwg mewn perthynas â'r datblygiadau hyn.
- 2.54 O ran y troseddau o annog a chynorthwyo troseddu, mae consensws bod Deddf Diogelu Plant 2007 wedi creu fframwaith rhy gymhleth. Yn adroddiad 2013 ar y craffu ôl-ddeddfwriaethol ar Ran 2 SCA 2007 a gynhaliwyd gan Bwyllgor Cyfiawnder Tŷ'r Cyffredin, cytunodd yr Athrawon Child, Spencer a Virgo fod y dair trosedd o annog a chynorthwyo, a'u helfennau priodol, yn anodd iawn i'w dehongli, gan awgrymu eu diddymu a'u disodli'n llwyr.⁵⁸ Nododd yr Athrawon Spencer a Virgo fod SCA 2007:

yn cynnwys cymalau a oedd yn seiliedig ar Fil Drafft Comisiwn y Gyfraith, ond fel y'u hailadroddwyd gan y Swyddfa Gartref roeddent wedi dod yn llawer mwy cymhleth,

⁵⁵ Fel arfer, priodolir tarddiad yr athrawiaeth i achos y Cyfrin Gyngor o *Chan Wing-Siu v The Queen* [1985] AC 168.

⁵⁶ *R v Jogee, Ruddock v The Queen* [2016] UKSC 8, [2016] UKPC 7, [2017] AC 387.

⁵⁷ [Participating in Crime](#) (2007) Law Com No 305, para 1.12.

⁵⁸ Post-legislative Scrutiny of Part 2 (Encouraging or Assisting Crime) of the Serious Crime Act 2007, [Report of the House of Commons Justice Committee](#) (2013-14) HC 639, Appendix A (llythyrau gan academyddion).

gan greu tair trosedd newydd yn lle dwy a gynigiwyd gan Gomisiwn y Gyfraith, ac yn llawer mwy gormesol, oherwydd bod yr elfen bai wedi'i gwanhau.⁵⁹

- 2.55 Mae llysoedd hefyd wedi cael trafferth gwneud synnwyr o'r troseddau. Yn *Sadique a Hussain*, soniodd Hooper LJ fod "y darpariaethau sy'n creu ac yn diffinio adran 46 [o'r SCA 2007] yn gymhleth iawn", gan ychwanegu bod angen amser ychwanegol a chyflwyniadau ychwanegol i geisio eu deall.⁶⁰ Mae ymgais y Llys Apêl i egluro elfen fai'r troseddau wedi cael ei feirniadu gan yr Athro Child, a nododd "y gellir ychwanegu'r Llys Apêl bellach at y côr o leisiau academiaidd sy'n cwyno am ddrafftio cymhleth anhreiddiadwy Rhan 2 o Ddeddf Troseddau Difrifol 2007 yn gyffredinol, a'r darpariaethau *mens rea* yn benodol".⁶¹
- 2.56 Mae athrawiaeth menter ar y cyd ar ôl *Jogee* wedi denu beirniadaeth hefyd.⁶² Her allweddol a adawyd heb ei datrys gan *Jogee* yw nad yw gweithred gynorthwyo neu annog D, er ei bod yn gofyn am ryw gysylltiad achosol â'r brif drosedd, yn gofyn am gyfraniad materol at y drosedd a gyflawnwyd gan P. Er nad yw "presenoldeb yn unig" yn ddigon i gadarnhau atebolrwydd, gall D gynorthwyo ac annog P trwy fod yn bresennol yn y lleoliad ("trwy gyfrannu at rym niferoedd"⁶³), ynghyd â gwybodaeth (neu ragwelediad) o fwriad P. Dadleuodd Dr Beatrice Krebs fod gadael rheithgorau gyda'r posibilrwydd o gasglu bwriad o bresenoldeb a gwybodaeth (neu ragwelediad) "yn peryglu llithro'n ôl i atebolrwydd ategol parasitig".⁶⁴
- 2.57 Mae agwedd broblematic arall yn dilyn *Jogee* yn ymwneud â dehongli'r elfen fai sy'n ofynnol i euogfarnu'r parti eilaidd. Fel y nododd yr Athro David Ormerod a Karl Laird, bydd y ffaith y gellir cyfarwyddo rheithgorau y gallant gasglu bwriad o ragwelediad yn creu dryswch i lysoedd wrth ddehongli'r cysyniad o fwriad ac o bosibl arwain at ddulliau anghyson rhwng llysoedd. Yn gyntaf, mae'r cwestiwn yn parhau a ddylid cyfarwyddo'r rheithgor bod angen lefel uchel o ragwelediad i gasglu bwriad, oherwydd "gallai methu â gwneud hynny arwain y rheithgor i gasglu'r bwriad yn rhy barod o ryw raddau 'canolig' o ragwelediad".⁶⁵ Yn ail, mae risg y gallai elfennau bai gwahanol ar

⁵⁹ J Spencer a G Virgo, "Encouraging and Assisting Crime: Legislate in Haste, Repent at Leisure" (2008) 9 *Archbold News* 7, 9. Fel y nodwyd uchod, mae'r SCA 2007 yn seiliedig ar, ac yn addasu, ein hargymhellion yn yr adroddiad ar [Inchoate Liability for Assisting and Encouraging Crime](#) (2006) Law Com No 300.

⁶⁰ *R v Sadique a Hussain* [2011] EWCA Crim 2872, [2012] 1 WLR 1700, at [33]. Yn nodedig, dadleuodd yr ymgeisydd fod adran 46 yn anghydawns ag erthygl 7 o Gonfensiwn Ewrop ar Hawliau Dynol oherwydd ei fod yn rhy amwys ac ansicr. Penderfynodd y Llys Apêl nad oedd unrhyw anghydawnsedd.

⁶¹ J Child, "Exploring the Mens Rea Requirements of the Serious Crime Act 2007 Assisting and Encouraging Offences" (2012) 76(3) *Journal of Criminal Law* 220, 220. Roedd academyddion eraill yr un mor feirniadol: gweler Post-legislative Scrutiny of Part 2 (Encouraging or Assisting Crime) of the Serious Crime Act 2007, [Report of the House of Commons Justice Committee](#) (2013-14) HC 639, Appendix A (llythyrau gan academyddion).

⁶² Am drosolwg o'r heriau sy'n weddill a godwyd gan y dyfarniad yn *Jogee*, gweler [Criminal Appeals](#) (2025) Law Commission Consultation Paper No 268, para 10.53 i 10.77. Am fwy o fewnwelediadau i'r heriau hyn, gweler B Krebs (ed), *Accessory Liability After Jogee* (2020).

⁶³ *R v Jogee, Ruddock v The Queen* [2016] UKSC 8, [2016] UKPC 7, [2017] AC 387, yn [89].

⁶⁴ B Krebs, "Written Jury Directions and Contributing to the Force of Numbers" (2020) 84 *Journal of Criminal Law* 172, 174.

⁶⁵ D Ormerod a K Laird, "*Jogee*: Not the End of a Legal Saga but the Start of One" [2016] *Criminal Law Review* 539, 545.

gyfer D a P “ei gwneud hi’n haws euogfarnu’r parti eilaidd nag y byddai euogfarnu’r prif droseddwr”.⁶⁶

- 2.58 Mae problem hefyd wedi codi ynghylch apeliadau yn seiliedig ar y datblygiad dilynol yn y gyfraith mewn achosion lle'r oedd person yn euog o drosedd arall. Roedd y Goruchaf Lys yn *Jogee* yn rhagweld y byddai yn y rhan fwyaf o achosion lle cafodd affeithiwr ei euogfarnu’n wreiddiol o lofruddiaeth o dan atebolrwydd menter ar y cyd cyn *Jogee*, gallent gael eu heuogfarnu o ddynladdiad yn lle hynny (o ganlyniad i'r trothwy bai uwch sy'n ofynnol ar gyfer euogfarn am lofruddiaeth ar sail menter ar y cyd cyn *Jogee*).⁶⁷ Mae'r dybiaeth hon wedi cael ei chwestiynu gan yr Athro Dennis Baker, sydd wedi dadlau os yw person yn rhan o fenter ar y cyd i achosi niwed corfforol gwirioneddol, ond bod y prif droseddwr yn achosi niwed difrifol gan arwain at farwolaeth, nid yw'r ail barti yn euog o ddynladdiad. Ni allant fod yn euog fel parti eilaidd i ddynladdiad (gan fod y prif droseddwr wedi cyflawni lofruddiaeth, nid dynladdiad). Fodd bynnag, ni ellir dangos bod y weithred a gynorthwywyd neu a anogwyd ganddynt (achosi niwed corfforol gwirioneddol) wedi arwain at farwolaeth mewn amgylchiadau lle mae'r prif droseddwr wedi cyflawni gweithred o achosi niwed mwy.⁶⁸
- 2.59 Mae pryderon hefyd wedi'u codi bod athrawiaeth menter ar y cyd wedi'i chymhwyso'n anghymesur i ddynion a bechgyn ifanc Du (yn aml yng nghyd-destun trais gangiau honedig), gan awgrymu stereoteipio hiliol. Dangosodd data a gynhwyswyd mewn cynllun peilot i adolygu achosion lladdiad a cheisiadau lladdiad mentrau ar y cyd a gynhaliwyd gan y CPS fod cyfran y bechgyn a'r dynion ifanc Du a erlynwyd mewn achosion menter ar y cyd yn sylweddol uwch na'u cyfran o'r boblogaeth gyfan.⁶⁹
- 2.60 Mewn astudiaeth a gynhaliwyd ar gyfer y Centre for Crime and Justice Studies, mae Dr Nisha Waller wedi awgrymu y dylai Comisiwn y Gyfraith adolygu'r gyfraith ar fentrau ar y cyd ac ystyried materion megis culhau cwpas eang y gyfraith a phriodoldeb dedfrydau oes gorfodol.⁷⁰
- 2.61 Mae ymchwil diweddar wedi dangos bod gan y rhan fwyaf o fenywod a gafwyd yn euog o dan fenter ar y cyd (yn bennaf am lofruddiaeth neu ddynladdiad) gysylltiad ymylol â'r digwyddiad treisgar, yn aml heb fod hyd yn oed yn bresennol yn y lleoliad nac wedi ymwneud ag unrhyw drais corfforol. Mae menywod sy'n aml yn cael eu hymylu neu sydd â hanes o gam-drin blaenorol wedi'u cael yn euog oherwydd eu cysylltiad â'u partneriaid camdriniol (prif droseddwyr), gyda'r erlyniad yn eu nodweddu

⁶⁶ D Ormerod a K Laird, “*Jogee*: Not the End of a Legal Saga but the Start of One” [2016] *Criminal Law Review* 539, 550.

⁶⁷ Gweler [Criminal Appeals](#) (2025) Law Commission Consultation Paper No 268, para 10.52.

⁶⁸ D Baker, “Lesser Included Offences, Alternative Offences and Accessorial Liability” (2016) 80 *Journal of Criminal Law* 446.

⁶⁹ Gwasanaeth Erlyn y Goron, [Joint Enterprise Pilot 2023: Data Analysis](#) (Medi 2023). Roedd y cynllun peilot yn ganlyniad ymgyrchu gan sefydliadau fel Liberty a Joint Enterprise Not Guilty by Association (JENGbA), yn dilyn yr argymhelliad a gynhwyswyd yn adroddiad Adolygiad Annibynnol y Gwir Anrhydeddus David Lammy AS [i driniaeth, a chanlyniadau, Unigolion Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yn y System Cyfiawnder Troseddol](#) (Medi 2017), t 20.

⁷⁰ N Waller, [The Legal Dragnet. Joint Enterprise Law and Its Implications](#) (Centre for Crime and Justice Studies 2024), t 26.

fel hwylusydd trais. Mae'r nodweddiad hwn yn aml yn dibynnu ar fythau a stereoteipiau sy'n seiliedig ar rywedd sy'n portreadu menywod naill ai fel gwylwyr a fethodd ag atal cyflawni'r drosedd, neu y mae eu presenoldeb yn unig wedi annog, neu wedi ysgogi neu drin y prif droseddwr (gwrywaidd) yn weithredol.⁷¹ Yn aml, mae cam-drin domestig a rheolaeth orfodol yn arwain at fenywod yn methu â thynnu'n ôl o'r lleoliad ac ymgysylltu ag ymchwiliadau, sydd yn ei dro yn cefnogi casgliadau swyddogion heddlu (sy'n aml yn seiliedig ar ryw) am rôl menywod wrth annog neu gynorthwyo eu partneriaid gwrywaidd yn weithredol i gyflawni'r drosedd.⁷²

Adroddiad 2006

2.62 Yn Adroddiad 2006 dim ond i'r graddau yr oedd yn berthnasol i adolygu troseddau lladdiad y gwnaethom ymdrin â chyfranogaeth. Gwnaed ein hargymhellion yn 2006 cyn y ddau ddatblygiad mawr ar gyfraith cyfranogaeth a amlinellwyd uchod (deddfiad y Ddeddf SCA 2007)⁷³ a dyfarniad y Goruchaf Lys a'r Cyfrin Gyngor yn *Jogee* yn 2016).

2.63 Gwnaethom yr argymhelliad canlynol:

2.64 Dylai D fod yn agored i'w gael yn euog o drosedd llofruddiaeth gradd gyntaf neu ail radd P (yn ôl y digwydd) os

- (1) mai bwriad D oedd cynorthwyo neu annog P i gyflawni'r drosedd berthnasol; neu
- (2) roedd D yn rhan o fenter droseddol ar y cyd â P, a sylweddolodd y gallai P, neu barti arall i'r fenter ar y cyd, gyflawni'r drosedd berthnasol.⁷⁴

2.65 Gwnaethom argymhelliad arall hefyd ynghylch menter ar y cyd mewn achosion lladdiad (cyn-*Jogee*):

⁷¹ B Clarke a K Chadwick, [*Stories of Injustice: The Criminalisation of Women Convicted Under Joint Enterprise Laws*](#) (2020), t 26.

⁷² S Hulley, "Defending 'Co-offending' Women: Recognising Domestic Abuse and Coercive Control in 'Joint Enterprise' Cases Involving Women and Their Intimate Partners" (2021) 60(4) *The Howard Journal of Crime and Justice* 580, 597.

⁷³ Cyhoeddwyd ein Hadroddiad yn 2006 ar lofruddiaeth, dynladdiad a babanladdiad yr un flwyddyn â'n hadroddiad ar atebolrwydd anghyflawn, a oedd yn adolygu'r maes hwnnw o'r gyfraith yn fwy cyfannol. Fel y nodwyd uchod, mae'r troseddau o annog a chynorthwyo a gynhwysir yn SCA 2007 wedi gweithredu ein hargymhellion i raddau helaeth.

⁷⁴ [*Murder, Manslaughter and Infanticide*](#) (2006) Law Com No 304, para 4.4.

- 2.66 Fe wnaethom argymhell y dylai D fod yn atebol am ddynladdiad os bodlonir yr amodau canlynol:
- (1) Roedd D a P yn bartïon i fenter ar y cyd i gyflawni trosedd;
 - (2) Cyflawnodd P y drosedd o lofruddiaeth gradd gyntaf neu lofruddiaeth ail radd mewn perthynas â chyflawni'r fenter honno;
 - (3) Roedd D wedi bwriadu neu wedi rhagweld y gallai niwed (nad oedd yn ddifrifol) neu'r ofn o niwed gael ei achosi gan barti i'r fenter; a
 - (4) byddai person rhesymol yn sefyllfa D, gyda gwybodaeth D am y ffeithiau perthnasol, wedi rhagweld risg amlwg o farwolaeth neu anaf difrifol yn cael ei achosi gan barti i'r fenter.⁷⁵

Beirniadaeth o argymhellion 2006 ar gyfranogaeth

- 2.67 Mae'r ddau argymhelliad ar gyfranogaeth wedi cael eu trafod yn fanwl iawn (ac yn aml yn dechnegol iawn).⁷⁶ O ystyried bod datblygiadau mawr wedi bod ynghylch cyfraith cyfranogaeth ers ein hargymhellion yn 2006, nid ydym yn nodi'r trafodaethau hynny'n fanwl yma.
- 2.68 Fodd bynnag, mae'n werth nodi yma fod rhai wedi mynegi pryder y gallai ein hargymhellion yn 2006 ar gyfranogaeth mewn perthynas â throseddau lladdiad fod wedi creu anghysondebau yn absenoldeb diwygiad cyffredinol i gyfraith cyfranogaeth. Er enghraifft, teimlai'r Athro Sullivan yn "bryderus" fod y posibilrwydd y gallai fframwaith statudol fod wedi bodoli ar gyfer cyfranogaeth mewn troseddau lladdiad tra bod cyfraith cyfranogaeth ar gyfer troseddau eraill o bosibl wedi parhau i gael ei llywodraethu gan gyfraith gyffredin. Rhybuddiodd na ddylai diwygio ddigwydd ar wahân i adolygiad cyffredinol o gyfranogaeth.⁷⁷ Yn y pen draw, ni wireddwyd y risg, gan nad yw'r Llywodraeth wedi bwrw ymlaen â'n hargymhellion ar gyfranogaeth mewn lladdiad na'n hargymhellion yn 2007 ar gymryd rhan mewn troseddu, tra bod ein hargymhellion ar annog a chynorthwyo (sy'n berthnasol i bob trosedd ac nid dim ond i droseddau lladdiad) wedi'u gweithredu i raddau helaeth yn y SCA 2007.⁷⁸

Yr adolygiad cyfredol o gyfraith lladdiad

- 2.69 Mae adolygiad llawn o gyfraith cyfranogaeth y tu allan i gwmpas ein hadolygiad o gyfraith lladdiad. Yn unol â'n Cylch Gorchwyl, byddwn yn adolygu agweddau ar

⁷⁵ [Murder, Manslaughter and Infanticide](#) (2006) Law Com No 304, para 4.6.

⁷⁶ G R Sullivan, "Complicity for First-degree Murder and Complicity in an Unlawful Killing" [2006] *Criminal Law Review* 502; J Horder and D Hughes, "Joint Criminal Ventures and Murder: The Prospects for Law Reform" (2009) 20 *King's Law Journal* 379; I Dennis, "Adjusting the Boundaries of Murder: Complicity" [2008] *Criminal Law Review* 923.

⁷⁷ G R Sullivan, "Complicity for First-degree Murder and Complicity in an Unlawful Killing" [2006] *Criminal Law Review* 502, 502 and 513.

⁷⁸ Gweler y drafodaeth uchod ym mharagraff 2.50.

gyfranogaeth i'r graddau y maent yn ymwneud â throseddau lladdiad, amddiffyniadau rhannol a llawn, a'r fframwaith dedfrydu ar gyfer llofruddiaeth. Bydd hyn yn cynnwys, yn unol â'n Cylch Gorchwyl, "goblygiadau'r gyfraith bresennol ar fentrau ar y cyd (yn dilyn penderfyniad y Goruchaf Lys a'r Cyfrin Gyngor yn *Jogee*) ar gyfer unrhyw ddiwygiad i gyfraith lladdiad".

- 2.70 Gan fod y gyfraith ar gyfranogaeth wedi newid yn sylweddol ar ôl 2006, fel y gwelsom uchod, rhaid inni nawr ddeall effaith y datblygiadau hyn ar ein hargymhellion blaenorol, fel rhan o'n tasg i ddiweddarau ac ailystyried Adroddiad 2006, yn ogystal ag ystyried unrhyw heriau a achosir gan y datblygiadau hyn i'r graddau y maent yn berthnasol i'n hadolygiad o gyfraith lladdiad.

Mater 3.

- 2.71 Rydym yn gwahodd tystiolaeth ar unrhyw agwedd ar gyfraith cyfranogaeth, fel sy'n berthnasol i droseddau lladdiad, amddiffyniadau rhannol a llawn, a'r fframwaith dedfrydu ar gyfer llofruddiaeth.

LLADD "TRUGAROG" A CHYDSYNIOL

Y gyfraith bresennol

- 2.72 Gellir diffinio lladd "trugarog" fel lladd lle mae diffynnydd wedi achosi marwolaeth dioddefwr yn fwriadol am resymau tosturiol. Os yw'r dioddefwr wedi mynegi'r dymuniad i farw, mae lladd "trugarog" hefyd yn ladd cydsyniol (er enghraifft, mewn achosion o ewthanasia gwirfoddol). Fodd bynnag, gall lladd cydsyniol ddigwydd am resymau heblaw tosturi, ar yr amod bod y dioddefwr wedi cytuno'n wirfoddol i farw. Nid oes gan y gyfraith droseddol yng Nghymru a Lloegr drosedd nac amddiffyniad penodol ar gyfer lladd "trugarog" na chydsyniol. Os yw D yn lladd V yn fwriadol gyda'r gred wirioneddol ei bod er budd gorau V i farw, neu oherwydd bod V wedi cydsynio i gael ei ladd, byddai D fel arfer yn ei gael yn euog o lofruddiaeth.⁷⁹
- 2.73 Mewn amgylchiadau cyfyngedig, gellir cael D yn euog o ddynladdiad, yn hytrach na lofruddiaeth, os:
- (1) mae D yn pledio'n llwyddiannus am gyfrifoldeb lleihaedig neu golli rheolaeth ar adeg lladd V. Mewn achos o'r fath, mae'r amddiffyniadau rhannol yn gweithredu yn yr un modd ag y byddent yn gweithredu ynghylch unrhyw ladd arall i leihau cyhuddiad o lofruddiaeth i un o ddynladdiad.
 - (2) Roedd D yn barti sy'n goroesi mewn cytundeb hunanladdiad, hynny yw cytundeb rhwng D ac un neu fwy o bobl (gan gynnwys V) y mae eu hamcan oedd marwolaeth pob un ohonynt. Mae cytundeb hunanladdiad yn enghraifft o ladd cydsyniol. Pan fydd D yn profi ei fod wedi lladd V (neu wedi caffael trydydd parti i wneud hynny) yn unol â chytundeb hunanladdiad, gellir cael D yn euog o

⁷⁹ *R v Inglis* [2010] EWCA Crim 2637, [2011] 1 WLR 1110, at [37]; *R (Nicklinson) v Ministry of Justice* [2014] UKSC 38, [2015] AC 657, at [17].

ddynladdiad yn hytrach na llofruddiaeth.⁸⁰ Mewn achos o'r fath, mae'r gyfraith yn cydnabod bod cydsyniad V i gael ei ladd yn esgusodi'n rhannol weithredoedd D sydd wedi goroesi.

- 2.74 Er nad yw lladd "trugarog" yn cael ei gydnabod gan y gyfraith fel cyfiawnhad i gyflawni llofruddiaeth, gellir cydnabod "cred gan y troseddwr fod y llofruddiaeth yn weithred o drugaredd" fel ffactor lliniarol wrth ddedfrydu.⁸¹
- 2.75 Yn 2023, cyhoeddodd y CPS ganllawiau erlyn wedi'u diweddarau ar laddiad, yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus ar yr adrannau o'r canllawiau budd y cyhoedd sy'n ymdrin â "lladd trugarog" a chytundebau hunanladdiad.⁸² Nod y diweddariad yw cynorthwyo erlynwyr i benderfynu a yw erlyniad mewn achos o "ladd trugarog" neu gytundeb hunanladdiad er budd y cyhoedd. Mae'r canllawiau wedi'u diweddarau'n tynnu'n helaeth ar bolisi'r CPS ar gyfer achosion o gynorthwyo neu annog hunanladdiad.⁸³ Mae ffactorau yn erbyn erlyn yn cynnwys: achosion lle mae'r dioddefwr wedi dod i benderfyniad gwirfoddol, clir, pendant a gwybodus ei fod yn dymuno i'w fywyd ddod i ben; neu lle gellir nodweddu gweithredoedd yr un a ddrwgdybir fel rhai amharod, yn wyneb pwysau emosiynol sylweddol oherwydd dymuniad y dioddefwr i'w fywyd ddod i ben. Mae ffactorau o blaid erlyn yn cynnwys: achosion lle dylanwadodd y person dan amheuaeth ar y dioddefwr i beidio â cheisio triniaeth feddygol, gofal lliniarol a/neu gyngor proffesiynol annibynnol neu lle gwrthodwyd mynediad at y driniaeth, y gofal a/neu'r gefnogaeth broffesiynol honno; neu lle'r oedd y person dan amheuaeth yn gweithredu yn rhinwedd ei swydd fel meddyg, nyrs, neu weithiwr gofal iechyd proffesiynol arall a'r dioddefwr yn ei ofal.⁸⁴

Adroddiad 2006

- 2.76 Mae lladd "trugarog" yn anochel yn ennyn trafodaethau am ewthanasia a hunanladdiad. Nododd Cylch Gorchwyl ein hadolygiad blaenorol o gyfraith lladdiad mai dim ond "i'r graddau eu bod yn rhan o gyfraith llofruddiaeth, nid y materion mwy sylfaenol dan sylw y byddai angen eu trafod ar wahân" yr oedd ewthanasia a hunanladdiad yn dod o fewn cwmpas y prosiect.
- 2.77 Yn Adroddiad 2006, nodwyd gennym mai dim ond "i'r graddau yr oedd yn ymwneud â'r sail dros leihau trosedd lladdiad mwy difrifol i un llai difrifol" oedd lladd "trugarog" o fewn cwmpas y prosiect.⁸⁵

⁸⁰ Deddf Lladdiad 1957, adran 4. Fodd bynnag, os yw D yn cynorthwyo neu'n annog V i gyflawni hunanladdiad (yn absenoldeb cytundeb hunanladdiad), mae D yn atebol o dan Ddeddf Hunanladdiad 1961, adran 2.

⁸¹ Cod Dedfrydu, Atod 21, para 10(f).

⁸² CPS, [Consultation on Public Interest Guidance for Suicide Pact and 'Mercy Killing' Type Cases](#) (Ionawr 2022).

⁸³ CPS, [Suicide: Policy for Prosecutors in Respect of Cases of Encouraging and Assisting Suicide](#) (diweddarwyd ddiwethaf Hydref 2014). Cyhoeddwyd y polisi ar ôl i Bwyllgor Apêl Tŷ'r Arglwyddi orchymyn i'r Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus egluro'r ffactorau budd y cyhoedd o blaid ac yn erbyn erlyn achosion o gynorthwyo neu annog hunanladdiad: *R (Purdy) v DPP* [2009] UKHL 45, [2010] 1 AC 345 at [55] a [56].

⁸⁴ CPS, [CPS Published Updated Homicide Prosecution Guidance](#) (Hydref 2023). Mae'r canllaw llawn ar gael [yma](#).

⁸⁵ [Murder, Manslaughter and Infanticide](#) (2006) Law Com No 304, para 7.1.

- 2.78 Ystyriodd ein hadolygiad blaenorol rai agweddau yn ymwneud â lladd “trugarog” fel yr oedd yn ymwneud â throseddau lladdiad yn ehangach (sef, cyflwyno trosedd benodol neu amddiffyniad rhannol o ladd “trugarog”; gweithredu cyfrifoldeb lleihaedig i gynnwys achosion o ofalwyr sy’n dioddef o iselder sydd wedi lladd y sawl sy’n derbyn eu gofal; a diddymu’r amddiffyniad rhannol o ladd yn unol â chytundeb hunanladdiad).⁸⁶ Fodd bynnag, daethom i’r casgliad y byddai’r materion hyn, y mae rhai ohonynt yn annatod gysylltiedig â’r ddadl ynghylch cyfreithloni ewthanasia, wedi haeddu ymgynghoriad llawer mwy helaeth nag a oedd yn bosibl o dan yr adolygiad o gyfraith lladdiad.⁸⁷
- 2.79 Er na wnaethom unrhyw argymhelliad penodol ar y gyfraith gyflawn, argymhellwyd y dylai’r Llywodraeth gynnal ymgynghoriad cyhoeddus ynghylch a ddylai’r gyfraith gydnabod naill ai trosedd neu amddiffyniad rhannol o ladd “trugarog” ac, wrth aros am ganlyniad yr ymgynghoriad cyhoeddus, y dylid cadw’r darpariaethau ar gytundebau hunanladdiad.⁸⁸
- 2.80 Yn Adroddiad 2006, cyfeiriwyd at ddau arolwg a gynhaliwyd gan yr Athro Barry Mitchell yn 2003 a 2005 a awgrymodd, ymhlith pethau eraill, fod barn y cyhoedd yn gyffredinol yn cydymdeimlo â’r rhai sy’n credu eu bod wedi lladd fel gweithred o drugaredd, yn enwedig pan oedd V wedi cydsynio. Dangosodd yr arolygon ychydig iawn o gefnogaeth i ddedfryd oes orfodol mewn achosion o ladd “trugarog”, ond dim mwyafrif clir o blaid peidio ag erlyn mewn achosion o’r fath.⁸⁹

Beirniadaeth o Adroddiad 2006 ar ladd “trugarog” a chydsyniol

- 2.81 Mae rhai wedi mynegi pryder y gallai ein hargymhelliad i foderneiddio gofynion cyfrifoldeb lleihaedig (gyda ffocws ar gyflyrau meddygol cydnabyddedig)⁹⁰ fod wedi gwneud ple llwyddiannus o’r amddiffyniad rhannol yn anoddach mewn achosion o ladd “trugarog” cydsyniol.⁹¹ Ystyriwyd y feirniadaeth hon, a godwyd hefyd yn ystod yr ymgynghoriad, yn Adroddiad 2006, ond daethom i’r casgliad na ddylid ymestyn yr amddiffyniad rhannol o gyfrifoldeb lleihaedig “mor bell fel ei fod yn dod yn llwybr drws cefn i esgus rhannol dros laddwyr “trugarog” gofalgarn ond yn eu hiawn bwyll”.⁹²
- 2.82 Mae eraill wedi ategu’r feirniadaeth, a fynegwyd hefyd yn ystod yr ymgynghoriad, ein bod wedi bod yn rhy ofalus wrth beidio ag ystyried naill ai trosedd nac amddiffyniad rhannol o ladd “trugarog”. Er enghraifft, pwysleisiodd Dr Rogers “ei bod yn ddirgelwch” pam y gwnaethom argymhellion ynghylch amddiffyniad llawn o orfodaeth, ond dadlau

⁸⁶ [Murder, Manslaughter and Infanticide](#) (2006) Law Com No 304, para 7.26 – 7.45.

⁸⁷ Uchod, para 7.2.

⁸⁸ Uchod, para 7.49 – 7.50.

⁸⁹ Uchod, para 7.12 – 7.17.

⁹⁰ Rydym yn trafod yr amddiffyniad rhannol o gyfrifoldeb lleihaedig isod o baragraff 3.10.

⁹¹ L Kennefick, “Introducing a New Diminished Responsibility Defence for England and Wales” (2011) 74 *Modern Law Review* 750, 758-758; A Bickle, “Proposed Reforms to Partial Defences and Their Implications for Mentally Disordered Defendants” (2008) 1 *Journal of Mental Health Law* 38, 48.

⁹² [Murder, Manslaughter and Infanticide](#) (2006) Law Com No 304, para 7.37. Gweler hefyd y drafodaeth flaenorol ym mharagraffau 7.34-7.35.

y byddai amddiffyniad rhannol o ladd “trugarog” wedi bod y tu hwnt i gwmpas yr adolygiad.⁹³

Yr adolygiad cyfredol o gyfraith lladdiad

- 2.83 Fel ein hadolygiad blaenorol, mae Cylch Gorchwyl ein hadolygiad presennol o gyfraith lladdiad yn nodi y byddwn yn ystyried “ewthanasia a chyfranogiad mewn hunanladdiad i'r graddau y maent yn rhan o gyfraith lladdiad yn unig, nid y materion sy'n gysylltiedig â'u cyfreithloni a'u rheoleiddio posibl y byddai angen trafodaeth ar wahân yn eu cylch”.
- 2.84 Nodwn, ar adeg cyhoeddi'r Alwad hon am Dystiolaeth, fod Tŷ'r Cyffredin wedi pleidleisio yn y trydydd darlleniad o blaid y Bil Oedolion sy'n Angheuol Sâl (Diwedd Oes), sy'n cynnig caniatáu i oedolion sy'n angheuol sâl, yn amodol ar ddiogelwch ac amddiffyniadau, ofyn am gymorth a chael cymorth i ddod â'u bywyd eu hunain i ben. Mae'r mesur ar fin cael ei ail ddarlleniad yn Nhŷ'r Arglwyddi.⁹⁴
- 2.85 Fel rhan o'r adolygiad presennol o gyfraith lladdiad, byddwn yn ystyried lladd “trugarog” a chydysyniol mewn perthynas â throseddau lladdiad cyflawn, amddiffyniadau llawn a rhannol, a'r fframwaith dedfrydu ar gyfer llofruddiaeth yn unig.

Mater 4.

- 2.86 Rydym yn gwahodd tystiolaeth ar arfer erlyn ac achosion llys am ladd “trugarog” a chydysyniol ac ar unrhyw ddatblygiad perthnasol mewn perthynas â'r materion hyn.

BABANLADDIAD

Y gyfraith bresennol

- 2.87 O dan Ddeddf Babanladdiad 1938, mae mam sy'n lladd ei phlentyn o dan 12 mis oed, ac ar y pryd roedd cydbwysedd meddwl y fam wedi'i aflonyddu o ganlyniad i'r ffaith nad oedd wedi gwella'n llwyr o effaith rhoi genedigaeth neu oherwydd effaith laetha, yn euog o fabanladdiad yn hytrach na llofruddiaeth neu ddynladdiad.⁹⁵ Gall mam sydd wedi'i chyhuddo o lofruddiaeth neu ddynladdiad o dan yr amgylchiadau hyn hefyd

⁹³ J Rogers, “The New Homicide Ladder” (2007) 157 *New Law Journal* 48, 50-51. Ar y mater hwn, gweler [Murder, Manslaughter and Infanticide](#) (2006) Law Com No 304, para 7.26-7.33.

⁹⁴ Am ddiweddariadau, gweler bills.parliament.uk/bills/3774. Byddwn yn monitro unrhyw ddatblygiadau drwy gydol ein prosiect ac yn ystyried pa effaith, os o gwbl, y bydd gan ddeddf yn y dyfodol ar ladd “trugarog” a chydysyniol yng nghyd-destun ein hadolygiad o gyfraith lladdiad.

⁹⁵ Ddeddf Babanladdiad 1938, adran 1(1), fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Crwneriaid a Chyfiawnder 2009 (a wnaeth babanladdiad hefyd yn ddewis arall yn lle dynladdiad). Pasiwyd Ddeddf Babanladdiad 1938 ar yr adeg pan oedd y gosb eithaf yn ddedfryd orfodol ar ôl euogfarn am lofruddiaeth (er y gellid ei chyfnwio yn ddiweddarach). Tynnodd cyflwyno trosedd ar wahân o fabanladdiad (a ystyrir yn effeithiol fel dynladdiad) achosion o'r fath o gwmpas y gosb eithaf, gan drin menyw a laddodd ei phlentyn o ganlyniad i gyflyrau iechyd meddwl ôl-enedigol yn fwy trugarog. Diddymwyd y gosb eithaf am lofruddiaeth gan Ddeddf Llofruddiaeth (Diddymu'r Gosb Eithaf) 1965.

godu babanladdiad fel amddiffyniad.⁹⁶ Mae hyn yn golygu bod babanladdiad yn drosedd lladdiad ar wahân yn ogystal ag amddiffyniad i lofruddiaeth a dynladdiad.

- 2.88 Mae'r ddedfryd sydd ar gael am fabanladdiad yr un fath â'r ddedfryd am ddynladdiad, sef y ddedfryd uchaf o garchar am oes. Yn y rhan fwyaf o achosion, mae euogfarn am fabanladdiad yn arwain at ddedfryd nad yw'n gaethiwed (er yn aml yn destun triniaeth neu orchymyn ysbyty).⁹⁷
- 2.89 Mae trosedd babanladdiad yn unigryw ymhlith troseddau lladdiad gan mai dim ond i fam fiolegol sydd wedi lladd ei babi ei hun o fewn blwyddyn gyntaf bywyd y babi y mae'n berthnasol.

Adroddiad 2006

- 2.90 Yn ein hadolygiad blaenorol o droseddau lladdiad, fe wnaethom ymdrin yn helaeth â babanladdiad. Yn ystod yr ymgynghoriad, fe wnaethom ystyried llawer o agweddau, gan gynnwys diddymu'r drosedd/amddiffyniad o fabanladdiad, ei uno â'r amddiffyniad rhannol o gyfrifoldeb lleihaedig, ei sylfaen seiciatrig, ymestyn ei gymhwysiad i dadau a gofalwyr eraill, a'r terfyn ar oedran y plentyn.⁹⁸
- 2.91 Cafodd ein hargymhellion eu llywio hefyd gan astudiaeth empirig yr Athro Ronnie Mackay ar achosion o fabanladdiad a chyfrifoldeb lleihaedig, a thablau'r Athro Ian Brockington ar anhwylderau meddwl yn ystod genedigaeth ac ar ôl genedigaeth ac ar ddosbarthiad mathau o fabanladdiad.⁹⁹
- 2.92 Rydym yn pwysleisio bod ein hargymhellion wedi'u gwneud cyn i'r Llys Apêl egluro yn 2007 y gall y drosedd o fabanladdiad fod yn berthnasol pryd bynnag y nodir ei gofynion a waeth pa drosedd a fyddai wedi'i chyflawni fel arall.¹⁰⁰ Diwygiodd Deddf Crwneriaid a Chyfiawnder 2009 Ddeddf Babanladdiad 1938 i egluro y gellir dychwelyd dyfarniad o fabanladdiad fel dewis arall yn lle lofruddiaeth a dynladdiad, a gellir codi babanladdiad fel amddiffyniad i'r ddau drosedd.¹⁰¹
- 2.93 Yn Adroddiad 2006, gwnaethom yr argymhelliad canlynol:

⁹⁶ Uchod, adran 1(2), fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Crwneriaid a Chyfiawnder 2009 (a wnaeth babanladdiad hefyd yn amddiffyniad i ddynladdiad).

⁹⁷ [Murder, Manslaughter and Infanticide](#) (2006) Law Com No 304, para 8.6. Fodd bynnag, gweler y drafodaeth isod ym mharagraff 2.100 o dueddiadau diweddar o ran dedfrydu.

⁹⁸ Uchod, para 8.15-8.43.

⁹⁹ Yn y drefn honno, yn Atodiadau D ac E i Adroddiad 2006.

¹⁰⁰ *R v Gore* [2007] EWCA Crim 2789, [2008] *Criminal Law Review* 388.

¹⁰¹ Gweler Deddf Babanladdiad 1938, adrannau 1(1) a (2) fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Crwneriaid a Chyfiawnder 2009.

2.94 Yn seiliedig ar yr ymatebion i'n hymgyngghoriad ac ymchwil diweddar, rydym yn argymhell y dylid cadw'r drosedd/amddiffyniad o fabanladdiad heb ei ddiwygio (yn amodol ar ddisodli 'lofruddiaeth' â 'lofruddiaeth gradd gyntaf neu lofruddiaeth ail radd').¹⁰²

2.95 Trafodwyd hefyd fater gweithdrefnol yn deillio o rai achosion o fabanladdiad, a elwir yn "*ddilema Kai-Whitewind*".¹⁰³ Mewn rhai achosion gall mam sy'n dioddef o anhwylder seiciatrig ôl-enedigol wadu lladd ei phlentyn, ond mae'r gwadu yn symptom o'r union anhwylder a ysgogodd y lladd. Yn yr achosion hynny, efallai na fydd yn bosibl cyflwyno tystiolaeth seiciatrig heb gydweithrediad y diffynnydd. O ganlyniad, gellir cael y diffynnydd yn euog o lofruddiaeth (gyda dedfryd orfodol o garchar am oes), tra gallai cyhuddiad neu amddiffyniad o fabanladdiad fod wedi bod yn bosibl hefyd.

2.96 I fynd i'r afael â'r broblem hon, gwnaethom yr argymhelliad canlynol gyda'r bwriad o ddiogelu hawl y diffynnydd i beidio â chael ei orfodi i roi tystiolaeth a chaniatáu i'r barnwr treial ohirio'r ddedfryd nes bod y mater babanladdiad wedi'i ddatrys:

2.97 Mewn amgylchiadau lle na chodir babanladdiad fel mater yn y treial a bod y diffynnydd (mam fiolegol plentyn 12 mis oed neu iau) wedi'i chael yn euog gan y rheithgor o lofruddiaeth [lofruddiaeth gradd gyntaf neu lofruddiaeth ail radd], dylai barnwr y treial gael y pŵer i orchymyn archwiliad meddygol o'r diffynnydd gyda'r bwriad o sefydlu a oes tystiolaeth ai peidio bod elfennau gofynnol cyhuddiad o fabanladdiad yn bresennol ar adeg y lladd. Os cyflwynir tystiolaeth o'r fath a bod y diffynnydd yn dymuno apelio, dylai'r barnwr allu cyfeirio'r cais i'r Llys Apêl a gohirio'r ddedfryd hyd nes y penderfynir ar y cais.¹⁰⁴

Yr adolygiad cyfredol o gyfraith lladdiad

2.98 Gan fod babanladdiad yn drosedd lladdiad ac yn amddiffyniad i lofruddiaeth a dynladdiad, mae'n dod o fewn cwrpas ein hadolygiad presennol. Byddwn yn ystyried unrhyw ddatblygiad ynghylch y drosedd/amddiffyniad o fabanladdiad fel rhan o'n hailystyriaeth o argymhellion 2006.

2.99 Rydym yn ymwybodol bod ymchwil wedi'i chynnal yn ddiweddar ar sawl agwedd ar fabanladdiad. Er enghraifft, mae'r Perinatal Legal Project ar hyn o bryd yn canolbwyntio ar fabanladdiad ac yn gweithio gydag academyddion, ymarferwyr a seicolegwyr i ddiweddarau canllawiau ar anhwylderau amenedigol a materion cyfreithiol cysylltiedig.¹⁰⁵ Cyhoeddodd y Cambridge Pro Bono Project adroddiad yn 2024 ar gyfraith babanladdiad, gan ddod i'r casgliad bod rhai agweddau'n gwarantu adolygiad

¹⁰² [Murder, Manslaughter and Infanticide](#) (2006) Law Com No 304, para 8.23.

- 3.53 Yn bwysig at ddiben ein hadolygiad, mae wedi'i sefydlu yn y gyfraith achosion bod gorfodaeth ar gael fel amddiffyniad i bob trosedd, ac eithrio llofruddiaeth ac ymgais i lofruddio.⁶⁶ Fodd bynnag, mae ar gael fel amddiffyniad i gyhuddiad o gynllwynio i lofruddio.⁶⁷
- 3.54 Yn *Howe*, dyfarnodd Tŷ'r Arglwyddi nad yw'r amddiffyniad o orfodaeth ar gael fel amddiffyniad yn erbyn cyhuddiad o lofruddiaeth. Penderfynodd yr Arglwydd Hailsham, yr Arglwydd Ganghellor, mewn achos o fygythiad o farwolaeth neu anaf difrifol:

gallai dyn rhesymol fyfyrion bod un bywyd dynol diniwed o leiaf yr un mor werthfawr â'i fywyd ei hun neu fywyd ei anwylyd. Mewn achos o'r fath ni all dyn honni ei fod yn dewis y lleiaf o ddau ddrwg. Yn hytrach, mae'n cofleidio'r egwyddor gytras ond foesol amheus bod y diben yn cyfiawnhau'r modd.⁶⁸

Adroddiad 2006

- 3.55 Yn Adroddiad 2006, fe wnaethom ni argymhell y dylai gorfodaeth fod yn amddiffyniad llawn i lofruddiaeth gradd gyntaf, llofruddiaeth ail radd ac ymgais i lofruddio.

- 3.56 Fe wnaethom ni argymhell:

- (1) Dylai gorfodaeth fod yn amddiffyniad llawn i lofruddiaeth gradd gyntaf, llofruddiaeth ail radd ac ymgais i lofruddio.
- (2) Er mwyn i orfodaeth fod yn amddiffyniad i lofruddiaeth gradd gyntaf, llofruddiaeth ail radd ac ymgais i lofruddio, rhaid i'r bygythiad fod yn un o farwolaeth neu niwed sy'n peryglu bywyd.⁶⁹
- (3) Dylai'r diffynnydd ysgwyddo'r baich cyfreithiol o brofi amodau cymhwyso'r amddiffyniad ar sail tebygolrwydd.⁷⁰

- 3.57 Fe wnaethom gynnal na ddylai'r gyfraith stigmatiddio person a laddodd yn fwriadol ar sail cred wirioneddol ei fod wedi gweithredu mewn ofn marwolaeth neu anaf difrifol pan fo'r rheithgor yn fodlon y gallai person cyffredin o gryfder rhesymol fod wedi gweithredu yn yr un ffordd. Am yr un rheswm, fe wnaethom wrthod yr opsiwn o

⁶⁵ Ar yr amodau hyn, gweler *R v Z* [2005] UKHL 22, [2005] 2 AC 467. Gweler hefyd y drafodaeth yn [Murder, Manslaughter and Infanticide](#) (2006) Law Com No 304, para 6.8 – 6.11.

⁶⁶ Ar lofruddiaeth, gweler *R v Howe* [1987] AC 417. Ar ymgais i lofruddio, gweler *R v Gotts* [1992] 2 AC 412.

⁶⁷ *R v Ness* [2011] *Criminal Law Review* 645.

⁶⁸ *R v Howe* [1987] AC 417.

⁶⁹ Rhaid i'r bygythiad gael ei gyfeirio yn erbyn D neu un arall, yn unol â'r gofynion cyffredinol ar gyfer gorfodaeth a amlinellir uchod ym mharagraff 3.51.

⁷⁰ [Manslaughter and Infanticide](#) (2006) Law Com No 304, para 6.21.

orfodaeth fel amddiffyniad rhannol, y byddai hynny, yn ein barn ni, hefyd wedi creu problemau cysondeb a chydlyniant mewn perthynas â'r ffordd y mae'r amddiffyniad yn gweithredu ynghylch unrhyw drosedd arall.⁷¹

- 3.58 Dadleuom fod gan gythruddo (colli rheolaeth bellach) a chyfrifoldeb lleihaedig hawl foesol wannach i statws esgusodol na gorfodaeth: yn yr achosion cyntaf, nid yw D wedi lladd i gadw bywyd diniwed, tra yn yr olaf mae D sy'n gweithredu dan orfodaeth wedi lladd i osgoi marwolaeth neu anaf difrifol. Felly, roeddem yn credu bod amddiffyniad llawn yn hytrach nag amddiffyniad rhannol yn fwy cyfiawn mewn achosion o orfodaeth.⁷²
- 3.59 O ran baich y prawf, fe wnaethom gydnabod bod y ffaith bod yn rhaid i D ysgwyddo'r baich cyfreithiol o brofi'r amodau gorfodaeth cymwys ar sail tebygolrwydd yn golygu baich prawf gwrthdro a gwyro oddi wrth gyfraith gyffredin.⁷³ Roeddem yn credu ei fod yn gyfiawn oherwydd cyfuniad o ffactorau: anhawster gwrthbrofi gorfodaeth, pa mor hawdd yw llunio'r amddiffyniad, natur ddifrifol llofruddiaeth ac ymgais i lofruddio, a'r rhwymedigaeth o dan erthygl 2 y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol ("ECHR") i amddiffyn unigolion rhag amddifadedd mympwyol o fywyd.⁷⁴

Beirniadaeth o argymhellion 2006 ar orfodaeth

- 3.60 Yn Adroddiad 2006, gwelsom fod "yr ymgylgoreion yn fwy rhanedig ar orfodaeth fel amddiffyniad i lofruddiaeth ac ymgais i lofruddio nag ar unrhyw agwedd arall ar ein hadolygiad", er bod cytundeb cyffredinol y dylai gorfodaeth allu bod yn amddiffyniad, naill ai'n rhannol neu'n llawn, i lofruddiaeth ac ymgais i lofruddio.⁷⁵
- 3.61 Beirniadwyd ein hargymhelliad y dylai gorfodaeth fod yn amddiffyniad cyflawn i lofruddiaeth (gradd gyntaf ac ail radd) ac ymgais i lofruddio. Er enghraifft, gwrthwynebodd Dr Rogers yr argymhelliad, gan gredu bod "pobl sy'n bwriadu marwolaeth o reidrwydd yn gwneud penderfyniad – bod bywyd un person diniwed yn werth mwy na bywyd un arall – nad yw'n benderfyniad iddyn nhw ei wneud". Fel y dadleuodd, byddai euogfarn am lofruddiaeth ail radd yn cyfleu pwysigrwydd gwarchod sancteiddrwydd bywyd yn well ac yn caniatáu disgresiwn dedfrydu, heb i'r diffynnydd gael ei garcharu o reidrwydd. Daeth i'r casgliad "ei bod yn anodd gweld pam y dylai'r comisiwn ddymuno hyrwyddo cynnig sy'n ddadleuol yn foesol a beth bynnag, yn anghredadwy yn wleidyddol".⁷⁶
- 3.62 Yn yr un modd, cytunodd yr Athro Wilson â'n cynnig dros dro (a ddisodlwyd wedyn yn Adroddiad 2006) y dylai gorfodaeth fod wedi bod yn amddiffyniad rhannol i lofruddiaeth gradd gyntaf, ond awgrymodd y dylai llofruddiaeth a gyflawnwyd dan orfodaeth gael label trosedd arbennig "i imiwneddio'r llofrudd dan orfodaeth yn erbyn

⁷¹ Uchod, para 6.43 i 6.44. Ein cynnig dros dro oedd y dylai gorfodaeth fod wedi bod yn amddiffyniad rhannol i lofruddiaeth gradd gyntaf, gan leihau'r drosedd i lofruddiaeth ail radd (paragraff 6.12).

⁷² Uchod, para 6.60.

⁷³ Uchod, para 6.101 i 6.109.

⁷⁴ Uchod, paragraff 6.111. Gweler hefyd y drafodaeth flaenorol ar faich y prawf o baragraff 6.87.

⁷⁵ [Manslaughter and Infanticide](#) (2006) Law Com No 304, para 6.1. Gweler hefyd [A New Homicide Act for England and Wales?](#) (2005) Law Commission Consultation Paper No 177, para 7.18 – 7.19.

⁷⁶ J Rogers, "The New Homicide Ladder" (2007) 157 *New Law Journal* 48, 50.

y ddedfryd orfodol a'r label llofruddiaeth gan adael ... ar gofnod ei gyfrifoldeb am farwolaeth person diniwed".⁷⁷

- 3.63 Cyfaddefodd yr Athro Ashworth fod y drafodaeth am orfodaeth "i raddau helaeth, yn bwyllog ac yn egwyddorol", ond nid oedd wedi'i argyhoeddi gan y rhesymeg sy'n sail i'r baich prawf gwrthdro. Er nad oedd yn gwadu "grym pragmatig yr argymhelliad", dadleuodd fod yr honiad bod gorfodaeth yn arbennig o anodd i'r erlyniad ei wrthbrofi yn anwybyddu'r un broblem a wynebair gan y diffynnydd sy'n ceisio profi gorfodaeth, yn enwedig lle mae'n air un person yn erbyn un arall, gan ddod i'r casgliad "na ddylai neb fod yn agored i euogfarn am fethu â phrofi eu diniweidrwydd".⁷⁸

Yr adolygiad cyfredol o gyfraith lladdiad

- 3.64 Mae amddiffyniad gorfodaeth o fewn cwrpas ein prosiect. Byddwn yn adolygu'r argymhellion a wnaethom yn 2006 ar orfodaeth ac yn ystyried y sefyllfa nawr, gan ystyried unrhyw ddadleuon ychwanegol o blaid ac yn erbyn cymhwysedd amddiffyniad o orfodaeth i droseddau lladdiad.

Mater 9.

- 3.65 Rydym yn gwahodd tystiolaeth ar amddiffyniad gorfodaeth, yn enwedig ar ei gymhwysiad posibl i droseddau lladdiad.

Y gyfraith hunanamddiffyn bresennol

- 3.66 Mae cyfraith hunanamddiffyn yn gyfuniad o gyfraith gyffredin a statud. Mae'r sylfeini statudol i'w cael yn adran 3 o Ddeddf Cyfraith Troseddol 1967 (defnyddio grym wrth atal trosedd neu wrth arestio) ac adran 76 o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol a Mewnfudo 2008 (sy'n nodi elfennau'r amddiffyniad).
- 3.67 Gellir crynhoi elfennau hunanamddiffyn fel a ganlyn:
- (1) rhaid i'r dioddefwr beri bygythiad i D neu rywun arall neu eiddo.⁷⁹ Rhaid bod y bygythiad yn anghyfiawn, felly ni all D ddibynnu ar hunanamddiffyn yn erbyn V os cafodd yr ymosodiad gan V ei ysgogi gan D mewn gwirionedd;⁸⁰
 - (2) rhaid i'r *defnydd* o rym fod yn rhesymol. Nid yw'r gyfraith yn gosod "dyletswydd i encilio" ar D, fodd bynnag, mae'r posibilrwydd y gallai D fod wedi encilio, yn hytrach na chadw ymosodiad draw, yn ffactor i'w ystyried wrth benderfynu a oedd yn rhesymol i D ddefnyddio grym;⁸¹

⁷⁷ W Wilson, "What's Wrong with Murder?" (2007) 1 *Criminal Law and Philosophy* 157, 176.

⁷⁸ A Ashworth, "Principles, Pragmatism and the Law Commission's Recommendations on Homicide Law Reform" [2007] *Criminal Law Review* 333, 340-342.

⁷⁹ Felly mae'r term "*hunanamddiffyn*" braidd yn gamarweiniol, er ei fod yn cael ei ddefnyddio'n helaeth, gan y gallai D weithredu hefyd i amddiffyn person arall (neu eiddo).

⁸⁰ *R v Rashford* [2005] EWCA Crim 3377, [2006] *Criminal Law Review* 547.

⁸¹ Deddf Cyfiawnder Troseddol a Mewnfudo 2008 ("CJIA 2008"), adran 76(6A).

- (3) rhaid i *raddau'r grym* a ddefnyddiwyd fod yn rhesymol. Y prawf cyffredinol yw bod graddau'r grym i'w ystyried yn afresymol os oedd yn anghymesur.⁸² Mae prawf mwy hyblyg yn berthnasol yn yr hyn a elwir yn "achosion deiliaid tŷ" (lle defnyddiodd D rym y tu mewn i'w gartref yn erbyn tresmaswr),⁸³ lle mae graddau'r grym i'w ystyried yn afresymol dim ond os oedd yn *ddifrifol* o anghymesur. Wrth benderfynu a oedd graddau'r grym yn rhesymol, rhaid barnu'r diffynnydd trwy gyfeirio at yr amgylchiadau fel yr oeddent yn credu eu bod yn wirioneddol. Rhaid i'r rheithgor ystyried efallai na fydd person sy'n gweithredu i amddiffyn ei hun yn gallu "pwysu a mesur yn fanwl gywir unrhyw gamau angenrheidiol";⁸⁴
- (4) rhaid i'r diffynnydd weithredu er mwyn amddiffyn ei hun neu rywun arall neu eiddo. Ni all D sy'n gweithredu allan o ddial yn unig ddibynnu ar yr amddiffyniad.⁸⁵

3.68 Pan ddibynnir ar hunanamddiffyn fel amddiffyniad rhag llofruddiaeth a dynladdiad, mae'r hawl i fywyd a ddiogelir o dan erthygl 2 o'r ECHR yn berthnasol. Mae Erthygl 2 yn gosod rhwymedigaeth ar y Wladwriaeth i amddiffyn unrhyw berson rhag amddifadedd anghyfreithlon o fywyd. Fodd bynnag, nid yw amddifadu o fywyd yn anghyfreithlon os yw'n deillio o ddefnyddio grym nad yw'n fwy nag sy'n gwbl angenrheidiol i amddiffyn unrhyw berson rhag trais anghyfreithlon.⁸⁶ Mae Llys Hawliau Dynol Ewrop ("ECtHR") wedi egluro bod y term "cwbl angenrheidiol" yn dynodi prawf cymhellol o angenrheidrwydd, bod yn rhaid i'r defnydd o rym fod yn gymesur, a bod yn rhaid dehongli'n llym yr amgylchiadau lle gellir cyfiawnhau amddifadu o fywyd.⁸⁷

Yr adolygiad cyfredol o gyfraith lladdiad

3.69 Fel y nodwyd uchod, ni wnaethom ystyried hunanamddiffyn fel rhan o'n hadolygiad blaenorol o lofruddiaeth, dynladdiad a babanladdiad. Fodd bynnag, gan ei fod yn arbennig o berthnasol i'n hystyriaeth o amddiffyniadau ar gyfer dioddefwyr cam-drin domestig sy'n lladd eu camdrinwyr, byddwn yn cynnwys hunanamddiffyn yn yr adolygiad presennol, i'r graddau y mae'n berthnasol i gyfraith lladdiad.

⁸² Deddf CJA 2008, adran 76(5A) a (6). Am fanylion ynghylch dehongli'r gofyniad, gweler *R (Collins) v Secretary of State for Justice* [2016] EWHC 33 (Admin), [2016] QB 862.

⁸³ CJA 2008, adran 76(8A).

⁸⁴ Uchod, adrannau 76(3)-(4) a (7).

⁸⁵ *R v Hussain a Hussain* [2010] EWCA Crim 94, [2010] 2 Cr App R (S) 60.

⁸⁶ ECHR, erthygl 2(2)(a).

⁸⁷ *Giuliani a Gaggio v Italy* (2012) 54 EHRR 10 (App No 23458/02) (Grand Chamber decision), para 176-177; *McCann and others v UK* (2008) 47 EHRR 40 (App No 18984/91) (Grand Chamber decision), para 148-150. Mae rhai wedi cwestiynu cydnawsedd hunanamddiffyn yng Nghymru a Lloegr ag erthygl 2 o'r ECHR: gweler A Ashworth, "Self-defence and the Right to Life" (1975) 34 *Cambridge Law Journal* 272; F Leverick, "Is English Self-defence Law Incompatible with Article 2 of the ECHR?" [2002] *Criminal Law Review* 347.

Mater 10.

- 3.70 Rydym yn gwahodd tystiolaeth ar yr heriau a gyflwynir gan y gyfraith hunanamddiffyn fel sy'n berthnasol i gyfraith lladdiad.

Amddiffyniadau llawn eraill i'w hystyried yn yr adolygiad lladdiad

- 3.71 Nid yw ein hadolygiad o gyfraith lladdiad o reidrwydd yn gyfyngedig i amddiffyniadau llawn gorfodaeth a hunanamddiffyn. Byddwn yn ystyried a ddylid cynnwys amddiffyniadau llawn eraill (megis, er enghraifft, angenrheidrwydd) o fewn ei gwmpas. Fodd bynnag, rydym yn pwysleisio nad yw ein hadolygiad o gyfraith lladdiad yn ymestyn i adolygiad cynhwysfawr o amddiffyniadau llawn sydd, fel y pwysleisiasom uchod, yn berthnasol nid yn unig i droseddau lladdiad. Am y rheswm hwn, byddwn yn ystyried cynnwys amddiffyniadau llawn eraill dim ond i'r graddau y gallent godi materion sy'n berthnasol ac yn unigryw i gyfraith lladdiad.

Mater 11.

- 3.72 Rydym yn ceisio barn ymgynghoreion ynghylch a ddylid cynnwys amddiffyniadau llawn heblaw gorfodaeth a hunanamddiffyn o fewn cwmpas ein hadolygiad o gyfraith lladdiad.
- 3.73 Rydym yn gwahodd tystiolaeth ar yr heriau a gyflwynir gan amddiffyniadau llawn eraill mewn perthynas â chyfraith lladdiad.

CYFRAITH LLADDIAD A DIODDEFWYR CAM-DRIN DOMESTIG SY'N LLADD EU CAMDRINWYR

- 3.74 Fel yr eglurwyd uchod ym mharagraff 1.11, mae ein hadolygiad o amddiffyniadau ar gyfer dioddefwyr cam-drin domestig sy'n lladd eu camdrinwyr wedi'i gynnwys yn yr adolygiad lladdiad, a fydd yn caniatáu inni ystyried yn gyfannol sut mae cyfraith lladdiad yn gweithredu mewn perthynas â'r categori hwn o ddiffnyddion.
- 3.75 Yn yr adran hon, rydym wedi grwpio materion sy'n codi'n benodol mewn achosion lle mae dioddefwr cam-drin domestig yn lladd ei gamdriniwr. Fodd bynnag, yn gyffredinol mae materion o'r fath yn croestorri â'r tair elfen ac felly rydym yn cyfeirio atynt hefyd mewn mannau eraill drwy gydol yr Alwad hon am Dystiolaeth, pan fyddant yn berthnasol i'r drafodaeth o faterion eraill o fewn cyfraith lladdiad. Mae'r drafodaeth yn canolbwyntio ar achosion o gam-drin *domestig*. Byddwn yn ystyried mathau eraill o gam-drin, os yn berthnasol, fel rhan o'r adolygiad cyffredinol o laddiad. Yn y drafodaeth yn ein Papur Cefndir ar ddealltwriaeth fodern o gam-drin domestig, gwelsom fod "cam-drin domestig" yn
- derm cyffredinol sy'n cynnwys cam-drin rhwng partneriaid agos a pherthnasau. Mae hyn yn cynnwys amrywiol ddeinameg, megis partneriaid agos presennol a blaenorol, y rhai sydd â pherthynas rhiant â'r un plentyn, a gofalwyr a derbynwyr gofal.⁸⁸
- 3.76 Defnyddir y term "lladdiad domestig" isod i gyfeirio at drosedd lladdiad (naill ai lofruddiaeth neu ddynladdiad) a ddigwyddodd yng nghyd-destun, neu mewn cysylltiad â, cham-drin domestig.

Y gyfraith bresennol

- 3.77 Pan fydd dioddefwr cam-drin domestig yn ymateb trwy ladd y sawl a gyflawnodd y cam-drin, gall sefyllfa gyfreithiol y dioddefwr a'r sawl a gyflawnodd y cam-drin ddod yn gymhleth. Er mwyn eglurder, rydym yn defnyddio'r derminoleg ganlynol:
- (1) cyn y lladdiad: "cyflawnwr cam-drin" a "dioddefwr cam-drin";
 - (2) ar ôl y lladdiad: "diffynnydd" (dioddefwr cam-drin cyn y lladdiad) a'r "ymadawedig" (cyflawnwr cam-drin cyn y lladdiad).⁸⁹
- 3.78 Nid oes trosedd lladdiad bwrpasol yn berthnasol i ddiffynnydd a laddodd cyflawnwr y cam-drin. Mae'r diffynnydd yn cael eu gyhuddo o lofruddiaeth neu ddynladdiad, yn dibynnu ar amgylchiadau'r achos.
- 3.79 Yn yr un modd, nid oes amddiffyniad pwrpasol ar gael i ddiffynnydd mewn achosion o'r fath. Gall diffynnydd ddibynnu ar amddiffyniadau rhannol i lofruddiaeth (colli rheolaeth neu gyfrifoldeb lleihaedig) ac amddiffyniadau llawn (er enghraifft, hunanamddiffyn). Er nad yw'n amddiffyniad, gall diffynnydd hefyd ddadlau nad oedd

⁸⁸ [Defences for victims of domestic abuse who kill their abusers, Background Paper](#) (10 Rhagfyr 2024), t 4.

⁸⁹ Yn unol â'r derminoleg a ddefnyddiwyd gennym yn ein Papur Cefndir: [Defences for victims of domestic abuse who kill their abusers, Background Paper](#) (10 Rhagfyr 2024), t 3.

ganddynt yr elfen feddyliol ar gyfer llofruddiaeth (bwriad i achosi marwolaeth neu niwed corfforol difrifol).

- 3.80 I grynhoi, mae amddiffyniadau a chyfraith troseddau lladdiad cyflawn yn trin diffynnydd a laddodd cyflawnwr cam-drin domestig yn yr un modd ag unrhyw ddiffynnydd arall sydd wedi achosi marwolaeth person.
- 3.81 Mae diffiniad o "gam-drin domestig" i'w gael yn Neddf Cam-drin Domestig 2021. Mae'r diffiniad yn berthnasol lle mae A a B yn 16 oed neu'n hŷn ac yn "gysylltiedig yn bersonol" â'i gilydd (er enghraifft, partneriaid agos presennol neu gyn-bartneriaid neu berthnasau).⁹⁰ Mae plant sy'n perthyn i A neu B ac yn gweld, clywed neu brofi effaith y cam-drin domestig yn dod o fewn y diffiniad o ddioddefwyr cam-drin.⁹¹ Mae ymddygiadau'n gamdriniol os ydynt yn cynnwys unrhyw un o'r canlynol:⁹²
- (a) cam-drin corfforol neu rywiol;
 - (b) ymddygiad treisgar neu fygythiol;
 - (c) ymddygiad rheoli neu orfodol;⁹³
 - (d) cam-drin economaidd; neu
 - (e) cam-drin seicolegol, emosiynol neu gam-drin arall.

Yr Adolygiad Annibynnol o Ddedfrydau Lladdiad Domestig

- 3.82 Ym mis Mawrth 2023 cyhoeddwyd canfyddiadau'r Adolygiad Annibynnol o Ddedfrydau Lladdiad Domestig a gynhaliwyd gan Clare Wade KC ("Adolygiad Wade"). Nid oedd cwrmpas yr adolygiad yn gyfyngedig i achosion lle mae dioddefwr cam-drin domestig yn lladd ei gamdriniwr, roedd hefyd yn cynnwys achosion lle mae cyflawnwr cam-drin domestig yn lladd dioddefwr y cam-drin.⁹⁴ Gwnaeth Adolygiad Wade argymhellion i ddiwygio'r fframwaith dedfrydu statudol ar gyfer llofruddiaeth a'r canllawiau dedfrydu ar gyfer dynladdiad i gynnwys ystyriaethau sy'n berthnasol i achosion o laddiad ddomestig. Derbyniodd y Llywodraeth rai o'r argymhellion dedfrydu a gofynnodd inni adolygu'r amddiffyniadau sydd ar gael i ddioddefwyr cam-drin domestig sy'n lladd eu camdrinwyr.⁹⁵

⁹⁰ Deddf Cam-drin Domestig 2021, adrannau 1(2)(a) a 2.

⁹¹ Uchod, adran 3.

⁹² Uchod, adran 1(3).

⁹³ Mae'r gyfraith yn troseddoli ymddygiad rheoli neu orfodol mewn perthynas agos neu deuluol. O dan adran 76 o Ddeddf Troseddau Difrifol 2015, fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Cam-drin Domestig 2021, gall unrhyw unigolyn sydd â "chysylltiad personol" â'r troseddwr fod yn ddioddefwr y drosedd. Rhaid bod yr ymddygiad rheoli neu orfodol gan A tuag at B wedi cael "effaith ddifrifol" naill ai drwy: achosi i B ofni "ar o leiaf ddau achlysur" y bydd trais yn cael ei ddefnyddio yn ei erbyn, neu drwy achosi "braw neu ofid difrifol i B sydd ag effaith andwyol sylweddol ar weithgareddau dyddiol arferol B". Rhaid bod A hefyd wedi gwybod neu ddylai fod wedi gwybod y byddai ei ymddygiad yn cael "effaith ddifrifol" ar B.

⁹⁴ [Clare Wade KC's Independent Review of Domestic Homicide Sentencing](#) (Mawrth 2023), tt 104 i 106.

⁹⁵ Y Weinyddiaeth Gyfiawnder, [Government Response to the Independent Review by Clare Wade KC](#) (Gorffennaf 2023) CP 872.

- 3.83 Ymhlith yr argymhellion a weithredwyd yn dilyn Adolygiad Wade, ychwanegwyd ffactor lliniarol yn Atodlen 21 i'r Cod Dedfrydu mewn achosion lle mae diffynnydd yn lladd ei gamdriniwr ac

roedd y dioddefwr wedi ymddwyn dro ar ôl tro neu'n barhaus tuag at y troseddwr mewn ffordd a oedd yn rheoli neu'n gorfodi ac, ar adeg yr ymddygiad, roedd gan y dioddefwr a'r troseddwr gysylltiad personol o fewn ystyr adran 76(6) i (7) o Ddeddf Troseddau Difrifol 2015.⁹⁶

- 3.84 Ychwanegwyd ffactor gwaethybol hefyd mewn achosion lle mae diffynnydd wedi defnyddio "trais parhaus a gormodol tuag at y dioddefwr" (yr hyn a elwir yn "orladdiad"), sydd fodd bynnag yn berthnasol i unrhyw lofruddiaeth.⁹⁷

Problemau gyda'r gyfraith bresennol

- 3.85 Bu beirniadaeth eang o'r ffordd y mae'r gyfraith lladdiad bresennol yn gweithredu mewn achosion lle mae dioddefwr cam-drin domestig yn lladd ei gamdriniwr. Prif bwnc beirniadaeth o'r fath yw bod cyfraith lladdiad, ac yn benodol amddiffyniadau rhannol i lofruddiaeth ac amddiffyniadau llawn, yn methu â chydabod sefyllfa agored i niwed dioddefwyr cam-drin domestig (benywaidd yn bennaf) sy'n lladd eu camdrinwyr (gwrywaidd yn bennaf), gan adlewyrchu adeiladwaith a stereoteipiau cymdeithasol sy'n seiliedig ar rywedd.⁹⁸

- 3.86 O ran amddiffyniadau rhannol i lofruddiaeth, eglurasom uchod fod colli rheolaeth a chyfrifoldeb lleihaedig wedi cael eu beirniadu'n eang am eu gofynion llymach, a all ei gwneud hi'n anoddach i unrhyw ddiffynnydd ddibynnu ar y naill amddiffyniad neu'r llall.⁹⁹ Adroddodd y Ganolfan Cyfiawnder i Fenywod ("CWJ") fod menywod sy'n lladd yn tueddu i ddibynnu ar amddiffyniadau rhannol yn hytrach nag amddiffyniadau llawn, gan bledio'n euog i ddynladdiad yn amlach yn hytrach na mentro mynd i'r llys. Fe wnaethant sylwi bod pledion o'r fath yn broblemus gan eu bod yn seiliedig ar "anghymelliadau systemig" sydd wedi'u hymgorffori yn y gyfraith (megis y perygl o fynd i'r llys a rhoi tystiolaeth, ynghyd â'r risg o fod yn destun y ddedfryd oes orfodol a chael eich labelu'n llofrudd). Mae rhwystrau ychwanegol i ddefnyddio hunanamddiffyn yn codi o broblemau posibl gyda chof y diffynnydd a achosir gan ymateb trawmatig neu ddefnyddio meddyginiaeth, a all greu canfyddiad yn y rheithgor bod adroddiad y diffynnydd o'r ffeithiau yn anghyson neu hyd yn oed yn anwir.¹⁰⁰

- 3.87 Er mai un o amcanion diwygio cythruddo (colli rheolaeth bellach) oedd darparu ar gyfer achosion lle mae dioddefwr cam-drin domestig yn lladd ei gamdriniwr, yn enwedig drwy ddileu'r gofyniad bod yn rhaid i golli rheolaeth fod yn "sydyn a dros

⁹⁶ Atodlen 21 i'r Cod Dedfrydu, paragraff 10(ca), fel y'i diwygiwyd gan Reoliadau Deddf Dedfrydu 2020 (Diwygio Atodlen 21) 2024, rheoliad 4. Yn y sefyllfa gyferbyniol, mae'n ffactor gwaethybol bod y diffynnydd wedi lladd y dioddefwr ar ôl ymgymryd ag ymddygiad rheoli neu orfodi dro ar ôl tro a pharhaus tuag at y dioddefwr: gweler paragraff 9(ba).

⁹⁷ Atodlen 21 i'r Cod Dedfrydu, paragraff adran 9(fa), fel y'i diwygiwyd gan Reoliadau Deddf Dedfrydu 2020 (Diwygio Atodlen 21) 2024, rheoliad 3(c).

⁹⁸ Cyfeiriwyd yn fyr at yr elfen feirniadaeth hon yn yr adran ar amddiffyniadau rhannol: gweler paragraff 3.31.

⁹⁹ Gweler uchod o baragraff 3.24 i 3.27.

¹⁰⁰ CWJ, [*Women Who Kill: How The State Criminalises Women We Might Otherwise Be Burying*](#) (2021), t 140.

dro",¹⁰¹ mae beirniaid wedi sylwi bod yr amddiffyniad diwygiedig yn parhau i fod yn aneffeithiol ar gyfer y categori hwn o ddiffynyddion. Er enghraifft, mae cadw'r gofyniad o "golli hunanreolaeth", mewn cyferbyniad â'i ddiddymu fel a argymhellwyd gan Gomisiwn y Gyfraith, wedi cael ei feirniadu am ffafrio ymatebion gwrywaidd traddodiadol dros ystyriaethau o gyflwr meddwl y menywod a gam-driniwyd cyn y lladd, na ellir ei ddisgrifio bob amser yn nhermau dicter neu ofn yn unig. Ystyriwyd bod elfennau eraill o'r amddiffyniad yn annigonol, megis yr asesiad o resymoldeb trwy gyfeirio at ymateb delfrydol person â "gradd arferol o oddefgarwch a hunanreolaeth" na fyddai menyw sy'n cael ei cham-drin o reidrwydd yn cydymffurfio ag ef.¹⁰²

3.88 Crynhodd Adolygiad Wade y broblem barhaus gyda'r diwygiad i golli rheolaeth:

Deddfwyd y gyfraith cyn i reolaeth orfodol ddod yn rhan o'n trafodaeth gyfreithiol a heb unrhyw gyfeiriad at yr egwyddorion pŵer/rheolaeth a chaethiwed sydd wedi dilyn cyhoeddi gwaith Evan Stark sy'n llunio rheolaeth orfodol fel trosedd yn erbyn rhyddid. Mae'r naratif 'trosedd angerdd' sy'n dal i ddominyddu meddwl cymdeithasol yn gwbl anghyson ag ymateb i achos eithafol o reolaeth orfodol. Mae hyn er gwaethaf y rhybudd yn y ddeddfwriaeth nad oes angen i golli rheolaeth "fod yn sydyn" a oedd, wrth gwrs, i fod i ddarparu ar gyfer y ffordd yr oedd menywod a oedd wedi dioddef cam-drin domestig hirdymor weithiau'n ymateb trwy ladd.¹⁰³

3.89 Mae beirniadaeth hefyd wedi'i mynegi yn erbyn yr amddiffyniad rhannol diwygiedig o gyfrifoldeb llai. Efallai y bydd dioddefwr cam-drin yn gallu dadlau bod lladd eu camdriniwr wedi'i egluro gan annormaledd mewn gweithrediad meddyliol yn deillio o "gyflwr meddygol cydnabyddedig" (er enghraifft, PTSD o ganlyniad i'r cam-drin). Fodd bynnag, nododd yr Athro Jo Miles fod "sylwebyddion wedi gwrthwynebu ers tro cyfraith sy'n ei gwneud yn ofynnol i ddiffynyddion o'r fath bledio eu salwch meddwl eu hunain i gael lliniariad, yn hytrach na chynnig amddiffyniad iddynt sy'n adrodd stori o hunanamddiffyn yn erbyn trais anghyfiawn".¹⁰⁴ Yn yr un modd, nododd Adolygiad Wade y brif broblem gyda'r amddiffyniad yn y ffaith ei fod yn "patholegeiddio ymateb arferol i gam-drin domestig. Mae rheolaeth orfodol yn batrwm o ymddygiad sy'n dangos ymateb rhagweladwy ar ran y dioddefwr."¹⁰⁵ Ychwanegodd y gallai

¹⁰¹ Gweler y drafodaeth uchod ym mharagraff 3.32.

¹⁰² Mae'r llenyddiaeth ar feirniadaeth o'r amddiffyniad diwygiedig o golli rheolaeth mewn achosion o'r fath yn helaeth. Am fewnwelediadau manylach, ymhlith llawer, gweler S Parsons, "The Loss of Control Defence – Fit for Purpose?" (2015) 79 *Journal of Criminal Law* 94; S S M Edwards "Anger and Fear as Justifiable Preludes for Loss of Self-control" (2010) 74 *Journal of Criminal Law* 223; S S M Edwards, "Loss of Self-control: When his Anger is Worth More than Her Fear" yn A Reed a M Bohlander (gol), *Loss of Control and Diminished Responsibility: Domestic, Comparative and International Perspectives* (2011) 79–96; N Wake, "Political Rhetoric or Principled Reform of Loss of Control? Anglo-Australian Perspectives on the Exclusionary Conduct Model" (2013) 77 *Journal of Criminal Law* 512.

¹⁰³ [Clare Wade KC's Independent Review of Domestic Homicide Sentencing](#) (Mawrth 2023), paragraff 9.5.6. Y cyfeiriad yw at E Stark, *Coercive Control. How Men Entrap Women in Personal Life* (2007). Am drafodaeth am reolaeth orfodol a chaethiwed cymdeithasol, gweler ein [Defences for victims of domestic abuse who kill their abusers, Background Paper](#) (10 Rhagfyr 2024).

¹⁰⁴ J Miles, "The Coroners and Justice Act 2009: A 'Dog's Breakfast' of Homicide Reform" (2009) 10 *Archbold News* 6, 7.

¹⁰⁵ [Clare Wade KC's Independent Review of Domestic Homicide Sentencing](#) (Mawrth 2023), para 9.6.2.

seiciatryddion fethu â chydabod y rhyngweithio rhwng patrwm o reolaeth orfodol a chyflyrau seiciatrig.

- 3.90 Yn olaf, mae dioddefwr cam-drin domestig sy'n lladd ei gamdriniwr yn wynebu anawsterau wrth ddibynnu ar hunanamddiffyn. Dangosodd astudiaeth a gynhaliwyd gan y CWJ mai anaml y caiff menywod sy'n lladd eu camdrinwyr eu rhyddhau ar sail hunanamddiffyn.¹⁰⁶ Oni bai bod dioddefwr cam-drin domestig yn ymateb i fygythiad anghyfiawn gan y camdriniwr ar adeg y lladd, mae'n annhebygol y bydd ei ymateb yn cael ei ystyried yn rhesymol ac yn gymesur, gan fodloni gofynion hunanamddiffyn.¹⁰⁷ Nododd Adolygiad Wade fod

menywod yn bennaf yn defnyddio cylllell neu arf arall pan fyddant yn lladd, ac mae hyn yn tueddu i arwain at weld y lladd fel rhywbeth anghymesur yn yr amgylchiadau sy'n bodoli ar y pryd. Mae'r ffocws ar yr uniongyrchol yn hytrach na'r cyd-destun a'r cefndir.¹⁰⁸

- 3.91 Mae beirniaid wedi dadlau nad yw'r gyfraith hunanamddiffyn bresennol a'i chymhwysiad yn ystyried profiadau menywod o gam-drin ac yn methu â deall y cyd-destun y gallai ymateb mewn hunanamddiffyn ddigwydd ynddo. Mae hyn yn cael ei waethygu gan bresenoldeb mythau a stereoteipiau sydd gan reithwyr yn aml, gan gynnwys y gred eang mai ymateb "rhesymol" menyw sydd wedi cael ei cham-drin ddylai fod i adael y berthynas neu ddod o hyd i ddiogelwch mewn rhyw ffordd arall. Yn ogystal, mae rhagdybiaethau bod defnyddio arf mewn hunanamddiffyn yn anghymesur fel y cyfryw yn anwybyddu'r realiti bod dynion fel arfer yn gryfach na menywod.¹⁰⁹
- 3.92 Mae pryderon hefyd wedi'u codi, er bod yr hyn a elwir yn "amddiffyniad deiliad tŷ" yn caniatáu i ddiffynnydd ddefnyddio grym anghymesur yn erbyn tresmaswr (er nad grym anghymesur "difrifol"), yn gyffredinol nid yw'r gyfraith yn caniatáu i ddiffynnydd sydd wedi'i gam-drin ddefnyddio grym anghymesur yn erbyn y camdriniwr, oni bai bod y camdriniwr, neu y credwyd ei fod, yn dresmaswr pan ddefnyddiwyd grym i amddiffyn

¹⁰⁶ CWJ, [Women Who Kill: How The State Criminalises Women We Might Otherwise Be Burying](#) (2021). O'r 92 achos a gynhwyswyd yn yr astudiaeth, cafwyd 43% (n=40) yn euog o lofruddiaeth, cafwyd 46% yn euog o ddynladdiad (n=42) a dim ond 7% o fenywod a gafodd eu rhyddhau (n=6).

¹⁰⁷ Fe wnaethom grynhoi cyfraith hunanamddiffyn uchod o baragraff 3.66.

¹⁰⁸ [Clare Wade KC's Independent Review of Domestic Homicide Sentencing](#) (Mawrth 2023), para 9.3.1.

¹⁰⁹ Mae yna lawer iawn o ysgolheictod ar hunanamddiffyn yn y cyd-destunau hyn. Ymhlith llawer, gweler SK Howes, KS Williams a H Wistrich, "Women who Kill: Why Self-defence Rarely Works for Women who Kill their Abuser" [2021] *Criminal Law Review* 945; S Edwards, "'Demasculinising' the Defence of Self-Defence, the 'Householder' Defence and Duress" [2022] *Criminal Law Review* 111; N Wake, "Battered Women, Startled Householders and Psychological Self-Defence: Anglo-Australian Perspectives" (2013) 77 *Journal of Criminal Law* 433; A McColgan, "General Defences" in D Nicolson a L Bibbings (gol), *Feminist Perspectives on Criminal Law* (1999). Gweler hefyd y CWJ, [Making Self-Defence Accessible to Victims of Domestic Abuse Who Use Force Against Their Abuser: Learning from Reforms in Canada, New Zealand and Australia](#) (2023); [Clare Wade KC's Independent Review of Domestic Homicide Sentencing](#) (Mawrth 2023), para 9.2.1 i 9.3.2.

ei hun.¹¹⁰ Nododd Adolygiad Wade mai menywod sy'n ddeiliaid tŷ ar y cyd â'u camdrinwyr (nad ydynt felly'n dresmaswyr) fyddai fwyaf angen amddiffyniad o'r fath.¹¹¹

- 3.93 Yng nghyd-destun cam-drin domestig a rheolaeth orfodol, mae rhai wedi nodi ymddangosiad naratifau sydd â'r nod o symud y bai i ffwrdd o gyflawnwr y cam-drin a thuag at ddioddefwr (ymadawedig) y cam-drin. Mae hyn yn amlwg mewn achosion o'r hyn a elwir yn "amddiffyniad rhyw garw", lle gall diffynnydd ddadlau nad oedd ganddynt elfen fai'r drosedd lladdiad oherwydd bod y lladd yn ganlyniad i "rhyw garw cydsyniol wedi mynd o chwith".¹¹² Fel y crynhodd yr Athrawon Jonathan Herring a Hannah Bows,

Mae'r hanes hwn o laddiadau yn y cyd-destun hwnnw'n llawn esgusodion fel 'cafodd hi affêr' neu 'roedd hi'n dal i gwyno' neu 'roedd hi mor annifyr' neu nawr, 'roedd hi'n mwynhau rhyw garw'. Felly mae hanes hir o'r gyfraith yn galluogi dynion i ddefnyddio straeon i gyfiawnhau eu cam-drin. Yr 'amddiffyniad rhyw garw' yw'r diweddaraf mewn cyfres hir o'r rhain.¹¹³

- 3.94 Gwnaed rhai cynigion yn ystod y blynyddoedd diwethaf i fynd i'r afael ag annigonolrwydd y gyfraith bresennol, gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i:

- (a) cyflwyno amddiffyniad rhannol o "hunan-warchod", sy'n berthnasol mewn achosion nad ydynt yn bodloni amddiffyniadau rhannol neu lawn eraill.¹¹⁴ Archwiliwyd yr opsiwn hwn gan Gomisiwn y Gyfraith ym Mhapur Ymgynghori 2003 ar amddiffyniadau rhannol i lofruddiaeth, ond cafodd ei adael o blaid diwygio'r amddiffyniadau rhannol presennol;¹¹⁵
- (b) cyflwyno amddiffyniad wedi'i fodelu ar yr amddiffyniad hunanamddiffyn presennol a roddir i ddeiliaid tŷ. Byddai'r opsiwn hwn yn caniatáu i ddioddefwyr cam-drin domestig sy'n lladd eu camdrinwyr ddefnyddio grym anghymesur (ond nid difrifol o anghymesur) yn erbyn eu camdriniwr;¹¹⁶

¹¹⁰ N Wake, "Battered Women, Startled Householders and Psychological Self-Defence: Anglo-Australian Perspectives" (2013) 77 *Journal of Criminal Law* 433, 449-451.

¹¹¹ [Clare Wade KC's Independent Review of Domestic Homicide Sentencing](#) (Mawrth 2023), para 9.4.5.

¹¹² H Bows a J Herring, "Getting Away with Murder? A Review of the Rough Sex Defence" (2020) 84 *Journal of Criminal Law* 525.

¹¹³ J Herring a H Bows, "Regulating Intimate Violence: Rough Sex, Consent and Death" (2021) 311 *Child and Family Law Quarterly* 10.

¹¹⁴ Gweler, er enghraifft, [Clare Wade KC's Independent Review of Domestic Homicide Sentencing](#) (March 2023), para 9.4.11; N Wake, "Battered Women, Startled Householders and Psychological Self-Defence: Anglo-Australian Perspectives" (2013) 77 *Journal of Criminal Law* 433, 454-456.

¹¹⁵ [Partial Defences to Murder](#) (2003) Law Commission Consultation Paper No 173, para 10.95 i 10.112. Mae amddiffyniad tebyg, o'r enw "lladd er mwyn gwarchod mewn perthynas ddomestig gamdriniol" i'w gael yng nghod troseddol Queensland (Awstralia), sy'n lleihau lofruddiaeth i ddynladdiad: Cod Troseddol 1899, adran 304B.

¹¹⁶ CWJ, [Women Who Kill: How the State Criminalises Women We Might Otherwise Be Burying](#) (2021), t 141-143.

- (c) cyflwyno darpariaethau sy'n nodi y gall y cyd-destun cymdeithasol ehangach y digwyddodd y lladd yn ei erbyn (gan gynnwys hanes o gam-drin neu drais blaenorol) fod yn berthnasol yn dystiolaethol i gefnogi ple o hunanamddiffyn, ynghyd â diddymu'r gofyniad bod hunanamddiffyn yn berthnasol dim ond pan oedd bygythiad *yn y fan a'r lle* yn erbyn dioddefwr cam-drin domestig sy'n lladd ei gamdriniwr.¹¹⁷

Yr adolygiad cyfredol o gyfraith lladdiad

3.95 Mae Cylch Gorchwyl ein hadolygiad ar wahân blaenorol o amddiffyniadau ar gyfer dioddefwyr cam-drin domestig sy'n lladd eu camdrinwyr yn nodi y byddwn yn adolygu'r defnydd o amddiffyniadau mewn achosion lladdiad ddomestig yng ngoleuni dealltwriaeth fodern o effeithiau cam-drin domestig ar ddioddefwyr, gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i:

- (1) a yw'r amddiffyniadau presennol i lofruddiaeth, a'r dadleuon ynghylch diffyg bwriad gofynnol i lofruddio, yn gweithredu'n foddhaol yng nghyd-destun diffynnydd sydd wedi dioddef cam-drin domestig;
- (2) os na, a oes angen diwygio'r amddiffyniadau presennol neu a oes angen amddiffyniad neu amddiffyniadau pwrpasol newydd, gan sicrhau bod amddiffyniadau diwygiedig neu newydd yn cael eu cyfyngu'n briodol, er enghraifft, er mwyn osgoi canlyniadau anfwriadol mewn achosion lle mae'r camdriniwr wedi lladd ei ddioddefwr;¹¹⁸
- (3) gweithrediad y rheolau tystiolaeth, y weithdrefn, a'r ffyrdd y mae'r amddiffyniadau'n cael eu hystyried o ddechrau ymchwiliad yr heddlu hyd at ac yn ystod y treial, yn y cyd-destun hwn, ac a oes angen diwygio materion o'r fath.¹¹⁹

3.96 Bydd yr adolygiad yn cynnwys ystyriaeth o effaith profiad gwahanol ddioddefwyr yng ngoleuni dealltwriaeth fodern o gam-drin domestig, gan gynnwys ond heb fod yn

¹¹⁷ Mae cyfraith droseddol rhai taleithiau Awstralia, fel Victoria, yn cynnwys darpariaethau tebyg, yn ogystal ag amddiffyniad rhannol o hunanamddiffyn gormodol a fydd, os caiff ei bledio'n llwyddiannus, yn lleihau llofruddiaeth i ddynladdiad. Am fwy o fanylion am awdurdodaethau Awstralia, gweler CWJ, [Making Self-Defence Accessible to Victims of Domestic Abuse Who Use Force Against Their Abuser: Learning from Reforms in Canada, New Zealand and Australia](#) (2023); Clare Wade KC's Independent Review of Domestic Homicide Sentencing (Mawrth 2023), tt 15 i 18. Gweler hefyd N Caitlin ac R Dioso-Villa, "Australia's Divergent Legal Responses to Women Who Kill Their Abusive Partners" (2023) 30 *Violence Against Women* 2275. Am gynnig i gyflwyno darpariaethau yng Nghymru a Lloegr wedi'u modelu ar gyfraith droseddol Fictoriaidd, gweler N Wake, "Battered Women, Startled Householders and Psychological Self-Defence: Anglo-Australian Perspectives" (2013) 77 *Journal of Criminal Law* 433.

¹¹⁸ Rydym yn nodi yma bryderon y gallai amddiffyniad neu drosedd bwrpasol ar gyfer y grŵp hwn o ddiffynnyddion gael ei ddefnyddio'n ymarferol gan ddiffynnyddion eraill, gan gynnwys cyflawnwyr cam-drin sy'n lladd eu dioddefwr. Yn Victoria, Awstralia, cyflwynwyd trosedd o "laddiad amddiffynol" o dan adran 9AD o Ddeddf Troseddau 1958 i gydnabod amgylchiadau penodol dioddefwyr cam-drin sy'n lladd. Fe'i diddymwyd yn 2014 yn dilyn "canfyddiad cyffredinol ei fod yn cael ei gamddefnyddio gan ddynion treisgar": gweler M Ulbrick, A Flynn a D Tyson, "The abolition of defensive homicide: a step towards populist punitivism at the expense of mentally impaired offenders" (2016) 40 *Melbourne University Law Review* 324.

¹¹⁹ [Cylch Gorchwyl](#) y prosiect ar amddiffyniadau i ddioddefwyr cam-drin domestig sy'n lladd eu camdrinwyr.

gyfyngedig i ddiwylliant, crefydd, rhywioldeb, anabledd a statws mudol y dioddefwyr.¹²⁰

- 3.97 Byddwn yn ystyried canfyddiadau ac argymhellion Adolygiad Wade o Ddedfrydu Lladdiad Domestig, yn ogystal ag ymateb y Llywodraeth, fel rhan o'n hadolygiad o'r fframwaith dedfrydu ar gyfer llofruddiaeth.¹²¹ Rydym yn trafod y fframwaith dedfrydu ar gyfer llofruddiaeth yn fanylach ym Mhennod 4.
- 3.98 Fel y gwelsom uchod, ni fydd ein hadolygiad ehangach o gyfraith lladdiad bellach yn gyfyngedig i weithrediad amddiffyniadau sydd ar gael i ddiffynyddion sy'n lladd eu camdrinwyr, ond bydd hefyd yn cwmpasu gweithrediad troseddau lladdiad cyflawn a dedfrydu am laddiad mewn achosion o'r fath.

Mater 12.

- 3.99 Rydym yn gwahodd tystiolaeth ar weithrediad troseddau lladdiad cyflawn, amddiffyniadau rhannol a llawn, a dedfrydu am lofruddiaeth mewn achosion lle mae dioddefwyr cam-drin domestig yn lladd eu camdrinwyr.
- 3.100 Rydym yn gwahodd tystiolaeth ar ddealltwriaeth o gam-drin domestig a'i effaith ar ddioddefwyr, fel sy'n berthnasol i'n hadolygiad o gyfraith lladdiad.

¹²⁰ Fe wnaethom ni drafod y materion hyn yn ein [Defences for victims of domestic abuse who kill their abusers, Background Paper](#) (10 Rhagfyr 2024).

¹²¹ Mae ein hadolygiad wedi'i gyfyngu i'r fframwaith dedfrydu ar gyfer llofruddiaeth a nodir yn Atodlen 21 i'r Cod Dedfrydu, yn unol â'n Cylch Gorchwyl. Mae Adolygiad Wade hefyd yn cynnwys argymhellion ynghylch dynladdiad. Fodd bynnag, mae'r canllawiau dedfrydu ar gyfer dynladdiad, sy'n dod o dan gylch gwaith y Cyngor Dedfrydu, y tu allan i gwmpas ein hadolygiad o laddiad.

Pennod 4: Y fframwaith dedfrydu ar gyfer llofruddiaeth

CYFLWYNIAD

- 4.1 Mae trydydd elfen ein prosiect yn ymwneud ag adolygiad o'r fframwaith dedfrydu ar gyfer llofruddiaeth.
- 4.2 Mae ein Cylch Gorchwyl yn egluro cwmpas ein hadolygiad, a fydd yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i:
- adolygiad cyflawn o Atodlen 21 i'r Cod Dedfrydu (Penderfynu ar y tymor gofynnol mewn perthynas â dedfryd oes orfodol am llofruddiaeth ac ati), a deddfwriaeth berthnasol arall lle bo angen i gynnal yr adolygiad hwnnw;
 - gweithrediad y manau cychwyn statudol a'r ffactorau gwaethybol a lliniarol, a'r effaith y mae'r rhain yn ei chael ar yr ymarfer dedfrydu;
 - i ba raddau y mae'r fframwaith yn adlewyrchu dealltwriaeth fodern o euogrwydd yn ddigonol lle cyflawnir llofruddiaeth o fewn cyd-destun domestig; a
 - a yw'r fframwaith wedi'i gyflwyno'n rhesymegol, yn hawdd i'w lywio ac yn galluogi canlyniadau dedfrydu cyson.
- 4.3 Mae rhai materion wedi'u heithrio'n benodol o gwmpas ein hadolygiad. Yn gyntaf, ni fyddwn yn ystyried y canllawiau dedfrydu ar gyfer dynladdiad, sy'n parhau i fod yn gyfrifoldeb y Cyngor Dedfrydu.¹
- 4.4 Yn ail, bydd ein hadolygiad yn tybio:
- (1) parhad y ddedfryd oes orfodol am llofruddiaeth (neu'r ffurf fwyaf difrifol o llofruddiaeth os argymhellir strwythur haenog ar gyfer y drosedd);
 - (2) y bydd y fframwaith dedfrydu ar gyfer y ddedfryd oes orfodol yn parhau i gael ei nodi mewn deddfwriaeth sylfaenol.

DEDFRYDU LLOFRUDDIAETH

Y gyfraith bresennol

- 4.5 Mae llofruddiaeth yn cario dedfryd orfodol o garchar am oes.² Mae hyn yn golygu nad oes gan y barnwr dedfrydu unrhyw ddisgresiwn i osod dedfryd is neu wahanol. Fodd

¹ Fodd bynnag, fel y nodwyd gennym ym mharagraff 1.24, gall unrhyw argymhellion a wnawn gael canlyniadau i'r canllawiau dedfrydu perthnasol, ac felly rydym yn bwriadu gweithio'n agos gyda'r Cyngor Dedfrydu, fel y cytunwyd rhwng y Comisiwn a Phrif Weithredwr y Cyngor Dedfrydu.

² Deddf Llofruddiaeth (Diddymu'r Gosb Eithaf) 1965, adran 1(1).

bynnag, anaml y bydd troseddwr a gafwyd yn euog o lofruddiaeth yn treulio gweddill ei oes yn y carchar.³ Rôl y barnwr dedfrydu yw gosod y tymor gofynnol (a elwir weithiau'n "dariff"), hynny yw'r cyfnod gofynnol o amser y mae'n rhaid i'r troseddwr ei dreulio yn y carchar cyn y gall y Bwrdd Parôl ystyried cais i'w ryddhau. Os yw'r Bwrdd Parôl yn fodlon nad oes angen cadw'r troseddwr mwyach er mwyn amddiffyn y cyhoedd, bydd y troseddwr yn cael ei ryddhau ar drwydded. Bydd y troseddwr ar drwydded am weddill ei oes a gellir ei alw'n ôl i'r carchar os bydd yn aildroseddu neu'n torri ei amodau parôl fel arall.

- 4.6 Yr unig eithriad i'r rheolau hyn yw lle mae'r barnwr yn gwneud "gorchymyn oes gyfan". Mae'r rhain yn gymharol brin ac wedi'u cadw ar gyfer llofruddiaethau lle mae euogrwydd y troseddwr yn eithriadol o uchel. Mewn achos o'r fath, rhaid i'r troseddwr dreulio gweddill ei oes yn y carchar ac ni fydd byth yn gymwys i wneud cais am gael ei ryddhau ar drwydded.⁴
- 4.7 Llofruddiaeth yw'r unig drosedd y mae ei chanllawiau ar gyfer dedfrydu wedi'u nodi mewn statud o dan gylch gwaith y Senedd, yn hytrach nag yn y canllawiau dedfrydu o dan gylch gwaith y Cyngor Dedfrydu.
- 4.8 Mae'r fframwaith statudol ar gyfer llofruddiaeth wedi'i nodi yn Atodlen 21 i'r Cod Dedfrydu ("Atodlen 21").⁵ Mae Atodlen 21 yn cynnwys darpariaethau i arwain y barnwr wrth benderfynu ar "bwyntiau cychwyn" y tymor gofynnol. Dyma'r manau cychwyn sy'n berthnasol i droseddwr sy'n oedolion:
- (1) gorchymyn oes gyfan: pan fo difrifoldeb y drosedd yn "eithriadol o uchel" a bod y troseddwr yn 21 oed neu'n hŷn ar adeg y drosedd. Mae achosion sy'n dod o dan y categori hwn yn cynnwys: llofruddiaeth dau neu fwy o bobl lle mae pob llofruddiaeth yn cynnwys gradd sylweddol o ragfwrriad neu gynllunio, neu herwgipio'r dioddefwr, neu ymddygiad rhywiol neu sadistig; llofruddiaeth plentyn sy'n cynnwys herwgipio neu gymhelliant rhywiol neu sadistig; llofruddiaeth swyddog heddlu neu garchar ar ddyletswydd; llofruddiaeth wedi'i chymell gan achos gwleidyddol, crefyddol, hiliol neu ideolegol; euogfarn flaenorol o llofruddiaeth;⁶
 - (2) man cychwyn o 30 mlynedd: pan fo difrifoldeb y drosedd yn "arbennig o uchel" a bod y troseddwr yn 18 oed neu'n hŷn ar adeg y drosedd. Mae achosion sy'n dod o dan y categori hwn, er enghraifft, llofruddiaeth sy'n cynnwys defnyddio arf tanio neu ffrwydron, a gyflawnwyd er elw, gyda'r bwriad o ymyrryd â chwrs cyfiawnder, wedi'i waethygu gan elyniaeth hiliol neu grefyddol, neu gan

³ Rydym yn defnyddio'r gair "troseddwr" mewn perthynas â dedfrydu, yn hytrach na "diffynnydd", i adlewyrchu'r ffaith bod yr unigolyn wedi'i gael yn euog ac felly bod ei atebolrwydd troseddol wedi'i sefydlu.

⁴ Fodd bynnag, gall yr Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder ryddhau carcharor ar sail tosturiol: gweler Deddf Troseddau (Dedfrydau) 1997, adran 30. Mae'r mater wedi cael ei gyfreitha gerbron ECtHR: gweler isod ym mharagraff 4.27.

⁵ Cyn Deddf Dedfrydu 2020, cyflwynwyd Atodlen 21 yn wreiddiol yn Neddf Cyfiawnder Troseddol 2003. Cydgrynhoodd Deddf Dedfrydu 2020, sy'n cynnwys y Cod Dedfrydu, bron pob darpariaeth dedfrydu, yn dilyn argymhellion Comisiwn y Gyfraith: gweler [The Sentencing Code Report](#) (2018) Law Com No 382.

⁶ Atodlen 21, paragraff 2.

elyniaeth sy'n gysylltiedig â chyfeiriadedd rhywiol, anabledd neu hunaniaeth drawsryweddol;⁷

- (3) man cychwyn o 25 mlynedd: pan fo difrifoldeb y drosedd yn “ddigon difrifol” a bod y troseddwr yn 18 oed neu'n hŷn ar adeg y drosedd. O dan y categori hwn mae achosion lle aeth y troseddwr â chylllell neu arf arall i'r lleoliad gyda'r bwriad o gyflawni unrhyw drosedd neu lle roedd ganddo gylllell neu arf arall ar gael i'w ddefnyddio fel arf a'i ddefnyddio wrth gyflawni'r llofruddiaeth;⁸
 - (4) man cychwyn o 15 mlynedd: categori gweddilliol pan oedd y troseddwr yn 18 oed neu'n hŷn ar adeg y drosedd ac nad yw'r achos yn dod o dan y categorïau blaenorol.⁹
- 4.9 Mae gwahanol bwyntiau cychwyn yn berthnasol i droseddwr a oedd, yn y drefn hon, yn 17, 15 i 16, neu 14 oed ac iau pan gyflawnon nhw'r drosedd.¹⁰
- 4.10 Unwaith y bydd y barnwr wedi dewis y man cychwyn, dylai ystyried unrhyw ffactorau gwaethgol neu liniarol, ac unrhyw amser a dreuliwyd yn y ddalfa neu ar fechnïaeth, er mwyn penderfynu ar y tymor gofynnol (neu wrth wneud gorchymyn oes gyfan).¹¹
- 4.11 Mae ffactorau gwaethgol yn cynnwys: cynllunio neu ragfwrriad; bregusrwydd y dioddefwr oherwydd oedran neu anabledd; ymddygiad rheoli neu orfodi blaenorol tuag at y dioddefwr; dioddefaint meddyliol neu gorfforol a achoswyd i'r dioddefwr cyn marwolaeth; camddefnyddio sefyllfa o ymddiriedaeth; defnyddio gorfodaeth neu fygythiadau yn erbyn person arall i hwyluso'r llofruddiaeth; y ffaith bod y dioddefwr yn cyflawni gwasanaeth cyhoeddus neu ddyletswydd gyhoeddus; defnyddio trais parhaus a gormodol tuag at y dioddefwr; cuddio, dinistrio neu ddatgymalu'r corff.¹²
- 4.12 Mae ffactorau gwaethgol ychwanegol (nad ydynt yn benodol i lofruddiaeth) y mae'n rhaid i'r barnwr eu hystyried, ac maent wedi'u nodi yn y Cod Dedfrydu, megis bodolaeth euogfarnau blaenorol (o unrhyw drosedd) a'r ffaith bod y drosedd wedi'i chyflawni pan gafodd y troseddwr ei ryddhau ar fechnïaeth.¹³
- 4.13 Mae ffactorau liniarol yn cynnwys: y bwriad i achosi niwed corfforol difrifol, yn hytrach na lladd; diffyg rhagfwrriad; anhwylder meddwl neu anabledd y troseddwr; ymddygiad rheoli neu orfodi blaenorol y dioddefwr tuag at y troseddwr; cythruddo (heb fod yn

⁷ Uchod, para 3.

⁸ Atodlen 21, paragraff 4.

⁹ Uchod, para 5.

¹⁰ Uchod, paragraffau 5(A) a 6.

¹¹ Uchod, para 7. Mae paragraff 8 yn nodi y gall “ystyriaeth fanwl o ffactorau gwaethgol neu liniarol arwain at gyfnod gofynnol o unrhyw hyd (beth bynnag yw'r man cychwyn), neu at wneud gorchymyn oes gyfan”. Gweler hefyd y Cod Dedfrydu, adran 322(2)(b).

¹² Atodlen 21, paragraff 9. Dylid ystyried y ffactorau hyn os nad ydynt eisoes wedi'u hystyried wrth benderfynu ar y man cychwyn.

¹³ Yn y drefn honno, adrannau 65(2) a 64 o'r Cod Dedfrydu.

gyfystyr ag amddiffyniad o gythruddo); unrhyw raddau o hunanamddiffyn neu ofn trais; lladd trugarog; oedran y troseddwr.¹⁴

- 4.14 Mae'r Llys Apêl wedi egluro nad yw Atodlen 21 "yn ceisio nodi'r holl ffactorau gwaethgol a lliniarol, dim ond yn darparu enghreifftiau perthnasol".¹⁵
- 4.15 Mae'r barnwr dedfrydu yn cadw'r disgresiwn i bennu'r tymor lleiaf "fel y bo'r llys yn ei ystyried yn briodol".¹⁶ Mae'r Llys Apêl wedi pwysleisio dro ar ôl tro ei bod hefyd o fewn disgresiwn y barnwr i wyro o fan cychwyn o dan Atodlen 21, oherwydd "ni ellir gwneud cyfiawnder yn ôl y drefn"¹⁷ ac felly mae barnwr "yn rhydd i beidio â dilyn y canllawiau os na fydd hyn, yn ei farn ef, yn arwain at dymor priodol am resymau y mae'n eu nodi".¹⁸
- 4.16 Mae Atodlen 21 wedi cael ei diwygio sawl gwaith.¹⁹ Gyda'r gwelliannau diweddaraf, mae'r Llywodraeth wedi ychwanegu ffactorau gwaethgol a lliniarol mewn achosion o ymddygiad rheoli neu orfodol, o ganlyniad i argymhellion Adolygiad Wade yr ydym wedi'u trafod uchod o baragraff 3.82.

Problemau gyda'r gyfraith bresennol

- 4.17 Mae'r fframwaith dedfrydu ar gyfer llofruddiaeth wedi denu cryn feirniadaeth gan academyddion, y farnwriaeth, ymarferwyr troseddol a'r Weinyddiaeth Gyfiawnder.²⁰
- 4.18 Nododd adroddiad gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn 2010 fod Atodlen 21 yn seiliedig ar bolisi gwael a rhy ragnodol. Mae'n ceisio dadansoddi pob math o lofruddiaeth yn fanwl iawn. Y canlyniad yw canllawiau sy'n anghyson ac yn ddiangen o gymhleth, ac sydd wir angen eu diwygio er mwyn sicrhau cyfiawnder yn iawn ym mhob achos.²¹
- 4.19 Mae beirniadaeth academiaidd wedi canolbwyntio ar anghysondeb y telerau gofynnol a'r ffactorau gwaethgol, y gwelliannau darniog i'r fframwaith dedfrydu dros y

¹⁴ Atodlen 21, paragraff 10.

¹⁵ *R v Last* [2005] EWCA Crim 106, [2005] 2 Cr App R (S) 64, yn [18].

¹⁶ Cod Dedfrydu, adran 322(2).

¹⁷ *R v Peters and others* [2005] EWCA Crim 605, [2005] 2 Cr App R (S) 101, at [5].

¹⁸ *R v Sullivan* [2004] EWCA Crim 1762, [2005] 1 Cr App R 3, at [16].

¹⁹ Gall yr Arglwydd Ganghellor ddiwygio Atodlen 21 drwy reoliadau. Cyn gwneud rheoliadau, rhaid i'r Arglwydd Ganghellor ymgynghori â'r Cyngor Dedfrydu ac mae rheoliadau'n ddarostyngedig i'r weithdrefn penderfyniad cadarnhaol (cymeradwyaeth gan ddau Dŷ'r Senedd): gweler Atodlen 23 i'r Cod Dedfrydu, paragraff 19.

²⁰ Ni fyddwn yn trafod yma'r feirniadaeth o'r cyfiawnhad dros y ddedfryd oes orfodol am lofruddiaeth, gan fod Cylch Gorchwyl y prosiect hwn wedi'i seilio ar ei bodolaeth barhaus.

²¹ Y Weinyddiaeth Gyfiawnder, *Breaking the Cycle: Effective Punishment, Rehabilitation and Sentencing of Offenders* (Rhagfyr 2010) Cm 7972, para 170. Bryd hynny, roedd Atodlen 21 yn rhan o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 2003.

blynyddoedd, y diffyg cymesuredd mewn perthynas â bai troseddwr, ac wedi cwestiynu'r egwyddorion cosbol sy'n sail i'r fframwaith.²²

- 4.20 Mae rhai wedi beirniadu cyfwerthedd rhai ymddygiadau yn y mannau cychwyn. Er enghraifft, gofynnodd yr Athro Mitchell a yw llofruddiaeth swyddog heddlu neu garchar mor ddifrifol â llofruddiaeth mwy nag un person, yn enwedig pan fo bwriad a chynllunio sylweddol ymlaen llaw, neu herwgipio'r dioddefwr, neu ymddygiad rhywiol a sadistig; neu a ddylid trin llofruddiaeth a ysgogwyd gan achos gwleidyddol, crefyddol, hiliol neu ideolegol fel rhywbeth mwy difrifol na llofruddiaeth sy'n defnyddio ffrwydron.²³ Gwnaeth yr Athro Julian Roberts a Syr John Saunders sylwadau tebyg, gan ddadlau pan fo'r mannau cychwyn yn anghyson â chymesuredd, ei bod hi'n llawer anoddach i ddedfrydau gofynnol gydymffurfio â'r egwyddor y dylai llofruddiaethau o ddifrifoldeb cymharol ddenu dedfrydau o ddifrifoldeb cymharol.²⁴
- 4.21 Mae'r man cychwyn o 25 mlynedd a ychwanegwyd yn 2010 yn berthnasol i achosion lle'r oedd y troseddwr "wedi mynd â chyllell neu arf arall i'r lleoliad"²⁵ a'i ddefnyddio i gyflawni llofruddiaeth, wedi bod yn destun llawer o feirniadaeth, yn enwedig mewn achosion lle mae dioddefwr cam-drin domestig yn lladd ei gamdriniwr. Yn gyntaf, mae potensial am anghyfiawnder wrth wahaniaethu'n fympwyol rhwng achosion lle mae troseddwr wedi dod â chyllell neu arf arall i'r lleoliad er mwyn lladd (man cychwyn o 25 mlynedd) ac achosion lle mae troseddwr wedi dod o hyd i gyllell sydd eisoes yn y lleoliad (er enghraifft, yn y gegin) ac wedi'i defnyddio i ladd. Yn ail, mae ystyr "y lleoliad" yn broblematic (er enghraifft, a ydy cyllell mewn drôr, neu mewn ystafell arall, yn "y lleoliad"?).²⁶ Argymhellodd Adolygiad Wade y dylid datgymhwyso'r man cychwyn o 25 mlynedd sy'n berthnasol lle cludwyd cyllell neu arf arall i'r lleoliad mewn achosion o lofruddiaeth ddomestig "oherwydd ei fod yn dynodi man cychwyn lle nad yw bregusrwydd y dioddefwr yn cael unrhyw ystyriaeth".²⁷ Ni dderbyniodd y Llywodraeth yr argymhelliad, gan ddadlau y byddai'n creu anghydraddoldeb annheg wrth gymhwyso dedfrydau, a fyddai'n dibynnu ar natur y cysylltiad rhwng y dioddefwr a'r troseddwr.²⁸
- 4.22 Mae pryderon hefyd wedi'u codi bod dioddefwyr cam-drin domestig (benywaidd yn bennaf) sy'n lladd eu camdrinwyr yn aml yn destun dedfrydau sy'n ymddangos yn

²² Am drosolwg defnyddiol o'r elfennau beirniadaeth hyn, gweler R Martin, [Sentencing for Murder. A Review of Policy and Practice](#) (Sentencing Academy 2024), t 17 i 20. Gweler hefyd, ymhlith llawer: D Jeremy, "Sentencing Policy or Short-term Expediency?" [2010] *Criminal Law Review* 593; A Ashworth, "The Struggle for Supremacy in Sentencing" yn A Ashworth a J V Roberts (gol), *Sentencing Guidelines: Exploring the English Model* (2013), t 21.

²³ B Mitchell, "Identifying and Punishing the More Serious Murders" [2016] *Criminal Law Review* 467, 469.

²⁴ JV Roberts a J Saunders, "Sentencing for Murder: The Adverse and Unintended Effects of Schedule 21 to the Criminal Justice Act 2003" (2020) 10 *Criminal Law Review* 900, 904.

²⁵ Atodlen 21, paragraff 4(2).

²⁶ Enghreifftiau wedi'u cymryd o *R v Kelly and others* [2011] EWCA Crim 1462, [2012] 1 WLR 55. Am feirniadaeth o'r ddarpariaeth ac o ymgais y Llys Apêl i egluro ei chwmpas yn *R v Kelly*, gweler J Bild, "Kelly and the 25 Year Starting Point" (2011) 9 *Archbold Review* 7.

²⁷ [Clare Wade KC's Independent Review of Domestic Homicide Sentencing](#) (Mawrth 2023), argymhelliad 3, para 7.1.13. Trafodwyd Adolygiad Wade uchod o baragraff 3.82.

²⁸ Y Weinyddiaeth Gyfiawnder, [Government Response to the Independent Review by Clare Wade KC](#) (July 2023) CP 872, t 16.

anghymesur o hir o'i gymharu â'u heuogrwydd oherwydd gwahanol ffactorau, gan gynnwys diffyg dealltwriaeth o gam-drin domestig a rheolaeth orfodol, y mannau cychwyn 25 mlynedd mewn achosion lle daethpwyd â chyllell neu arf arall i'r lleoliad, a'r anhawster o ddibynnu ar amddiffyniadau. I'r gwrthwyneb, yn aml nid yw dedfrydau a dderbynnir gan gamdrinwyr (gwrywaidd yn bennaf) sy'n lladd eu dioddefwyr cam-drin yn ymddangos eu bod yn adlewyrchu difrifoldeb y drosedd.²⁹

4.23 Mae ymarferwyr cyfreithiol hefyd wedi bod yn feirniadol o'r fframwaith dedfrydu ar gyfer llofruddiaeth. Mae chwech ar hugain o farnwyr a bargyfreithwyr a gyfwelwyd gan yr Athro Kate Fitz-Gibbon wedi nodi bod Atodlen 21 yn rhy gyfyngol a bod y mannau cychwyn wedi'u cymell gan boblyddiaeth gosbol sy'n cael ei gyrru gan bolisiau llym yn erbyn troseddu.³⁰

4.24 Mae'r Llys Apêl hefyd wedi beirniadu Atodlen 21 ar nifer o achlysuron. Er enghraifft, dyfarnodd y gall y mannau cychwyn "gyflwyno anawsterau sylweddol i ddedfrydwr yn ei ymgaïs i baru'r gosb ag amgylchiadau amrywiol anfeidrol trosedd"³¹ a bod Atodlen 21 yn ymddangos yn "fframwaith statudol rhy ragnodol, yn ddiangen o gymhleth, ac, ar adegau, yn gwbl artifisial, ac yn ymddangosiadol gynhwysfawr".³²

4.25 Fel y trafodwyd uchod, dros y blynyddoedd mae'r Llys Apêl wedi cymhwyso'r fframwaith dedfrydu yn fwy hyblyg, ac wedi dweud na ddylid defnyddio'r mannau cychwyn

yn fecanyddol er mwyn cynhyrchu, i bob pwrpas, tri [pedwar bellach] categori gwahanol o lofruddiaeth. Rhaid rhoi ystyriaeth lawn i nodweddion yr achos unigol fel bod y ddedfryd yn adlewyrchu difrifoldeb y drosedd benodol yn wirioneddol.³³

4.26 Gan nodi'r gwahaniaeth mawr rhwng y mannau cychwyn, pwysleisiodd eu bod yn "darparu fframwaith eang iawn ar gyfer yr ymarfer dedfrydu." Maent mor bell oddi wrth ei gilydd fel y bydd yn aml yn amhosibl gwahanu'r dewis o fan cychwyn oddi wrth gymhwyso ffactorau gwaethgol a lliniarol".³⁴

4.27 Yn olaf, mae gorchmynion oes gyfan wedi bod yn destun ymgyfreitha hawliau dynol gerbron ECtHR. Yn 2013, canfu'r Siambr Fawr fod gorchmynion oes gyfan yn torri erthygl 3 o'r ECHR (gwaharddiad ar driniaeth neu gosb annynol neu israddol), gan nad oedd unrhyw obaith o ryddhau cynnar ac adsefydlu.³⁵ Fodd bynnag, yn 2017

²⁹ [Llythyr ar y cyd](#) i'r Arglwydd Ganghellor gan y Comisiynydd Cam-drin Domestig a'r Comisiynydd Dioddefwyr yn 2021. Gweler hefyd CWJ, *Women who Kill: How the State Criminalises Women We Might Otherwise be Burying* (2021); a [Clare Wade KC's Independent Review of Domestic Homicide Sentencing](#) (March 2023), para 4.3.3 i 4.3.7 ac Atodiad D.

³⁰ K Fitz-Gibbon, "Minimum Sentencing for Murder in England and Wales: A Critical Examination 10 Years After the Criminal Justice Act 2003" (2016) 18 *Punishment and Society* 47. Ar faterion tebyg, gweler hefyd D Thomas, "Sentencing Murder: The Minimum Term" [2008] *Criminal Law Review* 904.

³¹ *R v Griffiths and others* [2012] EWCA Crim 2822, [2013] 2 Cr App R (S) 48, yn [15].

³² *R v Kelly and others* [2011] EWCA Crim 1462, [2012] 1 WLR 55, yn [9].

³³ *R v Jones* [2005] EWCA Crim 3115, [2006] 2 Cr App R (S) 19, yn [8].

³⁴ Uchod, yn [7].

³⁵ *Vinter and others v DU* (2016) 63 EHRR 1 (App Nos 66069/09, 130/10 and 3896/10) (Grand Chamber decision).

derbyniodd y Siambr Fawr fod pŵer yr Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder i ryddhau er lles tosturiol yn ddigonol i sicrhau cydymffurfiaeth ag erthygl 3, oherwydd bod modd lleihau gorchmynion oes gyfan mewn gwirionedd, er mewn amgylchiadau eithriadol.³⁶

Canfyddiadau'r cyhoedd o ddedfrydu am lofruddiaeth

- 4.28 Yn ddiweddar, nododd Pwyllgor Cyfiawnder Tŷ'r Cyffredin y bwlch rhwng canfyddiadau'r cyhoedd o ddedfrydu am lofruddiaeth a'r realiti. Er gwaethaf y cynnydd cyson mewn dedfrydau uchaf ar gyfer nifer o droseddau (gan gynnwys y tymhorau gofynnol ar gyfer dedfrydau llofruddiaeth), bu caledu amlwg ym marn y cyhoedd tuag at droseddau difrifol ers y 1990au.³⁷ Er enghraifft, dangosodd arolwg a gynhaliwyd yn 2023 fod 55% o'r ymatebwyr o'r farn y dylai'r man cychwyn ar gyfer llofruddiaeth plentyn fod yn orchymyn oes gyfan a bod 42% o'r farn y dylai'r un peth fod yn berthnasol i lofruddiaeth oedolyn.³⁸
- 4.29 Canfu'r Academi Dedfrydu dystiolaeth nad yw hyd y ddedfryd am lofruddiaeth yn cael ei ddeall yn dda gan y cyhoedd. Roedd mwyafrif yr ymatebwyr i arolwg yn credu bod troseddwyd a gafwyd yn euog o lofruddiaeth bellach yn treulio cyfnodau byrrach yn y carchar cyn cael eu rhyddhau ar drwydded.³⁹ Awgrymodd yr Academi Dedfrydu fod perthynas glir rhwng agweddau'r cyhoedd at ddifrifoldeb dedfrydau a gwybodaeth am ddedfrydu.⁴⁰

Yr Adolygiad Dedfrydu Annibynnol

- 4.30 Un elfen o feirniadaeth o'r fframwaith dedfrydu ar gyfer llofruddiaeth yw ei fod wedi arwain at gynnydd cyffredinol yn yr amser y mae'n rhaid i droseddwyd ei dreulio yn y carchar cyn eu rhyddhau ar drwydded (chwyddo'r tymor gofynnol), gydag effaith ganlyniadol ar hyd cyffredinol dedfrydau carchar a basiwyd am droseddau troseddol eraill (chwyddo dedfrydau).
- 4.31 Yn 2025, adroddodd yr Adolygiad Dedfrydu Annibynnol dan gadeiryddiaeth y Gwir Anrhydeddus David Gauke ("Adolygiad Gauke") fod hyd cyfartalog y tymor gofynnol a osodir am lofruddiaeth wedi codi o 12 mlynedd yn 2000 i 21 mlynedd yn 2021.⁴¹ Canfu hefyd fod y manau cychwyn statudol wedi cael effaith ar ddedfrydu ehangach a

³⁶ *Hutchinson v DU* (App No 57592/08) (Grand Chamber decision). Seiliodd yr ECtHR ei ddyfarniad ar yr eglurhad o'r gyfraith a ddarparwyd gan y Llys Apêl yn *R v McLoughlin* [2014] EWCA Crim 188, [2014] 1 WLR 3964. Am feirniadaeth o'r dyfarniad, gweler K Dzehtsiarou, "Is There Hope for the Right to Hope?" (*Verfassungsblog* 2017), <https://verfassungsblog.de/is-there-hope-for-the-right-to-hope/> (cyrchwyd ddiwethaf 30 Mai 2025).

³⁷ Public Opinion and Understanding of Sentencing, [Report of the House of Commons Justice Committee](#) (2022-23) HC 305, tt 3 a 33.

³⁸ Uchod, tt. 37-38.

³⁹ J Roberts, J Bild, J Pina-Sanchez a M Hough, [Public Knowledge of Sentencing Practice and Trends: Research Report](#) (Sentencing Academy 2022), tt 8-9.

⁴⁰ Uchod, t 14.

⁴¹ [Independent Sentencing Review. Final Report and Proposals for Reform](#) (Mai 2025), t 144. Mae'r canfyddiadau'n seiliedig ar ddata'r Academi Dedfrydu.

phoblogaeth y carchar yn fwy cyffredinol oherwydd chwyddo hyd dedfrydau ar gyfer dynladdiad a throseddau cysylltiedig yn erbyn y person nad ydynt yn llofruddiaeth.⁴²

- 4.32 Wrth adolygu'r hanes a'r tueddiadau mewn dedfrydu (nid yn unig ar gyfer llofruddiaeth), canfu Adolygiad Gauke fod naratifau gwleidyddol "llym yn erbyn troseddu" sy'n blaenoriaethu mesurau cosbol, diffyg dulliau strategol a seiliedig ar dystiolaeth, yn ogystal â newidiadau deddfwriaethol fel y fframwaith statudol ar gyfer dedfrydu llofruddiaeth, "wedi arwain yn ddiamau at dreulio mwy o amser yn y ddalfa, ac wedi creu fframwaith dedfrydu cymhleth, gan greu canfyddiad o ddryswch ynghylch dedfrydu a chosb i ddioddefwyr a throseddwy".⁴³
- 4.33 Argymhellodd Adolygiad Gauke y dylai "adolygiad Comisiwn y Gyfraith o gyfraith lladdiad a dedfrydu (fel y'i comisiynwyd gan y Llywodraeth) edrych ar y tariffau gofynnol ar gyfer dedfrydu am lofruddiaeth".⁴⁴ Yn wir, mae telerau gofynnol o fewn cwrmpas ein hadolygiad ehangach o'r fframwaith dedfrydu ar gyfer llofruddiaeth.

Adroddiad 2006

- 4.34 Nid oedd cwrmpas ein hadolygiad blaenorol o lofruddiaeth, dynladdiad a babanladdiad yn ymestyn i'r fframwaith dedfrydu ar gyfer llofruddiaeth. Fel ein hadolygiad presennol o gyfraith lladdiad, tybiodd yr adolygiad blaenorol fodolaeth y ddedfryd oes orfodol am lofruddiaeth.⁴⁵
- 4.35 Er na wnaethom argymhellion ar ddedfrydu yn Adroddiad 2006, byddai ein strwythur tair haen a argymhellwyd yn cael effaith ar ddedfrydu am droseddau lladdiad. O fewn y strwythur hwnnw, dim ond llofruddiaeth gradd gyntaf fyddai'n denu'r ddedfryd oes orfodol, tra byddai llofruddiaeth ail radd a dynladdiad yn denu dedfryd oes ddewisol. Yn ymarferol, mae dadl y gallai hyn fod wedi arwain at gyrhaeddiad mwy cyfyngedig i'r ddedfryd oes orfodol, gan y byddai rhai achosion sydd ar hyn o bryd wedi'u labelu'n "lofruddiaeth" wedi cael eu trin fel "lofruddiaeth ail radd". Fodd bynnag, gwelsom y byddai cyflwyno haen ganol yn lliniaru'r pryder hwn, gan y byddai'n rhaid i'r barnwr roi dedfryd o garchar am lofruddiaeth ail radd a fyddai'n gymesur yn uwch na'r hyn a fyddai ar gael pe bai dynladdiad oedd yn unig bosibilrwydd arall.⁴⁶
- 4.36 Yn ogystal, pwysleisiasom y dylai'r Senedd nodi canllawiau ar gyfer dedfrydu mewn achosion llofruddiaeth ail radd fel rhan o ddiwygiad ehangach o'r gyfraith.⁴⁷ Roeddem

⁴² Uchod, t 144. Mae'r canfyddiadau'n seiliedig ar ymateb y Cyngor Dedfrydu i'r Alwad am Dystiolaeth yn yr adolygiad. Am fwy o fanylion, gweler yr astudiaeth ar wahân gan yr Academi Dedfrydu, "Sentence Inflation in England and Wales: What Are the Causes?" (2025) *Sentencing News* 4, 6. Mae sefydliadau anllywodraethol eraill wedi tynnu sylw at yr un tueddiadau dros y blynyddoedd diwethaf, er enghraifft Cynghair Howard dros Ddiwygio Cosbau, *Sentence Inflation: A Judicial Critique* (2024).

⁴³ [Independent Sentencing Review. History and Trends in Sentencing](#) (Chwefror 2025) t 21.

⁴⁴ [Independent Sentencing Review. Final Report and Proposals for Reform](#) (Mai 2025), t 146.

⁴⁵ Gweler y [Cylch Gorchwyl](#) o'r adolygiad blaenorol. Mae rhai wedi beirniadu'r dybiaeth hon yn ein hadolygiad blaenorol: gweler y drafodaeth uchod ym mharagraff 2.16.

⁴⁶ [Murder, Manslaughter and Infanticide](#) (2006) Law Com No 304, Atodiad A, para A.7 i A.10.

⁴⁷ Uchod, para 1.61.

ni'n credu y byddai dedfrydau oes bron yn sicr o barhau i fod yn fesur dewis cyntaf mewn llawer o lofruddiaethau ail radd â nodweddion gwaethgol.⁴⁸

Yr adolygiad cyfredol o gyfraith lladdiad

- 4.37 Fel y nodwyd uchod, byddwn yn cynnal adolygiad o'r fframwaith dedfrydu ar gyfer llofruddiaeth a nodir yn Atodlen 21, a deddfwriaeth berthnasol arall lle bo angen.
- 4.38 Gan fod Atodlen 21 yn cynnwys darpariaethau gwahanol sy'n berthnasol i droseddwy 21 oed neu hŷn, 18 oed neu hŷn ac o dan 18 oed, yn y drefn honno, rydym yn gwahodd tystiolaeth ar y fframwaith dedfrydu ar gyfer llofruddiaeth mewn perthynas â phob grŵp oedran, gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, y telerau gofynnol, y mannau cychwyn, ffactorau gwaethgol a lliniarol a chymesuredd.

Mater 13.

- 4.39 Rydym yn gwahodd tystiolaeth ar y fframwaith dedfrydu ar gyfer llofruddiaeth mewn perthynas â throseddwy 21 oed a throsodd.

Mater 14.

- 4.40 Rydym yn gwahodd tystiolaeth ar y fframwaith dedfrydu ar gyfer llofruddiaeth mewn perthynas â throseddwy 18 i 20 oed.

Mater 15.

- 4.41 Rydym yn gwahodd tystiolaeth ar y fframwaith dedfrydu ar gyfer llofruddiaeth mewn perthynas â throseddwy o dan 18 oed.

⁴⁸ Uchod, Atodiad A, para A.11 i A.14.

Pennod 5: Rhestr o faterion

Mater 1.

- 5.1 Rydym yn gwahodd tystiolaeth ar fanteision ac anfanteision strwythur presennol troseddau lladdiad (strwythur dwy haen sy'n cynnwys llofruddiaeth a dynladdiad).
- 5.2 Rydym yn gwahodd tystiolaeth ar fanteision ac anfanteision strwythur troseddau lladdiad a argymhellwyd gennym yn 2006 (strwythur tair haen sy'n cynnwys llofruddiaeth gradd gyntaf, llofruddiaeth ail radd a dynladdiad).
- 5.3 Rydym yn gwahodd tystiolaeth ar strwythurau amgen posibl ar gyfer troseddau lladdiad.

Paragraff 2.25

Mater 2.

- 5.4 Rydym yn gwahodd tystiolaeth ar y defnydd o elfennau bai troseddau lladdiad presennol ac unrhyw heriau y maent wedi'u codi yn ymarferol.
- 5.5 Rydym yn gwahodd tystiolaeth ar fanteision ac anfanteision diffinio elfennau bai'r troseddau lladdiad presennol ac ar eu diffiniadau posibl.
- 5.6 Rydym yn gwahodd tystiolaeth ar fanteision ac anfanteision y diffiniadau o'r elfennau bai a argymhellwyd gennym yn 2006.

Paragraff 2.44

Mater 3.

- 5.7 Rydym yn gwahodd tystiolaeth ar unrhyw agwedd ar gyfraith cyfranogaeth, fel sy'n berthnasol i droseddau lladdiad, amddiffyniadau rhannol a llawn, a'r fframwaith dedfrydu ar gyfer llofruddiaeth.

Paragraff 2.71

Mater 4.

- 5.8 Rydym yn gwahodd tystiolaeth ar arfer erlyn ac achosion llys am ladd “trugarog” a chydysyniol ac ar unrhyw ddatblygiad perthnasol mewn perthynas â'r materion hyn.

Paragraff 2.86

Mater 5.

- 5.9 Rydym yn gwahodd tystiolaeth ar unrhyw agwedd sy'n berthnasol i fabanladdiad, gan gynnwys sut mae trosedd ac amddiffyniad babanladdiad yn gweithredu'n ymarferol ar hyn o bryd.

Paragraff 2.101

Mater 6.

- 5.10 Rydym yn gwahodd barn ar unrhyw faterion ychwanegol sy'n berthnasol i droseddau lladdiad cyflawn, gan gynnwys troseddau achosi marwolaeth, y dylid eu hystyried o fewn cwmpas yr adolygiad.

Paragraff 2.104

Mater 7.

- 5.11 Rydym yn gwahodd tystiolaeth ar weithrediad yr amddiffyniad rhannol o golli rheolaeth ac unrhyw heriau sy'n bodoli eisoes.

Paragraff 3.46

Mater 8.

- 5.12 Rydym yn gwahodd tystiolaeth ar weithrediad yr amddiffyniad rhannol o gyfrifoldeb lleihaedig ac unrhyw heriau sy'n bodoli eisoes.

Paragraff 3.47

Mater 9.

- 5.13 Rydym yn gwahodd tystiolaeth ar amddiffyniad gorfodaeth, yn enwedig ar ei gymhwysiad posibl i droseddau lladdiad.

Paragraff 3.65

Mater 10.

- 5.14 Rydym yn gwahodd tystiolaeth ar yr heriau a gyflwynir gan y gyfraith hunanamddiffyn fel sy'n berthnasol i gyfraith lladdiad.

Paragraff 3.70

Mater 11.

- 5.15 Rydym yn ceisio barn ymgylgoreion ynghylch a ddylid cynnwys amddiffyniadau llawn heblaw gorfodaeth a hunanamddiffyn o fewn cwmpas ein hadolygiad o gyfraith lladdiad.
- 5.16 Rydym yn gwahodd tystiolaeth ar yr heriau a gyflwynir gan amddiffyniadau llawn eraill mewn perthynas â chyfraith lladdiad.

Paragraff 3.72

Mater 12.

- 5.17 Rydym yn gwahodd tystiolaeth ar weithrediad troseddau lladdiad cyflawn, amddiffyniadau rhannol a llawn, a dedfrydu am lofruddiaeth mewn achosion lle mae dioddefwyr cam-drin domestig yn lladd eu camdrinwyr.
- 5.18 Rydym yn gwahodd tystiolaeth ar ddealltwriaeth o gam-drin domestig a'i effaith ar ddioddefwyr, fel sy'n berthnasol i'n hadolygiad o gyfraith lladdiad.

Paragraff 3.99

Mater 13.

- 5.19 Rydym yn gwahodd tystiolaeth ar y fframwaith dedfrydu ar gyfer llofruddiaeth mewn perthynas â throseddwyd 21 oed a throsodd.

Paragraff 4.39

Mater 14.

- 5.20 Rydym yn gwahodd tystiolaeth ar y fframwaith dedfrydu ar gyfer llofruddiaeth mewn perthynas â throseddwyd 18 i 20 oed.

Paragraff 4.40

Mater 15.

- 5.21 Rydym yn gwahodd tystiolaeth ar y fframwaith dedfrydu ar gyfer llofruddiaeth mewn perthynas â throseddwyd o dan 18 oed.

Paragraff 4.41

Cyfeiriadau

Isod rydym yn darparu rhestr gyflawn o'r ffynonellau a ddefnyddiwyd yn yr Alwad am Dystiolaeth.

FFYNONELLAU ACADEMAIDD

Ashworth A, "Self-defence and the Right to Life" (1975) 34 *Cambridge Law Journal* 272

Ashworth A, "Principles, Pragmatism and the Law Commission's Recommendations on Homicide Law Reform" [2007] *Criminal Law Review* 333

Ashworth A, "The Struggle for Supremacy in Sentencing" yn Ashworth A a Roberts J V (gol), *Sentencing Guidelines: Exploring the English Model* (2013)

Baker D, "Lesser Included Offences, Alternative Offences and Accessorial Liability" (2016) 80 *Journal of Criminal Law* 446

Bickle A, "Proposed Reforms to Partial Defences and Their Implications for Mentally Disordered Defendants" (2008) 1 *Journal of Mental Health Law* 38

Bild J, "Kelly and the 25 Year Starting Point" (2011) 9 *Archbold Review* 7

Bows H a Herring J, "Getting Away with Murder? A Review of the Rough Sex Defence" (2020) 84 *Journal of Criminal Law* 525

Brennan K a Milne E, "100 Years of Infanticide: The Law in Context" yn Brennan K a Milne E (gol), *100 Years of the Infanticide Act: Legacy, Impact and Future Directions* (2023)

Caitlin N a Dioso-Villa R, "Australia's Divergent Legal Responses to Women Who Kill Their Abusive Partners" (2023) 30 *Violence Against Women* 2275

Child J, "Exploring the Mens Rea Requirements of the Serious Crime Act 2007 Assisting and Encouraging Offences" (2012) 76(3) *Journal of Criminal Law* 220

Clarke B a Chadwick K, *Stories of Injustice: The Criminalisation of Women Convicted Under Joint Enterprise Laws* (2020)

Dell S, "Diminished Responsibility Reconsidered" [1982] *Criminal Law Review* 809

Dennis I, "Adjusting the Boundaries of Murder: Complicity" [2008] *Criminal Law Review* 923

Dressler J, "Battered Women Who Kill Their Sleeping Tormenters: Reflections on Maintaining Respect for Human Life While Killing Monsters" yn Shute S a Simester A (gol), *Criminal Law Theory: Doctrines of the General Part* (2002)

Dzehtsiarou K, "Is There Hope for the Right to Hope?" (*Verfassungsblog* 2017)

Edwards S S M, "Anger and Fear as Justifiable Preludes for Loss of Self-control" (2010) 74 *Journal of Criminal Law* 223

Edwards S S M, "Loss of Self-control: When his Anger is Worth More than Her Fear" in Reed A a Bohlander M (gol), *Loss of Control and Diminished Responsibility: Domestic, Comparative and International Perspectives* (2011)

Edwards S S M, "'Demasculinising' the Defence of Self-Defence, the 'Householder' Defence and Duress" [2022] *Criminal Law Review* 111

Elliott C a de Than C, "Restructuring the Homicide Offences to Tackle Violence, Discrimination and Drugs in a Modern Society" (2009) 20 *King's Law Journal* 69

Fitz-Gibbon K, "Minimum Sentencing for Murder in England and Wales: A Critical Examination 10 Years After the Criminal Justice Act 2003" (2016) 18 *Punishment and Society* 47

Fortson R, "The Modern Partial Defence of Diminished Responsibility" yn Reed A a Bohlander M (gol), *Loss of Control and Diminished Responsibility. Domestic, Comparative and International Perspectives* (2011)

Fortson R, "Partial Defences to Murder: Changed Landscape and Nomenclature" (2021) 72 *Northern Ireland Legal Quarterly* 171

Gibson M, "Diminished Responsibility in Golds and Beyond: Insights and Implications" [2017] *Criminal Law Review* 543

Herring J a Bows H, "Regulating Intimate Violence: Rough Sex, Consent and Death" (2021) 311 *Child and Family Law Quarterly* 10

Horder J, *Provocation and Responsibility* (1992)

Horder J a Hughes D, "Joint Criminal Ventures and Murder: The Prospects for Law Reform" (2009) 20 *King's Law Journal* 379

Horder J, *Homicide and the Politics of Law Reform* (2012)

Horder J, "Issues in Reforming Homicide Law: the English Experience": Seminar organised by the Scottish Law Commission on the Structure of Homicide and the Mental Element. (2018)

Horder J, "The Mandatory Sentence and the Case for Second-degree Murder" yn Reed A, Bohlander M, Wake N, Engleby E a Adams V (gol), *Homicide in Criminal Law. A Research Companion* (2019)

Howes S K, Williams K S a Wistrich H, "Women who Kill: Why Self-defence Rarely Works for Women who Kill their Abuser" [2021] *Criminal Law Review* 945

Hulley S, "Defending 'Co-offending' Women: Recognising Domestic Abuse and Coercive Control in 'Joint Enterprise' Cases Involving Women and Their Intimate Partners" (2021) 60(4) *Howard Journal of Crime and Justice* 580

Ireland S, "Homicide Reform: Too Little, Too Soon?" (2008) 5 *JUSTICE Journal* 81

Jeremy D, "Sentencing Policy or Short-term Expediency?" [2010] *Criminal Law Review* 593

Kennefick L, "Introducing a New Diminished Responsibility Defence for England and Wales" (2011) 74 *Modern Law Review* 750

Krebs B (ed), *Accessory Liability After Jogee* (2020)

Krebs B, "Written Jury Directions and Contributing to the Force of Numbers" (2020) 84 *Journal of Criminal Law* 172

Leverick F, "Is English Self-defence Law Incompatible with Article 2 of the ECHR?" [2002] *Criminal Law Review* 347

Mackay R, "Diminished Responsibility and Mentally Disordered Killers" yn Ashworth A a Mitchell B (gol), *Rethinking English Homicide Law* (2000)

Mackay R, "The New Diminished Responsibility Plea: More than Mere Modernisation?" yn Reed A a Bohlander M (gol), *Loss of Control and Diminished Responsibility. Domestic, Comparative and International Perspectives* (2011)

Mackay R, Mitchell B, "The New Diminished Responsibility Plea in Operation: Some Initial Findings" [2017] *Criminal Law Review* 18

Mackay R, "What's Happening with the Reformed Diminished Responsibility Plea?" (2021) 72 *Northern Ireland Legal Quarterly* 224

McColgan A, "General Defences" yn Nicolson D a Bibbings L (gol), *Feminist Perspectives on Criminal Law* (1999)

Miles J, "The Coroners and Justice Act 2009: A 'Dog's Breakfast' of Homicide Reform" (2009) 10 *Archbold News* 6

Mitchell B, "Identifying and Punishing the More Serious Murders" [2016] *Criminal Law Review* 467

Norrie A, "After Woollin" [1999] *Criminal Law Review* 532

Ormerod D a Laird K, "Jogee: Not the End of a Legal Saga but the Start of One" [2016] *Criminal Law Review* 539

Ormerod D a Laird K, *Smith, Hogan, & Ormerod's Criminal Law* (2021)

Parsons S, "The Loss of Control Defence – Fit for Purpose?" (2015) 79 *Journal of Criminal Law* 94

Quick O a Wells C, "Getting Tough with Defences" [2006] *Criminal Law Review* 514

Reed A a Bohlander M (gol), *Loss of Control and Diminished Responsibility. Domestic, Comparative and International Perspectives* (2011)

Reed A a Wake N, "Sexual Infidelity Killings: Contemporary Standardisations and Comparative Stereotypes" yn Reed A a Bohlander M (gol), *Loss of Control and Diminished Responsibility. Domestic, Comparative and International Perspectives* (2011)

Reed A, Wake N, Simpsons B (golygyddion gwadd), "Domestic and Comparative Perspectives on Loss of Self-control and Diminished Responsibility as Partial Defences to Murder: A 10-year Review of the Coroners and Justice Act 2009 Reform Framework (2021) 72 *Northern Ireland Legal Quarterly* (Special Issue) 161

Rix K, "Battered Woman Syndrome and the Defence of Provocation: Two Women with Something More in Common" (2001) 12 *Journal of Forensic Psychiatry* 131

Roberts J V, Saunders J, "Sentencing for Murder: The Adverse and Unintended Effects of Schedule 21 to the Criminal Justice Act 2003" [2020] *Criminal Law Review* 900

Rogers J, "The Law Commission's Proposed Restructuring of Homicide" (2006) 70 *Journal of Criminal Law* 223

Rogers J, "The New Homicide Ladder" (2007) 157 *New Law Journal* 48

Simester A, *Fundamentals of Criminal Law: Responsibility, Culpability, and Wrongdoing* (2021)

Smith J C, "Commentary on *R v Woollin*" [1998] *Criminal Law Review* 890

Spencer J a Virgo G, "Encouraging and Assisting Crime: Legislate in Haste, Repent at Leisure" (2008) 9 *Archbold News* 7

Spencer J R, "Messing Up Murder" (2008) 8 *Archbold News* 5

Stark E, *Coercive Control. How Men Entrap Women in Personal Life* (2007).

Stark F, "Reckless Manslaughter" [2017] *Criminal Law Review* 767

Sullivan G R, "Complicity for First-degree Murder and Complicity in an Unlawful Killing" [2006] *Criminal Law Review* 502

Sullivan G R, Crombag H, Child J, "Loss of Control in the Appeal Courts" (2021) 72 *Northern Ireland Legal Quarterly* 200

Tadros V, "The Homicide Ladder" (2006) 69 *Modern Law Review* 601

Taylor R, "The Nature of 'Partial Defences' and the Coherence of (Second-degree) Murder" [2007] *Criminal Law Review* 345

Thomas D, "Sentencing Murder: The Minimum Term" [2008] *Criminal Law Review* 904

Ulbrick M, Flynn A a Tyson D, "The Abolition of Defensive Homicide: a Step towards Populist Punitivism at the Expense of Mentally Impaired Offenders" (2016) 40 *Melbourne University Law Review* 324

Wake N, "Battered Women, Startled Householders and Psychological Self-Defence: Anglo-Australian Perspectives" (2013) 77 *Journal of Criminal Law* 433

Wake N, "Political Rhetoric or Principled Reform of Loss of Control? Anglo-Australian Perspectives on the Exclusionary Conduct Model" (2013) 77 *Journal of Criminal Law* 512

Williams G, "The Theory of Excuses" [1982] *Criminal Law Review* 732

Wilson W, "The Structure of Criminal Defences" [2005] *Criminal Law Review* 371

Wilson W, "The Structure of Criminal Homicide" [2006] *Criminal Law Review* 471

Wilson W, "What's Wrong with Murder?" (2007) 1 *Criminal Law and Philosophy* 157

Withey C, "Loss of Control, Loss of Opportunity?" [2011] *Criminal Law Review* 263

COMISIWN Y GYFRAITH

A New Homicide Act for England and Wales? (2005) Law Commission Consultation Paper No 177

Annual Report 2006-07 (2007) Law Com No 306

Criminal Appeals (2025) Law Commission Consultation Paper No 268

Criminal Liability: Insanity and Automatism, Discussion Paper (23 July 2013)

Defences for Victims of Domestic Abuse who Kill their Abusers, Background Paper (10 December 2024)

Inchoate Liability for Assisting and Encouraging Crime (2006) Law Com No 300

Involuntary Manslaughter (1996) Law Com No 237

Murder, Manslaughter and Infanticide (2006) Law Com No 304

Partial Defences to Murder (2003) Law Commission Consultation Paper No 173

Partial Defences to Murder (2004) Law Com No 290

Participating in Crime (2007) Law Com No 305

The Sentencing Code Volume I: Report (2018) Law Com No 382

LLYWODRAETH

Swyddfa Gartref, *Reforming the Law on Involuntary Manslaughter: The Government's Proposals* (Mai 2000)

Y Weinyddiaeth Gyfiawnder a'r Swyddfa Gartref, *Murder, Manslaughter and Infanticide: Proposals for Reform of the Law* (Gorffennaf 2008) CP 19/08

Y Weinyddiaeth Gyfiawnder, *Murder, Manslaughter and Infanticide: Summary of Responses and Government Position* (2009)

Y Weinyddiaeth Gyfiawnder, *Breaking the Cycle: Effective Punishment, Rehabilitation and Sentencing of Offenders* (Rhagfyr 2010) Cm 7972

Y Weinyddiaeth Gyfiawnder, *Report on the Implementation of Law Commission Proposals* (Ionawr 2011) HC 719

Y Weinyddiaeth Gyfiawnder, *Government Response to the Independent Review by Clare Wade KC* (Gorffennaf 2023) CP 872

PWYLLGOR CYFIAWNDER Tŷ'R CYFFREDIN

Post-legislative Scrutiny of Part 2 (Encouraging or Assisting Crime) of the Serious Crime Act 2007, Report of the House of Commons Justice Committee (2013-14) HC 639

Public Opinion and Understanding of Sentencing, Report of the House of Commons Justice Committee (2022-23) HC 305

GWASANAETH ERLYN Y GORON

Gwasanaeth Erlyn y Goron, *Suicide: Policy for Prosecutors in Respect of Cases of Encouraging and Assisting Suicide* (diweddarwyd ddiwethaf Hydref 2014)

Gwasanaeth Erlyn y Goron, *Consultation on Public Interest Guidance for Suicide Pact and 'Mercy Killing' Type Cases* (Ionawr 2022).

Gwasanaeth Erlyn y Goron, *Joint Enterprise Pilot 2023: Data Analysis* (Medi 2023)

Gwasanaeth Erlyn y Goron, *Prosecution Guidance on Homicide: Murder, Manslaughter, Infanticide and Causing or Allowing the Death or Serious Injury of a Child or Vulnerable Adult* (diweddarwyd ddiwethaf Hydref 2024)

ADOLYGIADAU ANNIBYNNOL

Clare Wade KC, *Independent Review of Domestic Homicide Sentencing* (Mawrth 2023)

'An independent review into the treatment of, and outcomes for, Black, Asian and Minority Ethnic individuals in the Criminal Justice System' gan Lywodraeth y DU.

Y Gwir Anrhydeddus David Gauke, *Independent Sentencing Review. History and Trends in Sentencing* (Chwefror 2025)

Y Gwir Anrhydeddus David Gauke, *Independent Sentencing Review. Final Report and Proposals for Reform* (Mai 2025)

CYMDEITHAS SIFIL

Cambridge Pro Bono Project, *The Law of Infanticide. A Preliminary Review of the UK Infanticide Act 1938* (2024)

Centre for Women's Justice, *Women who Kill: How the State Criminalises Women We Might Otherwise be Burying* (2021)

Centre for Women's Justice, *Making Self-Defence Accessible to Victims of Domestic Abuse who Use Force Against Their Abuser: Learning from Reforms in Canada, New Zealand and Australia* (2023)

LLYSOEDD Y DU

R v Adomako [1995] 1 AC 171

R v Ahluwalia [1992] 4 All ER 889

R v Chan-Fook [1994] 1 WLR 689

R v Challen [2019] EWCA Crim 916, [2019] *Criminal Law Review* 980

Chan Wing-Siu v The Queen [1985] AC 168

R v Clinton [2012] EWCA Crim 2, [2013] QB 1

R (Collins) v Secretary of State for Justice [2016] EWHC 33 (Admin), [2016] QB 862

R v Dawes, Hatter a Bowyer [2013] EWCA Crim 322, [2014] 1 WLR 947

R v Duffy [1949] 1 All ER 932

R v Golds [2016] UKSC 61, [2016] 1 WLR 5231

R v Gore [2007] EWCA Crim 2789, [2008] *Criminal Law Review* 388

R v Gotts [1992] 2 AC 412

R v Griffiths and others [2012] EWCA Crim 2822, [2013] 2 Cr App R (S) 48

R v Howe [1987] AC 417

R v Hussain a Hussain [2010] EWCA Crim 94, [2010] 2 Cr App R (S) 60

R v Inglis [2010] EWCA Crim 2637, [2011] 1 WLR 1110

R v Ireland [1998] AC 147

R v Jewell [2014] EWCA Crim 414

R v Jogee, Ruddock v The Queen [2016] UKSC 8, [2016] UKPC 7, [2017] AC 387

R v Jones [2005] EWCA Crim 3115, [2006] 2 Cr App R (S) 19

R v Kai-Whitewind [2005] EWCA Crim 1092, [2005] 2 Cr App R 31

R v Kelly and others [2011] EWCA Crim 1462, [2012] 1 WLR 55

R v Last [2005] EWCA Crim 106, [2005] 2 Cr App R (S) 64

R v Lidar [2000] 2 Cr App R 328

R v Lowe [1973] QB 702

R v Martin [2020] EWCA Crim 1798

R v Matthews [2003] EWCA Crim 192, [2003] 2 Cr App R 30

R v McLoughlin [2014] EWCA Crim 188, [2014] 1 WLR 3964

R v Moloney [1985] AC 905

R v Ness [2011] *Criminal Law Review* 645

R (Nicklinson) v Ministry of Justice [2014] UKSC 38, [2015] AC 657

R v Peters and others [2005] EWCA Crim 605, [2005] 2 Cr App R (S) 101

R (Purdy) v DPP [2009] UKHL 45, [2010] 1 AC 345

R v Rashford [2005] EWCA Crim 3377, [2006] *Criminal Law Review* 547

R v Rose [2017] EWCA Crim 1168, [2018] QB 328

R v Sadique a Hussain [2011] EWCA Crim 2872, [2012] 1 WLR 1700

R v Sullivan [2004] EWCA Crim 1762, [2005] 1 Cr App R 3

R v Thornton [1992] 1 All ER 306

R v Woollin [1999] AC 82

R v Z [2005] UKHL 22, [2005] 2 AC 467

LLYS HAWLIAU DYNOL EWROP

Giuliani a Gaggio v Italy (2012) 54 EHRR 10 (App No 23458/02) (Grand Chamber decision)

Hutchinson v UK App No 57592/08 (Grand Chamber decision)

McCann and others v UK (2008) 47 EHRR 40 (App 18984/91) (Grand Chamber decision)

Vinter v UK (2016) 63 EHRR 1 (App Nos 66069/09, 130/10 a 3896/10) (Grand Chamber decision)